

AWDURDOD TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU



DATGANIAD O GYFRIFON

2015-2016

Datganiad o Gyfrifon – Mynegai

Adroddiad Naratif	3-8
Datganiad o Gyfrifoldebau/Tystysgrif y Trysorydd	9
Datganiad Llywodraethu Blynnyddol	10-24
Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol	25-28
<u>Datganiadau Ariannol Craidd:</u>	29
Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn	30-31
Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	32
Mantolen	33
Datganiad Llif Arian	34
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol	35-90
Nodyn 1 Polisïau Cyfrifyddu	
Nodyn 2 Addasiadau'r Flwyddyn Flaenorol	
Nodyn 3 Safonau Cyfrifyddu a gyhoeddwyd ond nas mabwysiadwyd hyd yma	
Nodyn 4 Dyfarniadau beirniadol o ran cymhwyso Polisïau Cyfrifyddu	
Nodyn 5 Tybiaethau a wnaed ynghylch y dyfodol a ffynonellau eraill o ansicrwydd o ran amcangyfrifon	
Nodyn 6 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd	
Nodyn 7 Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail gyllido	
Nodyn 8 Trosglwyddiadau i'r Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy ac allan ohonynt	
Nodyn 9 Gwariant gweithredu arall	
Nodyn 10 Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi	
Nodyn 11 Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol	
Nodyn 12 Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar	
Nodyn 13 Asedau Anghyffyrddadwy	
Nodyn 14 Offerynnau Ariannol	
Nodyn 15 Rhestri Eiddo	
Nodyn 16 Dyledwyr	
Nodyn 17 Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	
Nodyn 18 Credydwyr	
Nodyn 19 Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy	
Nodyn 20 Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy	
Nodyn 21 Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau gweithredu	
Nodyn 22 Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau buddsoddi	
Nodyn 23 Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau ariannu	
Nodyn 24 Symiau a gofnodwyd ar gyfer penderfyniadau ynghylch dyrannu adnoddau	
Nodyn 25 Lwfansau'r aelodau	
Nodyn 26 Cydnabyddiaeth ariannol i'r swyddogion	
Nodyn 27 Costau'r Archwiliad Allanol	
Nodyn 28 Incwm grant	
Nodyn 29 Partion perthnasol	
Nodyn 30 Gwariant cyfalaf ac ariannu cyfalaf	
Nodyn 31 Lesoedd	
Nodyn 32 Colledion oherwydd diffygiant	
Nodyn 33 Buddion Terfynu	
Nodyn 34 Cynlluniau pensiwn buddion diffiniedig	
Nodyn 35 Natur a maint y risgiau sy'n deillio o Offerynnau Ariannol	
Nodyn 36 Rhwymedigaeth Amodol	
Cyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân	91-93
Rhestr o'r Termau a ddefnyddir yn y Datganiad o Gyfrifon	94-97

Adroddiad Naratif

Manylir ar y canllawiau gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru yn y Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub, a luniwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn ceisio ehangu rôl Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru mewn perthynas ag atal, addysg ac ymgysylltu â'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, gan sicrhau nad yw eu gallu adweithiol i ddiffodd tanau yn cael ei beryglu.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn llunio cynlluniau gweithredu blynyddol ar gyfer rheoli risgiau a gwella gwasanaethau, sydd â phwyslais cynyddol ar atal ac addysg. Mae'r Gwasanaeth yn cymryd rhan weithredol wrth weithio gyda'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu; un enghraifft o hyn yw cynnal archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref. Mae'r Awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaethau Brys eraill, er enghraifft mae Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Heddlu Dyfed Powys a Heddlu De Cymru wedi'u lleoli yn nifer o'n hadeiladau, a hefyd â Gwasanaeth Ambiwlans Cymru trwy'r cynllun Cyd-ymatebydd. Mae cynlluniau eraill yn cynnwys cymryd rhan yng ngweithgareddau Cymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc, sy'n cael ei gweithredu gan ddiffoddwyr tân nad ydynt ar ddyletswydd, a hynny mewn canghennau ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru; y prosiect Phoenix, sydd wedi bod yn boblogaidd iawn ymhlith grwpiau ieuenctid yn yr ardal; yn ogystal â chymryd rhan yn y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus newydd a ffurfiwyd dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae Datganiad o Gyfrifon yr Awdurdod yn gyhoeddiad sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith; prif ddiben y ddogfen yw darparu gwybodaeth glir am sefyllfa ariannol a pherfformiad ariannol Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2015-16.

Mae'r datganiadau, ynghyd â'u dibenion, fel a ganlyn:

Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon

Mae hwn yn nodi priod gyfrifoldebau yr Awdurdod a'i Swyddogion ar gyfer paratoi a chymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

Mae datganiad o'r cyfrifoldebau ar gyfer y datganiad o gyfrifon hwn i'w weld ar dudalen 9.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae'r datganiad hwn yn darparu adolygiad parhaus o effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu yr Awdurdod, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol a'r systemau rheoli risgiau, er mwyn rhoi sicrwydd o ran eu heffeithiolrwydd a/neu gynhyrchu cynllun gwaith ar gyfer y rheolwyr i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodir.

Mae'r Datganiadau Ariannol Craidd ar dudalennau 29 i 34 yn dangos y perfformiad ariannol ar gyfer y flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2015 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2016, ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn

Mae'r Datganiad hwn yn dangos y symudiadau yn ystod y flwyddyn ar y cronfeydd wrth gefn gwahanol a ddelir gan yr Awdurdod, wedi'u dadansoddi'n 'gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy' (h.y. y rheiny y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant neu leihau trethiant lleol) a chronfeydd wrth gefn eraill. Mae'r (Gwarged) neu'r Diffyg ar y llinell Darparu Gwasanaethau yn dangos y gwir gost economaidd o ddarparu gwasanaethau'r Awdurdod, a cheir rhagor o fanylion yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae hwn yn wahanol i'r symiau statudol y mae'n ofynnol i Falans y Gronfa Gyffredinol eu talu, ac mae'r llinell Cynnydd/Gostyngiad cyn Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi yn dangos Balans y Gronfa Gyffredinol statudol cyn i'r Awdurdod Tân ac Achub wneud unrhyw drosglwyddiadau yn ôl disgrisiwn i'r cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, neu allan ohonynt.

Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Mae'r datganiad hwn yn amlygu'r gost gyfrifyddu yn ystod y flwyddyn ar gyfer darparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm sydd i'w gyllido trwy drethi. Mae awdurdodau yn codi trethiant er mwyn talu am y gwariant, yn unol â'r rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddu. Dangosir y sefyllfa drethiant yn y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Mantolen

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan yr Awdurdod fel yr oeddent ar y dyddiad a nodir ar y Fantolen. Mae'r cronfeydd wrth gefn a ddelir gan yr Awdurdod yn cyfateb i asedau net yr Awdurdod (asedau llai rhwymedigaethau). Adroddir ar y cronfeydd wrth gefn mewn dau gategori. Y categori cyntaf o gronfeydd wrth gefn yw'r cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, h.y. y cronfeydd wrth gefn hynny y gall yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gynnal y cronfeydd wrth gefn ar lefel ddarbodus ac unrhyw gyfyngiadau statudol o ran y defnydd ohonynt (er enghraifft Cronfa Wrth Gefn y Derbyniadau Cyfalaf, na ellir ei defnyddio ond i ariannu gwariant cyfalaf neu i ad-dalu dyledion). Mae'r ail gategori o gronfeydd wrth gefn yn cynnwys cronfeydd wrth gefn sy'n dal enillion a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn), lle byddai symiau ar gael i ddarparu gwasanaethau dim ond pe byddai'r asedau yn cael eu gwerthu; a chronfeydd wrth gefn sy'n dal gwahaniaethau o ran amseru a ddangosir yn y llinell 'Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail gyllido o dan reoliadau' yn y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Datganiad Llif Arian

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar gyfer yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos y modd y mae'r Awdurdod yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod trwy ddsbarthu llifoedd arian yn weithgareddau gweithredol, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llifoedd arian net sy'n deillio o weithgareddau gweithredol yn ddangosydd allweddol o'r graddau y caiff gweithrediadau yr Awdurdod eu hariannu trwy drethiant ac incwm grant, neu gan y sawl sy'n cael y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod. Mae gweithgareddau

buddsoddi yn cynrychioli'r graddau y mae all-lifau arian parod wedi cael eu gweithredu ar gyfer adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu at waith yr Awdurdod o gyflawni gwasanaethau yn y dyfodol. Mae llifoedd arian parod sy'n deillio o weithgareddau ariannu yn ddefnyddiol ar gyfer rhagweld hawliadau ar lifau arian parod yn y dyfodol gan y sawl sy'n darparu cyfalaf (h.y. benthyciad) i'r Awdurdod.

Cyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân

Mae hwn yn dangos sefyllfa ariannol cyfrif cronfa pensiwn y Diffoddwyr Tân, gan ddangos a oes ar yr Awdurdod arian i Lywodraeth Cymru, neu a oes ar Lywodraeth Cymru arian i'r Awdurdod, a hynny er mwyn mantoli'r cyfrif, ynghyd â manylion am ei asedau net.

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol

Mae'r nodiadau yn cyflwyno gwybodaeth am sail baratoi'r datganiadau ariannol, ynghyd â'r polisiâu cyfrifyddu penodol a ddefnyddir. Maent yn datgelu gwybodaeth nas cyflwynir yn unman arall yn y datganiadau ariannol, ond sy'n berthnasol er mwyn eu deall.

CRYNODEB O'R FLWYDDYN ARIANNOL

Yr alldro ar gyfer y flwyddyn 2015-16

	Cyllideb £000	Gwirioneddol £000	Amrywiant £000
Refeniw			
Gwariant (yn cynnwys grantiau)	46,569	47,606	1,037
Incwm (yn cynnwys grantiau)	(2,800)	(4,111)	(1,311)
Gwariant Net (yn cynnwys grantiau)	43,769	43,495	(274)
Cyfraniadau Awdurdodau Unedol	(43,769)	(43,769)	0
(Gwarged)/Diffyg	0	(274)	(274)
Cyfalaf (yn cynnwys llithriad wedi'i ddwyn ymlaen)	6,366	3,483	(2,883)

Cysoni 'Gwarged y Refeniw' â'r 'Gwarged ar Ddarparu Gwasanaethau'

*Gwarged y Refeniw	(274)
Addasiadau Cyfrifyddu	<u>14,667</u>
**Darparu Gwasanaethau	14,393

*manylion yn 'Yr Alldro ar gyfer y Flwyddyn 2015/16'

**manylion yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Mae'r Awdurdod yn mynd i gostau gwariant refeniw ar eitemau, sydd fel arfer yn cael eu defnyddio o fewn y flwyddyn, ac ariennir hyn gan gyfraniadau'r chwe awdurdod lleol cyfansoddol, mewn cyfrannedd â'r boblogaeth. Ar gyfer 2015/16, roedd y cyfraneddau fel a ganlyn:

	Gwerthoedd £000	Cyfran %
Cyngor Sir Caerfyrddin	9,067	20.7
Cyngor Sir Ceredigion	3,666	8.4
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot	6,797	15.5
Cyngor Sir Penfro	5,983	13.7
Cyngor Sir Powys	6,483	14.8
Cyngor Dinas a Sir Abertawe	11,773	26.9
Cyfanswm	43,769	100.0

Gwariant Refeniw

Cyfanswm y gwariant net ar gyfer y flwyddyn oedd £43.495 miliwn, o gymharu â'r gyllideb gwariant net o £43.769 miliwn. Cyflawnwyd y tanwariant o £0.274 miliwn trwy gwtogi ar y gwariant lle bynnag yr oedd hynny'n bosibl, a hynny er mwyn lleihau'r pwysau disgwylidig yn 2016-17 a manteisio ar gynifer o gyfleoedd â phosibl i adfer costau.

Ffynonellau Cyllid Refeniw

2014-15 £000		2015-16 £000
42,917	Cyfraniadau Awdurdodau Unedol	43,769
2,574	Grantiau Refeniw	2,668
5	Llog	27
655	Ffioedd a Thaliadau/Ad-daliadau	1,416

Gwariant Cyfalaf

Cyfanswm y gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn oedd £3.483 miliwn.

Wedi'i ailddatgan 2014-15		2015-16
£000		£000
832	Eiddo – Gwaith adnewyddu, addasiadau, adeiladau newydd	487
1,917	Cerbydau a Pheiriannau	1,697
266	Gweithredol ac Offer TGCh	274
130	Asedau sy'n Cael eu Hadeiladu	991
48	Asedau Anghyffyrddadwy	34
3,193	Cyfanswm y Gwariant Cyfalaf	3,483

Benthyca Cyfalaf

Mae'r Cod Darbodus yn galluogi'r Awdurdod i bennu ei derfynau benthyca ei hun, ar yr amod bod y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn ystyried bod y terfynau hynny yn ddarbodus, yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy. Daw'r holl fenthyciadau oddi wrth y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLb), ac nid oes yr un cyfleuster allanol arall ar waith ar hyn o bryd. Cafwyd benthyciadau allanol newydd o £5.5 miliwn yn ystod y flwyddyn, mewn cysylltiad â'r gofyniad cyllido cyfalaf. Cyfanswm y prifswm sy'n ddyledus ar 31 Mawrth 2016 yw £20.746 miliwn.

Ymrwymiad Pensiwn

Yn 2015-16, roedd ugain aelod o staff wedi ymddeol. Mae cost net Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân i'r gyllideb refeniw yn parhau i dyfu; fodd bynnag, mae'r rhwymedigaeth mewn perthynas ag ymrwymadau pensiwn yn y dyfodol wedi gostwng o ganlyniad i addasiadau a wnaed gan yr Actiwariadaid i'w tybiaethau. Roedd y rhwymedigaeth, wedi'i hasesu ar sail tybiaethau actiwaraidd, ar 31 Mawrth 2016 yn £382.55 miliwn ar gyfer Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân, ac yn £9.426 miliwn ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

O dan Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 19 (Buddion Cyflogeion), mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddarparu manylion yr asedau a rhwymedigaethau'r dyfodol ar gyfer pensiynau sy'n daladwy i gyflogeion, yn gyn-gyflogeion ac yn gyflogeion presennol. Amlinellir hyn yn fanylach yn y datgeliadau i'r cyfrifon.

Cyfrifyddu o ran y Cyfrifon Wrth Gefn

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae'r Datganiad o Gyfrifon yn dangos cronfeydd wrth gefn wedi'u dwyn ymlaen i 2016-17. Mae hyn yn gyson â thriniaeth gyfrifyddu'r blynyddoedd blaenorol, ac mae'r arfer o gynnal a defnyddio cronfeydd wrth gefn yn ffurfio conglaen i sefydlogrwydd ariannol corfforaethol a'r gwaith o gynllunio gwasanaethu gweithredol yn y byrdymor a'r tymor canolog.

Costau Cyllid Cyfalaf

Y costau i gyfrifon referniw y Gwasanaeth, i adlewyrchu cost yr asedau sefydlog a ddefnyddiwyd wrth ddarparu gwasanaethau, oedd £3.429 miliwn. Cost dybiannol ar gyfer dibrisiant yw hon, ac addasir y balans ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn peidio ag effeithio ar y cyfraniadau sy'n ofynnol i ariannu'r Gwasanaeth. Y gwir gost i'r Gwasanaeth ar gyfer ariannu cyfalaf yw £950 mil ar gyfer y llog ar fenthyciadau a lesiodd cyllid, a £2.097 miliwn ar gyfer y Ddarpariaeth Isafswm Referniw.

Effaith yr Hinsawdd Economaidd Gyfredol

Roedd y dirywiad economaidd cenedlaethol, ynghyd â chanlyniadau'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, wedi rhoi bras syniad o lefel y toriadau i Wasanaethau Cyhoeddus a ddisgwylir yn y blynyddoedd sydd i ddod. Fodd bynnag, o ganlyniad i ganlyniadau'r refferendwm diweddar i adael yr Undeb Ewropeaidd, mae lefel gwariant y llywodraeth a setliadau yn y dyfodol yn ansicr.

Mae Cynllun Gwella Blynyddol yr Awdurdod yn amlinellu amryw o brosiectau i adolygu'r strwythurau a phrosesau sydd ar waith ledled y sefydliad, a hynny er mwyn sicrhau'r toriadau gofynnol ar gyfer blynyddoedd i ddod. Cafodd goblygiadau ariannol y prosiectau hyn eu hadlewyrchu'n glir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Gyda chyni mewn cof, rhoddwyd neges glir i ddeiliaid cyllidebau nodi effeithlonrwydd a sicrhau arbedion lle bo hynny'n bosibl, nid yn unig ar gyfer y dyfodol, ond o fewn y flwyddyn ariannol.

Wedi ystyried darbodusrwydd y cronfeydd wrth gefn, rhagwelir y gellir defnyddio'r rhan fwyaf o'r arbedion a sicrhawyd yn 2015-16 ar gyfer gwelliant gweithredol, a hynny yn ôl disgrisiwn yr Awdurdod Tân ac Achub.

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae gwybodaeth ychwanegol am y cyfrifon hyn ar gael gan y Pennaeth Cyllid. Mae gan aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb hefyd hawl statudol i archwilio'r cyfrifon cyn i'r archwiliad gael ei gwblhau; hysbysebiri argaeledd y cyfrifon i'w harchwilio yn y wasg leol.

Cydnabyddiaethau

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r holl staff Ariannol yn y Gyfarwyddiaeth Adnoddau, ynghyd â'u cyd-weithwyr ledled yr Awdurdod, sydd wedi gweithio i baratoi'r datganiadau hyn. Hoffwn hefyd ddiolch i'r Prif Swyddog Tân a'r Cyfarwyddwyr am eu cymorth a'u cydweithrediad trwy gydol y broses.

Chris Moore
Swyddog A151

Dyddiad

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU

Cyfrifoldebau'r Awdurdod

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod wneud y canlynol:

- gwneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn briodol, a sicrhau bod un o'i Swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Y Trysorydd yw'r Swyddog hwnnw yn yr Awdurdod hwn.
- rheoli ei faterion i sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau, a diogelu ei asedau.
- cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid

Y Prif Swyddog Cyllid sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad o Gyfrifon yr Awdurdod, gan gynnwys Cyfrifon y Gronfa Bensiwn, a hynny'n unol â'r arferion priodol a nodir yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig ("y Cod").

Wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon hwn, mae'r Prif Swyddog Cyllid wedi:

- dewis polisiau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol a doeth;
- cydymffurfio â Chod yr Awdurdod Lleol.

Mae'r Prif Swyddog Cyllid hefyd wedi:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a chyfredol;
- cymryd camau rhesymol i atal a datgelu twyll ac achosion eraill o afreoleidd-dra.

TYSTYSGRIF Y PRIF SWYDDOG ARIANNOL

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cwblhau'r Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ar gyfer 2015-16, ac wedi cyhoeddi barn archwilio gymwys o ganlyniad i effeithiau posibl y materion canlynol:

- ansicrwydd o ran cywirdeb dosbarthu incwm a gwariant ar draws y pum cydran "Cost y Gwasanaeth" yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr;
- ansicrwydd o ran y dosbarthiad yn nodyn datgelu 8 "Trosglwyddiadau i'r cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ac allan ohonynt";
- ansicrwydd o ran cywirdeb dosbarthu'r gwariant yn nodyn datgelu 24 "Symiau a gofnodwyd ar gyfer penderfyniadau ynghylch dyrannu adnoddau".

Felly, ac eithrio effeithiau posibl y materion uchod, a nodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, rwy'n ardystio bod y cyfrifon yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2016, ynghyd â'i incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw.

Llofnod: _____ **Prif Swyddog Ariannol**

Chris Moore FCCA – Dyddiad: 6 Mehefin 2018

TYSTYSGRIF CADEIRYDD YR AWDURDOD TÂN

Rwy'n cadarnhau bod y Cyfrifon hyn wedi cael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub.

Llofnod: _____ **Cadeirydd yr Awdurdod Tân**

Y Cynghorydd Rowland Rees-Evans – Dyddiad: 6 Mehefin 2018

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Cod Llywodraethu Corfforaethol – Datganiad Polisi	10
Cod Llywodraethu Corfforaethol – Datganiad o Sicrwydd	11-12
Y Cod Llywodraethu Corfforaethol	13-24

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cod Llywodraethu Corfforaethol

Datganiad Polisi

Cyfrifoldeb Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yw sicrhau bod ei fusnes yn cael ei reoli yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y gwneir cyfrif priodol amdano, a'i fod hefyd yn cael ei ddefnyddio mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol. Wrth gyflawni'r atebolrwydd hwn, mae'r Aelodau a'r Uwch-swyddogion yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu materion yr Awdurdod Tân ac Achub, ynghyd â stiwardio'r adnoddau y mae'n eu defnyddio. I'r perwyl hwn, mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cymeradwyo a mabwysiadu cod llywodraethu corfforaethol, sy'n gyson â'r egwyddorion, ac sy'n adlewyrchu gofynion Fframwaith CIPFA (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth)/SOLACE (Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol): *'Llywodraethu Da Mewn Llywodraeth Leol'* ynghyd â'r canllawiau cysylltiedig.

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cod Llywodraethu Corfforaethol

Datganiad o Sicrwydd

Cyfrifoldeb Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yw sicrhau bod ei fusnes yn cael ei reoli yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y gwneir cyfrif priodol amdano, a'i fod hefyd yn cael ei ddefnyddio mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol. Er mwyn cyflawni'r atebolrwydd hwn, mae'r Aelodau a'r Uwch-swyddogion yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu materion yr Awdurdod Tân ac Achub, ynghyd â stiwardio'r adnoddau y mae'n eu defnyddio. I'r perwyl hwn, mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cymeradwyo a mabwysiadu cod llywodraethu corfforaethol, sy'n gyson â'r egwyddorion, ac sy'n adlewyrchu gofynion Fframwaith CIPFA/SOLACE, '*Llywodraethu Da Mewn Llywodraeth Leol*'. Mae copi o'r cod i'w weld ar ein gwefan www.mawwfire.gov.uk neu gellir cael copi ohono gan Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Pencandlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Heol Llwyn Pisgwydd, Caerfyrddin SA31 1SP.

Yn ystod y flwyddyn 2015-16, mae'r Awdurdod wedi adolygu ei drefniadau rheoli ac adrodd er mwyn ei alluogi i'w fodloni ei hun fod ei ddull o ran llywodraethu Corfforaethol yn ddigonol ac yn effeithiol yn ymarferol. Yn benodol, mae wedi rhoi'r cyfrifoldeb i Glerc yr Awdurdod oruchwylio'r gwaith o weithredu a monitro'r Cod, gan adolygu ei weithrediad yn ymarferol, ac adrodd yn flynyddol i'r Awdurdod am gydymffurfiaeth â'r Cod ac unrhyw newidiadau a allai fod yn angenrheidiol i gynnal a sicrhau ei effeithiolrwydd.

At hynny, mae Cyfarwyddwr Adnoddau yr Awdurdod yn gyfrifol am gynnal adolygiad annibynnol ac adrodd i'r Awdurdod yn flynyddol, a hynny er mwyn rhoi sicrwydd bod y Cod yn ddigonol ac yn effeithiol, ac i nodi i ba raddau y cydymffurfir ag ef. Ar sail adroddiadau'r Clerc a'r Cyfarwyddwr Adnoddau, sy'n deillio o'u hadolygiadau o drefniadau llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod, rydym yn fodlon bod y rhain, ar y cyfan, yn ddigonol ac yn gweithredu'n effeithiol. Bu yna broblemau yn ymwneud â chyflwyno ffurflenni TAW, ac mae Arolygiad TAW wedi amlygu diffyg arbenigedd o ran TAW. Mae'r Awdurdod yn mynd i'r afael â'r materion hyn trwy gyfres o gynlluniau gweithredu a roddwyd ar waith er mwyn sicrhau bod yr arbenigedd angenrheidiol ar gael. Bu cyfnod o bontio yn y Gyfarwyddiaeth Adnoddau yn dilyn ymddeoliad y Pennaeth Cyllid a'r Cyfarwyddwr Adnoddau. Llanwyd y swyddi dros dro er mwyn gwneud yn siŵr bod unigolion cymwysedig a chymwys ar gael i sicrhau bod gofynion llywodraethu yr Awdurdod yn cael eu gweinyddu'n briodol. Ym mis Awst 2017, penodwyd Pennaeth Cyllid parhaol, a weithredodd fel swyddog A151 dros dro am gyfnod byr tra bo trefniadau amgen yn cael eu rhoi ar waith. Ym mis Ionawr 2018, penododd y Pwyllgor Penodiadau Swyddog A151 o dan gytundeb Lefel Gwasanaeth â Chyngor Sir Caerfyrddin. Dylid darllen y datganiad hwn ar y cyd â'r adroddiad atodedig ar Lywodraethu Corfforaethol.

Mae'r Awdurdod yn ceisio gwella'n barhaus effeithiolrwydd ei drefniadau ar gyfer llywodraethu materion yr Awdurdod. Byddwn yn adolygu cydymffurfiaeth barhaus â'r Cod yn rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf, ac rydym yn fodlon y bydd y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r angen am welliant, a nodwyd yn adolygiad eleni, yn cael eu monitro.

Llofnodwyd:

Dyddiad:.....

Y Cyngorydd R Rees-Evans, Cadeirydd yr Awdurdod Tân

Llofnodwyd:

Dyddiad:.....

C. Davies, Prif Swyddog Tân

Y COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

1. Cefndir

Mae'r term Llywodraethu Corfforaethol yn cyfeirio at 'y system y mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn ei defnyddio i gyfarwyddo a rheoli ei swyddogaethau ac i gysylltu â'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu'. Felly, mae'n cynnwys cyfanswm y polisiau, systemau rheoli, gweithdrefnau a strwythurau sydd, gyda'i gilydd, yn pennu ac yn rheoli'r ffordd y mae'r Awdurdod yn rheoli ei fusnesau ac yn llunio ei strategaethau ac amcanion, er budd cyffredinol cymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cydnabod ei gyfrifoldeb, fel sefydliad Gwasanaeth Cyhoeddus, i ddarparu gweledigaeth ar gyfer y gymuned y mae'n ei gwasanaethu, a hefyd i arwain trwy esiampl o ran gwneud penderfyniadau, yn ogystal ag o ran prosesau a gweithrediadau eraill, gyda'r Aelodau a'r Swyddogion yn ymddwyn yn unol â safonau ymddygiad uchel.

Adlewyrchir yr egwyddorion hyn yng nghenhadaeth, amcanion allweddol a gwerthoedd craidd yr Awdurdod, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i adlewyrchu anghenion y Gwasanaeth a'n cymunedau.

Ym mis Ebrill 2008, aeth yr Awdurdod ati i gymeradwyo a mabwysiadu Cod Llywodraethu Corfforaethol yn seiliedig ar Fframwaith CIPFA/SOLACE, "**Llywodraethu Da Mewn Llywodraeth Leol**". Mae'r egwyddorion a'r safonau a nodir yn y Cod wedi cael eu datblygu i helpu'r Awdurdod i wella ei berfformiad, i roi gwell gwasanaethau lleol i'r bobl leol, ac i ddarparu arweinyddiaeth gryfach ar gyfer ei gymunedau.

Mae strwythur y fframwaith Llywodraethu Da yn galluogi'r Awdurdod i fynd ar drywydd ei weledigaeth yn effeithiol, ac yn tanategu'r weledigaeth honno â'r mecanweithiau ar gyfer rheoli risgiau a sicrhau gonestrwydd.

2. Cod Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod

Yn dilyn mabwysiadu Cod Llywodraethu Corfforaethol, mae angen i'r Awdurdod allu dangos ei fod yn cydymffurfio â'r chwe egwyddor graidd a ddiffinnir yn y Fframwaith ac sy'n sail i'r Cod:

- Canolbwyntio ar ddiben yr Awdurdod ac ar ganlyniadau ar gyfer y gymuned, a chreu a gweithredu gweledigaeth ar gyfer yr ardal leol.
- Aelodau a Swyddogion yn cydweithio i gyflawni diben cyffredin, ac iddo swyddogaethau a rolau a ddiffinnir yn glir.
- Hyrwyddo'r gwerthoedd ar gyfer yr Awdurdod, ac arddangos gwerthoedd llywodraethu da trwy gynnal safonau ymddygiad.
- Gwneud penderfyniadau doeth a thryloyw, sy'n ddarostyngedig i broses graffu effeithiol a rheoli risgiau.
- Datblygu gallu a galluogrwydd yr Aelodau a'r Swyddogion i fod yn effeithiol.

- Ymgysylltu â phobl leol a rhanddeiliaid eraill er mwyn sicrhau atebolrwydd cyhoeddus cadarn.

Ar gyfer pob un o'r rhain, mae'r Awdurdod wedi nodi'r camau gweithredu sy'n angenrheidiol i fodloni egwyddorion o'r fath, ynghyd â'r prosesau/ddogfennaeth sy'n ofynnol i arddangos cydymffurfiaeth. Golyga hyn fod yr Awdurdod yn gallu adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu.

Er mwyn ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn, mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ymrwymedig i gynnal tair egwyddor sylfaenol Llywodraethu Corfforaethol, fel y nodir yn y canllawiau a gyhoeddwyd gan CIPFA/SOLACE.

Bod yn Agored a Chynwysoldeb

Mae'n ofynnol bod yn agored er mwyn sicrhau y gall rhanddeiliaid fod yn hyderus ym mhrosesau Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru o ran gwneud penderfyniadau a rheoli, ac yn nulliau gweithredu'r unigolion o fewn yr Awdurdod. Bydd dull cynhwysol hefyd yn sicrhau bod yr holl randdeiliaid a darpar randdeiliaid yn cael cyfle i ymgysylltu'n effeithiol â'r broses gwneud penderfyniadau ac â chamau gweithredu Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Uniondeb

Mae hyn yn cynnwys ymddwyn mewn modd syml a chyflawn. Bydd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gweithredu mewn modd gonest, anhunanol a gwrthrychol bob amser, gan gynnal safonau uchel o ran priodoldeb a gonestrwydd mewn perthynas â'i stiwardiaeth o'r cronfeydd cyhoeddus a'r gwaith o reoli ei faterion. Mae fframwaith rheoli effeithiol, sy'n cwmpasu gweithdrefnau gwneud penderfyniadau, y gwaith o gyflawni'r gwasanaeth, ac ansawdd y gwaith o adrodd ar gyllid a pherfformiad, yn hanfodol, ynghyd â safonau personol a phroffesiynoldeb y staff a gyflogir yn y Gwasanaeth ac Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, fel ei gilydd.

Atebolrwydd

Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi sefydlu prosesau lle mae'r Aelodau a'r Staff cyflogedig yn gyfrifol am eu penderfyniadau a'u gweithrediadau, gan gynnwys stiwardiaeth o'r cronfeydd cyhoeddus a phob agwedd ar berfformiad, ac felly maent yn destun prosesau craffu allanol priodol. Cyflawnir hyn trwy i'r holl bartïon feddu ar ddealltwriaeth glir o'r cyfrifoldebau hynny, yn ogystal â bod ganddynt rolau a ddiffinnir yn glir o fewn strwythur cadarn.

Egwyddor 1: Canolbwyntio ar ddiben y sefydliad ac ar ganlyniadau ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr y gwasanaeth		
Mae'r egwyddorion llywodraethu da a fabwysiadwyd gennym fel a ganlyn:	Yr hyn a wnawn i'w cyflawni	Y modd y byddwn yn arddangos cydymffurfiaeth
<p>Canolbwyntio ar ddiben yr Awdurdod ac ar ganlyniadau ar gyfer y gymuned a'i dinasyddion, a chreu gweledigaeth ar gyfer GTACGC:</p> <p>Trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Arfer arweinyddiaeth sy'n cyfathrebu gweledigaeth yr Awdurdod, ynghyd â'i ganlyniadau arfaethedig ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth, yn eglur. • Sicrhau bod y defnyddwyr yn cael gwasanaeth o ansawdd uchel, a hynny yn uniongyrchol neu mewn partneriaeth â chyrrff eraill. • Sicrhau bod yr Awdurdod yn gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau ac yn arddangos gwerth am arian. 	<ul style="list-style-type: none"> • Llunio datganiad clir o ddiben a gweledigaeth yr Awdurdod, yn sail i'r gwaith o gynllunio gwasanaethau, ac adolygu'r datganiad hwnnw yn rheolaidd. <p>Yn flynyddol, cyhoeddi cynllun o'r gweithgareddau a'r canlyniadau arfaethedig i wella gwasanaethau, ynghyd â'r dulliau o fesur perfformiad yn erbyn yr amcanion hyn.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddi adroddiad ar weithgareddau, cyflawniadau a pherfformiad yr Awdurdod, gan gynnwys ei berfformiad a'i sefyllfa ariannol. • Datblygu a gweithredu blaengynllun ariannol, yn unol â gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru, er mwyn sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i fodloni ei gynlluniau arfaethedig ac i roi gwerth am arian. • Datblygu cynlluniau i gynnal gwasanaethau optimwm ar adegau pan darfir ar barhad gwasanaethau. • Datblygu trefniadau sydd wedi'u diffinio'n glir ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i ddarparu gwell gwasanaethau. 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddi datganiad clir o weledigaeth, Datganiad o Genhadaeth a gwerthoedd yr Awdurdod yn ei Gynllun Lleihau Risgiau a'i Gynllun Gwella. • Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol a Chynllun Gwella, gyda diweddariadau chwarterol ar berfformiad ar gael trwy'r Rhynggrwyd. • Cyhoeddi Datganiad Cyfrifon Blynyddol, ynghyd ag adroddiadau chwarterol ar fonitro'r gyllideb i'r Pwyllgor Adnoddau. • Gweithredu proses ar gyfer cofnodi ac ymateb i gŵynion a sylwadau, ac adrodd ar y broses honno. • Cynnal cynlluniau parhad y gwasanaeth yn seiliedig ar asesiad risg o'r bygythiadau i'r Awdurdod, a phrofi'r cynlluniau hynny yn rheolaidd. • Cyhoeddi strategaeth partneriaeth. • Pob partneriaeth i gynnwys proses werthuso a gwaith monitro perfformiad rheolaidd. • Cyhoeddi'r holl asesiadau allanol o berfformiad.

Egwyddor 2: Cyflawni'n effeithiol mewn swyddogaethau a rolau a ddiffinnir yn glir		
Mae'r egwyddorion llywodraethu da a fabwysiadwyd gennym fel a ganlyn:	Yr hyn a wnawn i'w cyflawni	Y modd y byddwn yn arddangos cydymffurfiaeth
<p>Gweithio i gyflawni'r amcanion a nodwyd o fewn rolau a swyddogaethau Aelodau a Swyddogion a ddiffinnir yn glir:</p> <p>Trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Fod yn glir ynghylch swyddogaethau a rolau yr Awdurdod, ynghyd â'i Bwyllgorau a'i Swyddogion. • Sicrhau perthnasoedd gwaith adeiladol ac effeithiol rhwng Aelodau a Swyddogion, a sicrhau eu bod yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau i safon uchel. • Sicrhau bod y perthnasoedd rhwng yr Awdurdod a'r cyhoedd yn glir, a bod y naill yn ymwybodol o'r hyn a ddisgwylir gan y llall. 	<ul style="list-style-type: none"> • Gosod datganiad clir o briod rolau a chyfrifoldebau'r Aelodau a'r Swyddogion, sy'n egluro'r dirprwyaethau i'r Swyddogion. • Sicrhau protocol i ofalu bod yna gyfathrebu effeithiol rhwng yr Aelodau a'r Swyddogion. • Egluro telerau ac amodau cyflogaeth, gan gynnwys cydnabyddiaeth ariannol i Aelodau a Swyddogion, a sefydlu dull effeithiol ar gyfer rheoli'r broses. • Sicrhau bod dulliau effeithiol ar gyfer monitro perfformiad y Gwasanaeth yn cael eu sefydlu. • Sicrhau bod diben a statws cyfreithiol unrhyw bartneriaethau yn glir, a bod rolau a chyfrifoldebau yr holl bartneriaid yn glir. 	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnal cylchoedd gorchwyl pwyllgorau ar gyfer pob pwyllgor. • Cynnal cynllun dirprwyo i'r Prif Swyddog Tân, i'r Clerc, ac i'r Cyfarwyddwr Adnoddau. • Cynnal cynllun o archebion sefydlog a phrotocol Aelodau/Swyddogion er mwyn rheoli rhyngweithiadau rhwng aelodau a swyddogion. • Cynnal system friffio ar gyfer Aelodau yn rhan o gylch y pwyllgorau. • Sicrhau bod gan yr holl staff swydd-ddisgrifiadau cyfredol a pherthnasol. • Adrodd yn barhaus i'r rheolwyr ar berfformiad trwy system amser real, gydag adroddiadau chwarterol i'r Aelodau trwy'r Archwiliad o Berfformiad a'r Pwyllgor Craffu. • Gweithredu proses rheoli risgiau ar gyfer partneriaethau, er mwyn gwerthuso pob partneriaeth o bwys cyn cychwyn arni.

Egwyddor 3: Hybu gwerthoedd ar gyfer y sefydliad cyfan, ac arddangos llywodraethu da trwy ymddygiad		
Mae'r egwyddorion llywodraethu da a fabwysiadwyd gennym fel a ganlyn:	Yr hyn a wnawn i'w cyflawni	Y modd y byddwn yn arddangos cydymffurfiaeth
<p>Hybu ac arddangos gwerthoedd yr Awdurdod trwy ein hymddygiad:</p> <p>Trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod Aelodau a Swyddogion yn ymddwyn mewn ffyrdd sy'n amlygu gwerthoedd yr Awdurdod. • Sicrhau bod y gwerthoedd hyn yn cael eu gweithredu, a'u bod yn effeithiol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Sefydlu a mynegi gwerthoedd yr Awdurdod i'r cyhoedd, i'w staff ac i'w randdeiliaid. • Arddangos y gwaith o gymhwyso'r gwerthoedd hyn wrth wneud penderfyniadau ac o ran ymddygiad cyffredinol. • Mabwysiadu codau ymddygiad sy'n diffinio'r safonau a'r ymddygiad a ddisgwylir wrth weithio i'r Awdurdod neu gyda'r Awdurdod. • Cynnal trefniadau i sicrhau na fydd buddion personol, tuedd na rhagfarn yn dylanwadu ar Aelodau ac uwch-reolwyr wrth iddynt wneud penderfyniadau. • Cynnal trefniadau ar gyfer adrodd ar sefyllfaoedd pan fydd y safonau yn disgyn yn is na'r hyn a ddisgwylir, yn ogystal ag ymchwilio i'r sefyllfaoedd hynny a delio â nhw. • Wrth weithio gyda phartneriaid, cytuno i'r gwerthoedd hynny y bydd pob parti yn y bartneriaeth yn gweithredu'n unol â nhw. 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddi ein gweledigaeth, cenhadaeth, gwerthoedd ac amcanion mewn cyhoeddiadau allweddol, gan gynnwys ein Cynllun Gwella. • Cyhoeddi a gweithredu codau ymddygiad ar gyfer Aelodau a Swyddogion. • Ei gwneud yn ofynnol i Aelodau a Swyddogion lenwi datganiadau o fuddiant a ffurflenni trafodiadau partïon cysylltiedig yn flynyddol. • Cynnal Pwyllgor Safonau i oruchwylio safonau'r Aelodau ac i wrando ar unrhyw gŵynion. • Cynnal proses ddisgyblu i ddelio ag unrhyw achosion o dorri'r cod ymddygiad ar gyfer Swyddogion. <ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod Rheolau a phrotocolau'r Awdurdod a'r Weithdrefn Ariannol yn gyfredol. • Cynnal a chyhoeddi protocol "chwythu'r chwiban" er mwyn galluogi i bryderon ynghylch ymddygiad gael eu hadrodd yn gyfrinachol. • Cynnal Polisi Atal Twyll a Llygredd. • Cynnal gweithdrefn cwynion a sylwadau/canmoliaeth, ac adrodd ar y canlyniadau o leiaf unwaith y flwyddyn. • Sefydlu trefniadau gweithio â phartneriaethau arwyddocaol, sy'n adlewyrchu'r gwerthoedd hyn.

Egwyddor 4: Gwneud penderfyniadau doeth, tryloyw a rheoli risgiau		
Mae'r egwyddorion llywodraethu da a fabwysiadwyd gennym fel a ganlyn:	Yr hyn a wnawn i'w cyflawni	Y modd y byddwn yn arddangos cydymffurfiaeth
<p>Gwneud penderfyniadau doeth a thryloyw, sy'n amodol ar werthusiad effeithiol a risgiau a reolir:</p> <p>Trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Fod yn drylwyr ac yn dryloyw ynghylch y modd y gwneir penderfyniadau, a gwrando ar yr holl sylwadau a phryderon adeiladol, a gweithredu arnynt. • Sicrhau gwybodaeth, cyngor a chymorth o ansawdd da, er mwyn gofalu bod penderfyniadau yn cael eu gwneud mewn modd effeithiol, a'u bod yn diwallu anghenion y gymuned. • Sicrhau bod y risgiau sy'n wynebu'r Awdurdod yn cael eu rheoli'n effeithiol, gan gynnwys y rheiny a allai atal cyfleodd i wella'r gwasanaethau rhag cael eu cyflawni. • Gweithredu o fewn y fframwaith deddfwriaethol sydd ar waith, a defnyddio'r pwerau hynny a ganiateir yn ôl y gyfraith er budd y gymuned. 	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnal trefniadau ar gyfer cofnodi penderfyniadau'r Awdurdod, ynghyd â'r sail y gwnaed y penderfyniadau hynny arni. • Cynnal trefniadau ar gyfer nodi a chofnodi gwrthdrawiad buddiannau Aelodau ac Uwch-swyddogion, a sicrhau nad yw'r rhain yn effeithio ar y broses o wneud penderfyniadau. • Cynnal trefniadau lle gall Aelodau, staff, contractwyr, rhanddeiliaid a'r cyhoedd godi pryderon ynglŷn ag ymddygiad unrhyw un sy'n gysylltiedig â gwaith yr Awdurdod. • Cynnal trefniadau effeithiol ar gyfer archwiliad mewnol annibynnol o'r Awdurdod. • Cynnal Pwyllgor Safonau effeithiol. • Sicrhau bod gan y rheiny sy'n gwneud penderfyniadau ddigon o wybodaeth briodol i wneud penderfyniadau effeithiol, gan gynnwys cyngor cyfreithiol ac ariannol proffesiynol. • Sicrhau bod rheoli risgiau yn rhan annatod o ddiwylliant yr Awdurdod, a bod Aelodau a Swyddogion yn ystyried y risgiau wrth wneud penderfyniadau. • Gweithio o fewn y fframwaith cyfreithiol sydd ar gael, a gwneud defnydd llawn o'i bwerau cyfreithiol er budd y gymuned. • Wrth weithio mewn 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddi cofnodion ac adroddiadau'r Awdurdod ar y wefan. • Cynnal cynllun cyhoeddi, a chydymffurfio â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth o fewn yr amserlenni a bennir. • Cynnal cofrestr buddiannau Aelodau ac Uwch-reolwyr. • Cynnal protocol "chwythu'r chwiban" er mwyn galluogi i bryderon ynghylch ymddygiad gael eu hadrodd yn gyfrinachol. • Adrodd am y cynllun archwilio mewnol blynyddol a'r adroddiad blynyddol i'r uwch-reolwyr ac i'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Perfformiad. • Trosolwg Archwilio Allanol o'r trefniadau Archwilio Mewnol. • Cyhoeddi cofnodion ac adroddiadau'r Pwyllgor Safonau. • Cyhoeddi a gweithredu polisi a strategaeth rheoli risgiau. • Sylwadau/effaith y risgiau allweddol ar yr holl adroddiadau polisi allweddol i'r Aelodau. • Adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor am sefyllfa gyfredol y risgiau strategol a'r risgiau busnes. • Cynnwys sylwadau ar yr holl adroddiadau polisi ynghylch statws cyfreithiol cynigion o'r fath. • Adrodd yn flynyddol am yr holl weithgareddau partneriaeth, gan gynnwys

	partneriaeth, sicrhau bod yr un safonau o ran llywodraethu da yn cael eu cymhwyso i weithgareddau'r bartneriaeth.	materion sy'n ymwneud â risgiau a llywodraethu.
--	---	---

Egwyddor 5: Meithrin gallu a galluogrwydd y corff llywodraethu i fod yn effeithiol		
Mae'r egwyddorion llywodraethu da a fabwysiadwyd gennym fel a ganlyn:	Yr hyn a wnawn i'w cyflawni	Y modd y byddwn yn arddangos cydymffurfiaeth
<p>Meithrin gallu a galluogrwydd yr Aelodau a'r Swyddogion i fod yn effeithiol ac i gyflawni'r gwasanaethau mewn modd effeithiol:</p> <p>Trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod gan yr Aelodau a'r Swyddogion y sgiliau, yr wybodaeth, y profiad a'r adnoddau i berfformio'n dda yn eu rolau. • Meithrin gallu pobl yn unigol ac mewn grwpiau, a gwerthuso eu perfformiad. • Annog grwpiau heb gynrychiolaeth i ymuno â'r Awdurdod er mwyn sicrhau cynrychiolaeth o bob rhan o'r gymuned. 	<ul style="list-style-type: none"> • Asesu'r sgiliau sy'n ofynnol gan yr Aelodau a'r Swyddogion, gan gynnwys y Swyddogion statudol, a meithrin y sgiliau hyn yn barhaus er mwyn galluogi i rolau unigol gael eu cyflawni'n effeithiol ac effeithlon. • Adolygu perfformiad y Pwyllgorau a'r Uwchswyddogion yn rheolaidd, a rhoi cynlluniau ar waith ar gyfer datblygiad a hyfforddiant pellach, lle bo hynny'n angenrheidiol. • Cynnal trefniadau i annog pob rhan o'r gymdeithas i weithio i'r Awdurdod a gyda'r Awdurdod, ac i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu ei bolisiau a'i weithgareddau. • Wrth weithio gyda phartneriaid, sicrhau bod yr un egwyddorion yn cael eu cymhwyso i waith y bartneriaeth. 	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithredu cynllun adolygu perfformiad a datblygiad personol ar gyfer y staff, sy'n ymgorffori gofynion datblygiad personol a hyfforddiant. • Gweithredu rhaglen hyfforddi a chynefino blynyddol ar gyfer Aelodau, a chofnodi presenoldeb. • Gweithredu'r system IPDS genedlaethol ar gyfer staff gweithredol. • Cyhoeddi strategaeth cyfathrebu ac ymgynghori, ac adrodd am ganlyniadau prosesau o'r fath i'r Aelodau. • Sefydlu ymgynghoriadau â'r staff a'r cyhoedd er mwyn ystyried cynigion ar gyfer polisiau a gwneud sylw arnynt. • Hyrwyddo'r Gwasanaeth Tân fel cyfle ar gyfer gyrfa. • Cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol.

Egwyddor 6: Ymgysylltu â rhanddeiliaid a sicrhau bod atebolrwydd yn real		
Mae'r egwyddorion llywodraethu da a fabwysiadwyd gennym fel a ganlyn:	Yr hyn a wnawn i'w cyflawni	Y modd y byddwn yn arddangos cydymffurfiaeth
<p>Ymgysylltu â'r gymuned yr ydym yn ei gwasanaethu er mwyn sicrhau atebolrwydd cyhoeddus cadarn:</p> <p>Trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymgysylltu â phobl leol a rhanddeiliaid, gan gynnwys partneriaid. • Meithrin dull gweithredol a chynlluniedig o ran ymgynghori â'r cyhoedd a grwpiau rhanddeiliaid, er mwyn sicrhau y darperir gwasanaeth effeithiol a phriodol. • Meithrin dull gweithredol a chynlluniedig o ran cyflawni cyfrifoldebau i staff. 	<ul style="list-style-type: none"> • Nodi atebolrwyddau allweddol yr Awdurdod yn glir, ynghyd â'r ffyrdd yr adroddir ar y rhain. • Cynnal trefniadau ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â phawb o'r cyhoedd ac â rhanddeiliaid allweddol ynglŷn â pholisïau a gwasanaethau'r Awdurdod. • Cynnal prosesau ar gyfer ymgynghori â'r staff a'u cynrychiolwyr. • Sicrhau bod adborth o'r broses ymgynghori yn cael ei ymgorffori wrth ddatblygu cynlluniau perfformiad ar gyfer y dyfodol. • Cyhoeddi cynllun perfformiad blynyddol, gyda diweddariadau chwarterol ar berfformiad sy'n nodi cynlluniau a pherfformiad, gan gynnwys perfformiad ariannol. • Sicrhau bod y cyhoedd yn gallu cyrchu holl gyfarfodydd ac adroddiadau yr Awdurdod, ac eithrio pan fo deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal cyfrinachedd. • Wrth weithio gyda phartneriaid, sicrhau bod yr un egwyddorion yn cael eu cymhwyso i waith y bartneriaeth. 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddi a chyflawni'r cynllun cyfathrebu corfforaethol. • Cwrdd â chynrychiolwyr yr undebau yn rheolaidd er mwyn ymgynghori ar newidiadau i bolisïau allweddol ac i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau, a hynny trwy Grwpiau Undebau Llafur unigol neu'r Cyd-fforwm Ymgynghori. • Yn adroddiadau'r Awdurdod, nodi lle mae canlyniadau ymgynghoriadau wedi dylanwadu ar benderfyniadau yn ymwneud â pholisï. • Sicrhau bod copïau o adroddiadau blynyddol, y Cynllun Lleihau Risgiau a'r Cynllun Gwella ar gael ar y wefan ac mewn llyfrgelloedd. • Sicrhau bod holl gyfarfodydd yr Awdurdod yn agored i'r cyhoedd, a bod yr holl adroddiadau a chofnodion ar gael trwy'r Rhyngwyd. Bydd dogfennau eraill ar gael o dan ddarpariaethau Rhyddid Gwybodaeth. • Sicrhau bod darpariaethau clir o ran atebolrwydd a chyfathrebu wedi'u cynnwys ym mhob cytundeb partneriaeth.

Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Cafodd y broses adolygu mewnol flynyddol o dan y Cod, a oedd yn newydd ar y pryd, ei rhoi ar waith yn 2008-09, a hynny cyn ei bod yn ofynnol yn statudol i wneud hynny. Y nod oedd pennu i ba raddau yr oedd yr Awdurdod yn bodloni gofynion y fframwaith a fabwysiadwyd, ac i ganfod pa gamau gweithredu yr oedd angen eu cymryd er mwyn sicrhau y gallai'r Awdurdod arddangos safonau uchel cyson o ran llywodraethu corfforaethol. Sefydlwyd fframwaith sefydliadol, a bu hwn ar waith ers hynny.

Mae yna nifer o enghreifftiau o drefniadau llywodraethu da ar waith, e.e. y fframwaith cynllunio busnes a rheoli perfformiad, a'r broses a'r ymgynghoriad Gwella a Chynllunio Corfforaethol. Mae'r rhain, ynghyd â'r cynlluniau datblygu gwasanaethau, y Cyfansoddiad, strwythur Pwyllgorau effeithiol, gwaith craffu trylwyr, hyfforddiant parhaus a pherthnasol, a pholisïau a gweithdrefnau perthnasol, oll yn cefnogi'r trefniadau llywodraethu cadarnhaol o fewn yr Awdurdod.

Cynhaliwyd archwiliadau mewnol manwl ers hynny, gan archwilio rhai o'r meysydd risg uchel, fel y'u blaenoriaethwyd gan y Cyfarwyddwr Adnoddau. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliad Caffael a Phartneriaethau, archwilio ac asesu'r trefniadau o ran Parhad Busnes yn y sefydliad, archwilio ac asesu'r trefniadau o ran Risgiau Busnes yn y sefydliad, a'r archwiliad blynyddol o systemau cyflogres, credydwyr a dyledwyr yr Awdurdod. Bu'r archwiliadau hyn yn gadarnhaol, heb amlygu unrhyw wendidau sylfaenol, a chawsant eu hadrodd i Bwyllgor Perfformiad, Archwilio a Chraffu yr Awdurdod.

Bob blwyddyn, cynhaliwyd archwiliadau mewnol er mwyn sicrhau bod y systemau a'r prosesau yn gweithio'n effeithiol, a'u bod yn cael eu monitro. Rhoddwyd sylw penodol i brosesau a materion llywodraethu Rheoli Risgiau Partneriaethau, y gwaith o gyhoeddi a gweithredu'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau a Swyddogion, y gwaith o gynnal a diweddarau rheolau a phrotocolau ar gyfer Gweithdrefnau Ariannol, y gwaith o gynnal cofrestr buddiannau ar gyfer Aelodau ac Uwch-reolwyr, a'r gwaith o ddarparu Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol. Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2015-16 oedd *“bod gan yr Awdurdod amgylchedd rheoli da ar waith mewn perthynas â systemau ariannol sylfaenol. Mae yna drefniadau llywodraethu clir, ac mae yna Gyfrifoldebau Rheoli a Strwythurau Pwyllgorau diffiniedig ar waith. Yn gyffredinol, mae'r system Rheoli Risgiau a'r fframwaith rheoli yn gadarn ac yn gweithredu'n weddol gyson. Mae gan yr Awdurdod Gyfansoddiad sefydledig, ac mae wedi datblygu polisïau a chymeradwyo Rheolau Gweithdrefnau Ariannol sy'n darparu cyngor a chanllawiau i holl aelodau'r staff. Lle cafodd gwendidau eu nodi trwy adolygiad archwilio mewnol, rydym wedi gweithio gyda'r rheolwyr i gytuno ar gamau unioni priodol, ynghyd ag amserlen ar gyfer gwella.”* Mae'r Cod yn cael ei ddiweddarau, ei fonitro a'i adolygu'n barhaus gan y Tîm Cyfathrebu Corfforaethol a Chymorth Aelodau, gan adlewyrchu gofynion Fframwaith CIPFA/SOLACE, *‘Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol’*.

Eleni, yn ogystal ag archwilio systemau ariannol, aeth y gwasanaeth archwilio mewnol ati i gynnal archwiliad manwl o'r broses o roi'r system Gyflogres/Adnoddau Dynol Graidd ar waith, a aeth yn fyw ym mis Medi 2015, yn ogystal â phroses weithredu gyfredol y system. Daeth yr archwiliad hwn i'r casgliad fod y broses o roi'r

prosiect ar waith yn foddhaol, er bod oedi wedi bod oherwydd darparwyr y system. Aethpwyd ar drywydd rhai argymhellion, ac, er eu bod yn heriol, maent bellach wedi cael eu cwblhau. Prosiect hyd yn oed yn fwy yr ymgwymerwyd ag ef yn ystod y flwyddyn oedd parhau â'r gwaith a wnaed ar ein Prosiect Cydreoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr – sef cyfuno Heddlu De Cymru ac Ystafelloedd Rheoli Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, a hynny ym Mhencadlys Heddlu De Cymru. Mae'r prosiect hwn wedi wynebu oedi mewn perthynas â gweithredu'r system Gorchymyn a Rheoli oherwydd na bennwyd yr adnoddau cywir ar gyfer y prosiect gan Capita. Mae'r broblem adnoddau bellach wedi'i datrys, ac, ym mis Hydref 2017, aeth y system yn fyw a chwblhawyd y gwaith o drosglwyddo staff i'r ystafell reoli ar y cyd.

Mae'r adran Archwilio Mewnol wedi adrodd am bob un o'i harchwiliadau i'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar Berfformiad (PASC), a rhoddodd yr Archwiliwr ei barn gyffredinol, fel y manylir uchod. Canfuwyd bod y systemau gweithredu yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn dda, ac ni nododd yr adolygiad unrhyw feysydd o bryder sylfaenol. Cynhaliwyd archwiliad allanol penodol ar Lywodraethu Corfforaethol nifer o flynyddoedd yn ôl gan Swyddfa Archwilio Cymru. Er bod y canfyddiadau yn dda ar y cyfan, roedd yna rai argymhellion ar gyfer gwella. Roedd y rhain yn cynnwys, (1) sicrhau mwy o gyfranogiad gan staff ledled yr Awdurdod (2) rhoi mwy o bwyslais ar Ymgysylltu â'r Gymuned (3) sicrhau bod perfformiad yn cymharu'n dda ag Awdurdodau Gwella eraill a (4) rhoi gwell ystyriaeth i drefniadau llywodraethu mewn perthynas â phartneriaethau a chomisiynu. O ganlyniad, bu newidiadau i brosesau a strwythurau er mwyn adlewyrchu'r argymhellion hyn a mynd i'r afael â nhw yn well. Bellach, mae holl staff perthnasol yr Awdurdod yn adolygu'r broses Llywodraethu Corfforaethol, gwnaed gwelliannau o ran ymgysylltu â'n Cymunedau, ac mae Archwiliad Mewnol manwl wedi archwilio'r trefniadau a'r systemau Partneriaeth, sydd wedi cael eu datblygu'n sylweddol oddi ar yr archwiliad, gyda chanlyniadau cadarnhaol. Mae cymharu Perfformiad â Gwasanaethau eraill yn rhan sylfaenol o'r Adolygiad o Wasanaeth sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd.

Roedd Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2016, yn gadarnhaol dros ben, ac yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant, ac wedi gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2015-16. Amlygwyd rhai gwelliannau posibl, er enghraifft roedd yn amlinellu'r angen i ddatblygu polisi Wrth Gefn, i ddefnyddio data cymharol, ac i ddatblygu proses Cynllunio Ariannol Tymor Canolig fwy tryloyw. Roedd hefyd yn cyfeirio at yr angen i fabwysiadu prosesau cynllunio prosiect ar gyfer pob prosiect. Rydym wedi mynd i'r afael â'r holl argymhellion hyn yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd wedi archwilio ansawdd data'r sefydliad, a oedd yn dda.

Roedd yr Adroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer y flwyddyn gyfredol, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2016, hefyd yn gadarnhaol, a bydd hwn yn cael ei ddiweddarau ar gyfer terfyn archwiliad ariannol 2015-16. Yn ystod eleni, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru archwiliad o wytnwch ariannol yn y sefydliad hwn yn ystod y cyfnod o gynydd sydd ohoni. Daeth yr archwiliad i'r casgliad bod trefniadau'r sefydliad ar gyfer cyflawni gwytnwch ariannol yn gadarn. Daeth Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliadau canlynol:

- Bod yr Awdurdod wedi lleihau gwariant 20 y cant o gymharu â 2011-12, a bod lefel y cronfeydd wrth gefn yn codi.
- Bod y gwaith o gynllunio ariannol yn cael ei gefnogi gan drefn ariannol sefydlog, a bod yna ddealltwriaeth dda o'r risgiau a'r heriau allweddol.
- Bod rheolaeth ariannol yn cael ei chefnogi gan waith effeithiol o ran monitro a rhagweld y gyllideb, a bod gan yr Awdurdod hanes da o reoli cyllidebau.
- Bod y broses llywodraethu ariannol yn effeithiol ac yn cael ei chefnogi gan her glir, dulliau adrodd cywir ac ymrwymiad ar lefel yr uwch-reolwyr.

Aeth Swyddfa Archwilio Cymru ati hefyd i gynnal adolygiad o'r gwaith Diogelwch Cymunedol, ac argymhellai'r adroddiad un cynnig ar gyfer gwella ar gyfer yr Awdurdod, a dau gynnig ar gyfer gwella i'w gweithredu ar lefel genedlaethol, yn enwedig mewn perthynas â gwella gwaith gwerthuso. Mae'r adroddiadau hyn, ynghyd â gwaith y Grŵp Rheoli Risgiau Busnes mewnol a'r Tîm Digwyddiadau Tyngedfennol, i gyd y sicrhau bod risgiau yn cael eu rheoli'n effeithiol yn yr Awdurdod hwn.

Trwy archwilio'r wybodaeth reoli, rheolau'r weithdrefn ariannol a'r cyfarwyddiadau ariannol, yr archebion sefydlog dan contract, y trefniadau gweinyddol (gan gynnwys gwahanu dyletswyddau) a gwaith goruchwylio'r rheolwyr, a hynny trwy archwiliad mewnol ac allanol, cafwyd sicrwydd cyffredinol mewn perthynas â'r gwaith o reoli materion ariannol yr Awdurdod, a'u gweinyddu'n briodol. Fodd bynnag, cafwyd hyd i ddiffygion o ran oediad yn y broses o gyflwyno ffurflenni TAW, sydd bellach wedi cael eu datrys, a nodwyd materion penodol yn ymwneud â lefel yr arbenigedd o ran TAW wrth gynnal archwiliad TAW. Aed i'r afael â'r materion hyn trwy gyfres o gynlluniau gweithredu a hyfforddiant, er mwyn sicrhau bod yr arbenigedd angenrheidiol ar gael.

Roedd y problemau'n ymwneud â'r ffurflenni TAW, ynghyd â rhai agweddau pwysig eraill ar gyfrifyddu, wedi achosi oedi sylweddol o ran cau cyfrifon yr Awdurdod ar gyfer 2015-16. Er mwyn helpu i atal unrhyw broblemau yn y dyfodol o ran cau cyfrifon yr Awdurdod o fewn y terfyn amser, mae'r Awdurdod wedi rhoi meddalwedd Cipfa Closedown ar waith, ac mae wrthi'n rhoi system rheoli asedau Cipfa ar waith.

Ym mis Hydref 2017, cynigiodd Swyddfa Archwilio Cymru argymhellion o dan Adran 25(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 mewn perthynas â'r Archwiliad o ddatganiadau ariannol 2015-16. Dyma'r argymhellion:

- A1 Rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru roi camau gweithredu clir a chadarn ar waith ar gyfer yr adolygiad o'r datganiadau ariannol wedi'u diweddarau, a dylid cyflawni'r camau hynny mewn da bryd er mwyn i unrhyw addasiadau gael eu nodi'n gynnar a'u cywiro cyn cyflwyno datganiadau fersiwn 14 i Swyddfa Archwilio Cymru.
- A2 Rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru baratoi dogfen rheoli ansawdd i gefnogi'r adolygid o'r datganiadau sydd i'w cyflwyno i Swyddfa Archwilio Cymru, darparu tystiolaeth ar ei gyfer a'i lofnodi'n gywir.
- A3 Rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ddarparu copi o'i gamau gweithredu arfaethedig i Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer yr adolygiad o sicrwydd ansawdd y datganiadau diwygiedig a'r trywydd archwilio ategol.

Mewn ymateb i'r argymhellion, cyflwynodd yr Awdurdod fersiwn 14 o'r datganiadau ariannol, ynghyd â dogfennau rheoli ansawdd, ar 17 Ionawr 2018. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn cydnabod y gwaith a'r ymdrech sylweddol a wnaed wrth ddiwygio'r datganiadau ariannol, ond nododd fod peth gwybodaeth wedi'i hepgor o hyd. Oddi ar fersiwn 14, cafwyd tair fersiwn bellach o'r datganiadau ariannol, gan ddiweddu gyda fersiwn 17. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn bwriadu ardystio'r set derfynol o ddatganiadau ariannol ar 7 Mehefin 2018.

Bu cyfnod o bontio yn y Gyfarwyddiaeth Adnoddau yn dilyn ymddeoliad y Pennaeth Cyllid a'r Cyfarwyddwr Adnoddau. Mae swydd y Cyfarwyddwr Adnoddau wedi'i llenwi dros dro, a dechreuodd Pennaeth Cyllid newydd yn ei swydd ym mis Awst 2017. Ar gyfer 2014-15, adroddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru fod gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn adrodd ei farn ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ar gyfer 2015-16 wedi iddo ardystio cyfrifon yr Awdurdod ar gyfer 2015-16.

Er nad oedd y trefniadau llywodraethu wedi nodi mater y TAW, nac wedi mynd i'r afael ag ef, roedd y trefniadau ar gyfer 2015-16, ym marn y Clerc a'r Trysorydd, yn foddhaol ar y cyfan. Credwn fod y gwiriadau uchod wedi dangos bod y broses Llywodraethu Corfforaethol yn y sefydliad hwn yn effeithiol, bod y trefniadau presennol yn addas i'r diben, a bod yr Awdurdod mewn sefyllfa dda i gyflawni ei nodau corfforaethol a'i ganlyniadau arfaethedig ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r sefydliad yn gweithredu mewn modd darbodus, effeithiol, effeithlon a moesol.

Adroddiad archwilydd annibynnol yr Archwilydd Cyffredinol i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Barn

Yr wyf wedi archwilio datganiadau ariannol:

- Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru; a
- Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnwys y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau perthnasol, gan gynnwys crynodeb o bolisiâu cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn cynnwys Cyfrif y Gronfa, y Datganiad o Asedau Net, y nodiadau perthnasol a chrynodeb o bolisiâu cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith gymwys a Chod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2015-16, yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Barn amodol ar ddatganiadau ariannol Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Ac eithrio effeithiau posibl y materion a ddisgrifir yn yr adran ar Sail y Farn Amodol yn fy adroddiad, mae datganiadau ariannol Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, yn fy marn i:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar 31 Mawrth 2016, a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Chod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2015-16.

Barn ar ddatganiadau ariannol Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân

Yn fy marn i, mae datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân ar 31 Mawrth 2016, a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Chod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2015-16.

Sail y Farn Amodol

Mae Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2015-16 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ddatgelu 'Cost y Gwasanaethau' yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Dosberthir y datgeliadau hyn yn ôl 'Gwariant gros' (£46,592,000), 'Incwm gros' (£4,083,000) a 'Gwariant net' (£42,509,000). Fe'u dosberthir hefyd ar draws pum cydran 'Cost Gwasanaethau' ('Gweithrediadau Diffodd Tân ac Achub',

'Diogelwch Cymunedol', 'Cynllunio Brys y Gwasanaeth Tân', 'Craidd democrataidd a chorfforaethol', a 'Chostau heb eu dosbarthu').

Er bod cyfansymiau'r 'Gwariant gros', yr 'Incwm gros' a'r 'Gwariant net' wedi eu datgan mewn modd gwir a theg, mae yna ansicrwydd ynghylch cywirdeb dosbarthiad yr incwm a gwariant ar draws y pum cydran 'Cost Gwasanaethau'. Ni ellir mesur gwerth effaith yr ansicrwyddau yn y dosbarthiad. At hyn, er bod 'Cyfanswm Gwariant yr Awdurdod', sef £43,495,000 yn Nodyn 24 y 'Gwariant Refeniw Net' ar dudalen 72, wedi'i ddatgan mewn modd gwir a theg, mae yna ansicrwydd ynghylch cywirdeb dosbarthiad y gwariant sy'n cyfrif am y ffigurau hyn.

Mae Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2015-16 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ddatgelu ei gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy sydd wedi'u clustnodi yn y datganiadau ariannol. Mae'r datgeliad o'r cronfeydd wrth gefn yn cynnwys y balansau a ddygwyd ymlaen, symudiadau yn ystod y flwyddyn, a'r balansau ar ddiwedd y flwyddyn (Nodyn 8). Mae yna ansicrwydd ynghylch cywirdeb dosbarthiad y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, sef £8,768,000, a ddatgelir yn Nodyn 8.

Mae'r ansicrwyddau yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, Nodyn 14 a Nodyn 8 wedi codi oherwydd nad yw'r Awdurdod wedi cynnal cofnodion cyfrifyddu digonol, ac nad yw'n gallu darparu eglurhad boddhaol am y dosbarthiadau a gyflwynir yn y cyfrifon.

Cynhaliiais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith gymwys a Safonau Archwilio Rhyngwladol (y Deyrnas Unedig). Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran yn fy adroddiad ar gyfrifoldebau'r archwilydd i archwilio'r datganiadau ariannol. Rwy'n annibynnol ar yr Awdurdod, yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm gwaith o archwilio datganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi ei chasglu yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

Casgliadau mewn perthynas â busnes gweithredol

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol, y mae Safonau Archwilio Rhyngwladol y Deyrnas Unedig yn ei gwneud yn ofynnol i mi adrodd amdanynt wrthyhch:

- lle nad yw'n briodol cyfrifyddu ar sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol; na
- lle nad yw'r swyddog ariannol cyfrifol wedi datgelu unrhyw ansicrwyddau perthnasol a nodir yn y datganiadau ariannol, a allai godi amheuan arwyddocaol ynghylch gallu'r Awdurdod i barhau i fabwysiadu'r dull cyfrifyddu ar sail busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan yr **awdurdodir i'r datganiadau ariannol gael eu cyhoeddi**.

Gwybodaeth arall

Y swyddog ariannol cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr Adroddiad Naratif a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiad ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall, ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad o ran sicrhau'r datganiadau hynny, ac eithrio i'r graddau a nodir yn bendant yn ddiweddarach yn fy adroddiad.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, rwy'n gyfrifol am ddarllen yr wybodaeth arall er mwyn nodi anghysondebau perthnasol o ran y datganiadau ariannol a archwiliwyd, a hefyd yn gyfrifol am nodi unrhyw wybodaeth sy'n sylweddol anghywir, yn seiliedig ar yr wybodaeth a gasglwyd gennyf wrth i mi gynnal yr archwiliad, neu unrhyw wybodaeth sy'n anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamdatganiadau neu anghysondebau perthnasol ymddangosiadol, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Adroddiad ar ofynion eraill

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth sydd yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol, ac mae'r Adroddiad Naratif wedi cael ei baratoi yn unol â Chod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2015-16;
- mae'r wybodaeth sydd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol, ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael ei baratoi yn unol â'r canllawiau.

Materion yr wyf yn adrodd amdanynt trwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Awdurdod a'i amgylchedd, a gasglwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif nac yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Ac eithrio'r materion a ddisgrifir yn yr adran ar Sail y Farn Amodol yn fy adroddiad, yn fy marn i:

- mae cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw;
- mae'r datganiadau cyfrifyddu yn gydnaws â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni; ac
- rwyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad.

Y dystysgrif cwblhau archwiliad

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon (gweler tudalen 9), mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad o gyfrifon, gan gynnwys Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân, sy'n rhoi darlun gwir a theg. Mae hefyd yn gyfrifol am unrhyw reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol, ym marn y swyddog ariannol cyfrifol, i alluogi i ddatganiadau o gyfrifon gael eu paratoi sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, p'un a yw'r rheiny yn ganlyniad i dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad o gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu'r Awdurdod i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes gweithredol, a defnyddio'r dull cyfrifyddu ar sail busnes gweithredol, oni bai yr ystyrir bod hynny'n amhriodol.

O dan Adran 10(3) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, mae'n ofynnol i'r swyddog ariannol cyfrifol ailardystio bod y datganiadau ariannol yn wir ac yn deg, a hynny cyn eu cyflwyno i'r Awdurdod i'w cymeradwyo. Mae'r swyddog ariannol cyfrifol wedi ailardystio'r datganiadau ariannol ar dudalen 9, ac, wrth wneud hynny, wedi darparu datganiad sy'n tynnu sylw at fy marn amodol yn yr adroddiad hwn.

Cyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol, yn gyffredinol, yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, p'un a yw'r rheiny yn ganlyniad i dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilio sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol y Deyrnas Unedig bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo un yn bresennol. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall, ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellir yn rhesymol ddisgwyl iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar y penderfyniadau economaidd a wneir gan ddefnyddwyr yn seiliedig ar y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol i'w weld ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o adroddiad yr archwilydd a baratowyd gennyf.

Cyfrifoldeb Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yw cynnal gwefan yr Awdurdod a sicrhau ei chywirdeb. Nid yw'r gwaith a wneir gan yr archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn, ac, yn unol â hynny, nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi'u gwneud i'r datganiadau ariannol oddi ar iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan yn y lle cyntaf.

Anthony J Barrett
Ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru
7 Mehefin 2018

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

Mae'r datganiadau ariannol craidd yn cynnwys:

Y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn – sy'n dangos y symudiad yn ystod y flwyddyn ar y cronfeydd wrth gefn gwahanol a ddelir gan yr Awdurdod, wedi'u dadansoddi yn gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy (y rheiny y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant) a chronfeydd wrth gefn anefnyddiadwy eraill, a hynny i ddibenion cyfrifyddu.

Y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr – sy'n dangos y gost gyfrifyddu yn ystod o flwyddyn ar gyfer darparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu trwy drethiant (cyfraniadau'r Awdurdod Unedol).

Y Fantolen – sy'n nodi'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth yn nhermau gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan yr Awdurdod. Mae asedau net yr Awdurdod yn cyfateb i'r cronfeydd wrth gefn a ddelir gan yr Awdurdod.

Y Datganiad Llif Arian – sy'n dangos y newidiadau o ran arian parod, a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod, a ddelir gan yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'n crynhoi'r mewnlifau a'r all-lifau o arian parod, a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod, â thrydydd partïon, sy'n deillio o drafodiadau refeniw a chyfalaf.

Mae'r holl ddatganiadau ariannol craidd a nodiadau cysylltiedig y datgeliad wedi cael eu hailddatgan ar gyfer 2014-15, er mwyn cywiro cyfeiliornadau yn natganiadau ariannol blynyddoedd blaenorol mewn perthynas ag asedau anghyfredol a meysydd eraill.

DATGANIAD O SYMUDIADAU MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN
(Wedi'i ailddatgan)

	Balans y Gronfa Gyffredinol £000	Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol wedi'u Clustnodi	Cronfa Wrth Gefn y Derbyniadau Cyfalaf £000	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £000	Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy £000	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod £000
Balans ar 31 Mawrth 2014	0	(7,568)	(48)	(7,616)	361,238	353,622
Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod 2014-15						
(Gwarged) neu Ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau	17,122	0	0	17,122	0	17,122
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	0	0	0	0	30,273	30,273
Cyfanswm yr Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	17,122	0	0	17,122	30,273	47,395
Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail gyllido o dan reoliadau (nodyn 7)	(18,048)	0	(531)	(18,579)	18,579	0
(Cynnydd)/Gostyngiad net cyn Trosglwyddo i'r Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi	(926)	0	(531)	(1,457)	48,852	47,395
Trosglwyddiadau i/(oddi wrth) Gronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi (nodyn 8)	926	(926)	0	0	0	0
(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2014-15	0	(926)	(531)	(1,457)	48,852	47,395
Balans ar 31 Mawrth 2015 wedi'i ddwyn ymlaen	0	(8,494)	(579)	(9,073)	410,090	401,017

DATGANIAD O SYMUDIADAU MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN

	Balans y Gronfa Gyffredinol £000	Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol wedi'u Clustnodi £000	Cronfeydd Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £000	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £000	Cronfeydd Wrth Gefn Annefnfyddiadwy £000	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod £000
Balans ar 31 Mawrth 2015 wedi'i ailddatgan	0	(8,494)	(579)	(9,073)	410,090	401,017
Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod 2015-16						
(Gwarged) neu Ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau	14,393	0	0	14,393	0	14,393
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	0	0	0	0	(68,240)	(68,240)
Cyfanswm yr Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	14,393	0	0	14,393	(68,240)	(53,847)
Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail gyllido o dan reoliadau (nodyn 7)	(14,667)	0	579	(14,088)	14,088	0
(Cynnydd)/Gostyngiad net cyn Trosglwyddo i'r Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi	(274)	0	579	305	(54,152)	(53,847)
Trosglwyddiadau i/(oddi wrth) Gronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi (nodyn 8)	274	(274)	0	0	0	0
(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2015-16	0	(274)	579	305	(54,152)	(53,847)
Balans ar 31 Mawrth 2016 wedi'i ddwyn ymlaen	0	(8,768)	0	(8,768)	355,938	347,170

Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES)
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

2014-15 Wedi'i ailddatgan			2015-16			
Gwariant Gros £000	Incwm Gros £000	Gwariant Net £000		Gwariant Gros £000	Incwm Gros £000	Gwariant Net £000
35,833	(1,471)	34,362	Gweithrediadau Diffodd Tân ac Achub	37,609	(1,817)	35,792
6,036	(1,119)	4,917	Diogelwch Cymunedol	6,435	(1,452)	4,983
1,603	(805)	798	Cynllunio Brys y Gwasanaeth Tân	1,562	(793)	769
817	(25)	792	Craidd democrataidd a chorfforaethol	986	(21)	965
524	0	524	Costau heb eu dosbarthu	0	0	0
44,813	(3,420)	41,393	Costau'r Gwasanaethau	46,592	(4,083)	42,509
		40	Gwariant gweithredu arall (nodyn 9)			12
		18,606	Incwm a gwariant cyllido a buddsoddi (nodyn 10)			15,801
		(42,917)	Trethiant ac incwm grant amhenodol (nodyn 11)			(43,929)
		17,122	(Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau			14,393
			<i>Eitemau na chânt eu hailddosbarthu i'r (Gwarged) neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau</i>			
		30,168	Ailfesur rhwymedigaeth/(ased) y buddion diffiniedig net a throsoglwyddiadau i mewn (nodyn 20)			(72,729)
		105	Colledion o ran ailbriso asedau anghyfredol (nodyn 20)			4,489
		30,273	(Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr Arall			(68,240)
		47,395	Cyfanswm yr Incwm a Gwariant Cynhwysfawr			(53,847)

Y Fantolen ar 31 Mawrth 2016

01 Ebrill 2014 Wedi'i ailddatgan £000	31 Mawrth 2015 Wedi'i ailddatgan £000		31 Mawrth 2016 £000	Nodiadau
66,007	64,557	Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar	57,831	12
0	130	Asedau sy'n Cael eu Hadeiladu	1,122	12
166	193	Asedau Anghyffyrddadwy	206	13
105	148	Dyledwyr Hirdymor	298	16
66,278	65,028	Asedau Hirdymor	59,457	
425	0	Asedau a ddelir i'w gwerthu	0	12
399	400	Rhestri eiddo	520	15
7,164	12,525	Dyledwyr Byrdymor	7,176	16
1,928	1,826	Arian Parod a'r hyn sy'n Cyfateb i Arian Parod	10,342	17
9,916	14,751	Asedau Cyfredol	18,038	
(314)	(308)	Benthyca Byrdymor	(4,349)	14
(5,225)	(6,383)	Credydwyr Byrdymor	(4,785)	18
(923)	(872)	Rhwymedigaethau Byrdymor Eraill	(998)	31
(6,462)	(7,563)	Rhwymedigaethau Cyfredol	(10,132)	
(12,026)	(15,246)	Benthyca Hirdymor	(16,770)	14
(4,989)	(5,430)	Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill	(5,787)	31
(406,339)	(452,557)	Rhwymedigaethau sy'n berthnasol i gynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio	(391,976)	34
(423,354)	(473,233)	Rhwymedigaethau Hirdymor	(414,533)	
(353,622)	(401,017)	Rhwymedigaethau Net	(347,170)	
(7,616)	(9,073)	Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy	(8,768)	8 ac 19
361,238	410,090	Cronfeydd Wrth Gefn Andefnyddiadwy	355,938	20
353,622	401,017	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn	347,170	

Datganiad Llif Arian ar 31 Mawrth 2016

2014-15 Wedi'i ailddatgan £000		2015-16 £000
17,122	(Gwarged) neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau	14,393
(16,038)	Addasiadau i'r gwarged neu'r diffyg net ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer symudiadau anariannol (nodyn 21)	(20,362)
(40)	Addasiadau ar gyfer eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y gwarged neu'r diffyg net ar ddarparu gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi neu ariannu	(12)
1,044	Llif arian net o Weithgareddau Gweithredol	(5,981)
2,662	Gweithgareddau Buddsoddi (nodyn 22)	3,472
(3,604)	Gweithgareddau Ariannu (nodyn 23)	(6,007)
102	(Cynnydd) neu ostyngiad net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	(8,516)
1,928	Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod adrodd	1,826
1,826	Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd (nodyn 17)	10,342

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

1. POLISIÂU CYFRIFYDDU

1.1 EGWYDDORION CYFFREDINOL

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn crynhoi trafodiadau yr Awdurdod ar gyfer blwyddyn ariannol 2015-16, ynghyd â'i sefyllfa ar ddiwedd 31 Mawrth 2016. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi Datganiad o Gyfrifon Blynyddol yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Datganiad o Gyfrifon Blwyddyn gael ei baratoi yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol. Mae'r arferion hyn, yn bennaf, yn cynnwys Cod Ymarfer 2015-16 ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig, a Chod Ymarfer 2015-16 ar gyfer Adrodd ar Wasanaethau, a gefnogir gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Y confensiwn cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn y Datganiad o Gyfrifon yw costau hanesyddol, yn bennaf, wedi'u haddasu trwy ailbrisio categorïau penodol o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol.

1.2 CRONIADAU INCWM A GWARIANT

Gwneir cyfrif o'r gweithgarwch yn y flwyddyn y mae'n digwydd, nid dim ond pan fo'r taliadau arian parod yn cael eu gwneud neu pan ddaw taliadau o'r fath i law. Yn benodol:

- Cydnabyddir y refeniw o werthu nwyddau pan fydd yr Awdurdod yn trosglwyddo'r risgiau sylweddol a buddion perchenogaeth i'r prynwr, a'i bod yn debygol y bydd manteision economaidd neu botensial o ran gwasanaeth, sy'n gysylltiedig â'r trafodiad, yn llifo i'r Awdurdod.
- Cydnabyddir y refeniw o ddarparu gwasanaethau pan fydd yr Awdurdod yn gallu mesur, mewn modd dibynadwy, ganran y trafodiad sydd wedi'i gwblhau, a'i bod yn debygol y bydd manteision economaidd neu botensial o ran gwasanaeth, sy'n gysylltiedig â'r trafodiad, yn llifo i'r Awdurdod.
- Cofnodir cyflenwadau yn wariant pan gânt eu defnyddio – pan fo bwlch rhwng y dyddiad y daw cyflenwadau i law a phan gânt eu defnyddio, fe'u cofnodir yn rhestri eiddo ar y Fantolen.
- Cofnodir treuliau mewn perthynas â gwasanaethau a gafwyd (gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan gyflogeion) yn wariant pan geir y gwasanaethau yn hytrach na phan gaiff y taliadau eu gwneud.
- Gwneir cyfrif o'r llog sy'n daladwy ar fenthyciadau ac sy'n dderbyniadwy ar fuddsoddiadau ar sail y gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach na'r llifoedd arian a benodir neu a bennir gan y contract.
- Lle bo incwm a gwariant wedi cael eu cydnabod, ond lle nad oes arian parod wedi dod i law neu wedi cael ei dalu, cofnodir dyledwr neu gredydwr ar gyfer y swm perthnasol yn y Fantolen. Lle nad yw'r ddyled wedi cael ei thalu, gwneir

cofnod o falans y dyledwyr, a chodir tâl ar refeniw ar gyfer yr incwm na fydd, o bosibl, yn cael ei gasglu.

1.3 ARIAN PAROD A'R HYN SY'N CYFATEB I ARIAN PAROD

Cynrychiolir arian parod gan arian mewn llaw ac adnau gyda sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb yn dilyn rhybudd o ddim mwy na 24 awr. Mae'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn fuddsoddiadau sy'n aeddfedu ymhen dim mwy na thri mis neu lai o'r dyddiad caffael, ac sy'n hawdd eu trawsnewid yn symiau hysbys o arian parod heb unrhyw risg sylweddol y byddant yn newid o ran eu gwerth.

Yn y Datganiad Llif Arian, dangosir arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ôl tynnu gorddrafftiau'r banc sydd i'w had-dalu yn ôl y galw, ac maent yn ffurfio rhan annatod o broses rheoli arian parod yr Awdurdod.

1.4 ADDASIADAU CYN Y CYFNOD, NEWIDIADAU O RAN POLISIËU CYFRIFYDDU AC AMCANGYFRIFON A CHYFEILIORNADAU

Gall addasiadau cyn y cyfnod godi o ganlyniad i newid yn y polisiau cyfrifyddu neu i gywiro cyfeiliornad perthnasol. Gwneir cyfrif am newidiadau o ran amcangyfrifon cyfrifyddu yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd sydd i ddod yr effeithir arnynt gan y newid, ac nid ydynt yn arwain at addasiad cyn y cyfnod.

Ni wneir newidiadau i'r polisiau cyfrifyddu oni bai fod hynny'n ofynnol gan arferion cyfrifyddu priodol, neu fod y newid yn rhoi gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodiadau, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol yr Awdurdod. Pan fydd newid yn cael ei wneud, caiff ei gymhwyso'n ôl-weithredol (oni bai y nodir yn wahanol) trwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol, fel pe bai'r polisi newydd wedi cael ei gymhwyso erioed.

Caiff cyfeiliornadau perthnasol a ganfuwyd yn ffigurau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol.

1.5 TALIADAU A GODIR AR REFENIW AR GYFER ASED AU ANGHYFREDOL

Caiff gwasanaethau, gwasanaethau cymorth a chyfrifon masnachu eu debydu gyda'r symiau canlynol er mwyn cofnodi cost cynnal asedau anghyfredol yn ystod y flwyddyn:

- dibrisiant a briodolir i'r asedau a ddefnyddiwyd gan y Gwasanaeth
- ailbrisiad asedau a ddefnyddiwyd gan y Gwasanaeth, ynghyd â cholledion oherwydd diffygiant, lle nad oes unrhyw enillion cronus yn y Gronfa Ailbrisiad Wrth Gefn y gellir dileu'r costau yn eu herbyn
- amorteiddio asedau anghyffyrddadwy a briodolir i'r Gwasanaeth.

Nid yw'n ofynnol i'r Awdurdod godi ardoll i ariannu dibrisiant, ailbrisiad a cholledion oherwydd diffygiant, nac amorteiddiad. Fodd bynnag, mae'n ofynnol iddo wneud cyfraniad blynyddol o'r gronfa refeniw at sicrhau lleihad yn ei ofynion benthyca

cyffredinol, sy'n hafal i swm a gyfrifir ar sail ddarbodus, ac a bennir gan yr Awdurdod, yn unol â chanllawiau statudol. Felly, disodlir dibrisiant, ailbrisiad, colledion oherwydd diffygiant ac amorteiddiad gan y cyfraniad ym Malans y Gronfa Gyffredinol (MRP), a hynny trwy drafodiad addasu gyda Chyfrif Addasu'r Cyfalaf yn y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y ddau.

1.6 BUDDION CYFLOGEION

Buddion sy'n daladwy yn ystod cyflogaeth

Buddion cyflogeion byrdymor yw'r rheiny a fydd yn cael eu talu yn eu cyfanrwydd o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys buddion tebyg i gyflogau, gwyliau blynyddol â thâl, absenoldeb salwch â thâl, bonysau a buddion nad ydynt yn ariannol (e.e. ceir) ar gyfer cyflogeion cyfredol, ac fe'u cydnabyddir yn wariant ar gyfer gwasanaethau yn y flwyddyn pan fydd y cyflogeion yn rhoi gwasanaeth i'r Awdurdod. Gwneir cronriad ar gyfer cost gwyliau y mae gan gyflogeion yr hawl iddynt ond nas cymerwyd cyn diwedd y flwyddyn, ac y gall y cyflogeion eu dwyn ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Gwneir y cronriad ar y cyfraddau cyflogau sy'n berthnasol yn y flwyddyn ganlynol, sef y cyfnod pan fydd y cyflogai yn gwneud defnydd o'r budd. Codir tâl am y cronriad ar y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau, ond yna caiff ei dynnu'n ôl allan trwy'r Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, fel bod tâl am unrhyw wyliau sy'n ddyledus yn cael ei godi ar refeniw yn y flwyddyn ariannol y bydd yr absenoldeb oherwydd gwyliau yn digwydd.

Buddion Terfynu

Buddion terfynu yw'r symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan yr Awdurdod i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol, neu gan swyddog i gollu gwaith yn wirfoddol yn gyfnewid am y buddion hynny. Codir tâl amdanynt ar sail cronriadau i'r gwasanaeth priodol, neu, lle bo hynny'n berthnasol, i'r llinell Costau Heb eu Dosbarthu yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a hynny naill ai pan na fydd yr Awdurdod yn gallu tynnu'r cynnig o'r buddion hynny yn ôl bellach, neu pan fydd yr Awdurdod yn cydnabod costau ar gyfer ailstrwythuro, pa un bynnag fydd yn digwydd gyntaf.

Pan fydd buddion terfynu yn cynnwys gwella pensiynau, mae darpariaeth statudol yn ei gwneud yn ofynnol i dâl gael ei godi ar Falans y Gronfa Gyffredinol, sef y swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu'r pensiynwr yn y flwyddyn, ac nid y swm a gyfrifir yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, mae dyraniadau i mewn ac allan o'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn yn ofynnol er mwyn cael gwared ar y debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer y buddion terfynu sy'n ymwneud â gwella'r pensiwn, a'u disodli â debydau ar gyfer yr arian parod a dalwyd i'r gronfa bensiwn ac i'r pensiynwyr, ynghyd ag unrhyw symiau tebyg sy'n daladwy ond sydd heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

Buddion ôl-gyflogaeth

Mae cyflogeion yr Awdurdod yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân:

- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Dyfed, Cyngor Sir Caerfyrddin.
- Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân, a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Dyfed, Cyngor Sir Caerfyrddin, ar ran yr Awdurdod.

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddion diffiniedig i'r aelodau (cyfandaliadau a phensiynau wrth ymddeol), a enillwyd gan y cyflogeion wrth iddynt weithio i'r Awdurdod.

Fodd bynnag, ariennir Cynllun y Llywodraeth Leol trwy berchenogaeth o asedau, ac nid ariennir Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Gwneir cyfrif o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol fel cynllun buddion diffiniedig a ariennir:

- Mae rhwymedigaethau Cronfa Bensiwn Dyfed, a briodolir i'r Awdurdod, wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraid, gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau – h.y. asesiad o'r taliad a wneir yn y dyfodol mewn perthynas â buddion ymddeoliad a enillwyd hyd yma gan y cyflogeion, a hynny'n seiliedig ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaethau, cyfraddau trosiant cyflogeion, ac ati, ac amcanestyniadau o enillion ar gyfer cyflogeion cyfredol.
- Caiff rhwymedigaethau eu gostwng i'w gwerth ar brisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio o 3.6% (yn seiliedig ar y gyfradd ddychwelyd ddangosol ar fondiau corfforaethol ansawdd uchel).
- Mae asedau Cronfa Bensiwn Dyfed, a briodolir i'r Awdurdod, wedi'u cynnwys yn y Fantolen yn ôl eu gwerth teg
 - gwarannau a ddyfynnwyd – pris cynnig cyfredol
 - gwarannau nas dyfynnwyd – amcangyfrif proffesiynol
 - gwarannau unedol – pris cynnig cyfredol
 - eiddo – gwerth y farchnad

Dadansoddir y newid yn rhwymedigaeth net y pensiwn yn ôl y cydrannau canlynol:

- Costau gwasanaethau, yn cynnwys:
 - Cost y gwasanaethau cyfredol – y cynnydd yn y rhwymedigaethau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni – a neilltuwyd yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau yr oedd y cyflogeion yn gweithio iddynt
 - Cost gwasanaethau yn y gorffennol – y cynnydd yn y rhwymedigaethau o ganlyniad i ddiwygio neu gwtogi ar gynllun, y mae ei effaith yn berthnasol i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd blaenorol – wedi'u debydu i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a hynny'n rhan o'r Costau Heb eu Dosbarthu
 - Y llog net ar rhwymedigaeth y buddion diffiniedig net (ased), h.y. cost y llog net ar gyfer yr Awdurdod – y newid i rhwymedigaeth y buddion

diffiniedig net (ased) yn ystod y cyfnod, sy'n codi o ganlyniad i dreigl amser, ac y codir tâl amdano yn y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr – caiff hwn ei gyfrifo trwy gymhwyso'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir i fesur ymrwymiad y buddion diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod at rwymedigaeth y buddion diffiniedig net (ased) ar ddechrau'r cyfnod – gan roi ystyriaeth i unrhyw newidiadau yn rhwymedigaeth y buddion diffiniedig net (ased) yn ystod y cyfnod o ganlyniad i dalu cyfraniadau a buddion.

- Ailfesuriadau, yn cynnwys:
 - Yr elw o asedau'r cynllun – heb gynnwys y symiau sy'n gynnwysedig yn y llog net ar rwymedigaeth y buddion diffiniedig net (ased) – y codir tâl arno i'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall
 - Enillion a cholledion actiwaraidd – newidiadau yn rhwymedigaethau net y pensiynau sy'n codi oherwydd nad yw'r digwyddiadau wedi cyd-fynd â'r tybiaethau a wnaed yn ystod y gwerthusiad actiwaraidd diwethaf, neu oherwydd bod yr actiwariaid wedi diweddarau eu tybiaethau – y codir tâl amdanynt ar y Cronfeydd Pensiwn Wrth Gefn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall
- Cyfraniadau a dalwyd i Gronfa Bensiwn Dyfed – arian parod a dalwyd ar ffurf cyfraniadau cyflogeion i'r gronfa bensiwn wrth setlo rhwymedigaethau; na roddir cyfrif amdanynt ar ffurf treuliau

Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân

Gwneir cyfrif am Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân fel cynllun buddion diffiniedig nas ariennir; nid oes gan y Cynllun unrhyw asedau nac unrhyw incwm o fuddsoddiadau:

- Mae'r rhwymedigaethau ar gyfer y Gronfa wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd, gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau – h.y. asesiad o'r taliad a wneir yn y dyfodol mewn perthynas â buddion ymddeoliad a enillwyd hyd yma gan y cyflogeion, a hynny'n seiliedig ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaethau, cyfraddau trosiant cyflogeion, ac ati, ac amcanestyniadau o enillion ar gyfer cyflogeion cyfredol.
- Caiff rhwymedigaethau eu gostwng i'w gwerth ar brisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio o 3.55% (yn seiliedig ar arenillion bondiau'r Llywodraeth, o'r hyd priodol, plws maint ychwanegol).

Dadansoddir y newid yn rhwymedigaeth net y gronfa bensiwn yn ôl y cydrannau canlynol:

- Costau gwasanaethau, yn cynnwys:
 - Cost y gwasanaethau cyfredol – y cynnydd yn y rhwymedigaethau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni – a neilltuwyd yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau yr oedd y cyflogeion yn gweithio iddynt

- Cost gwasanaethau yn y gorffennol – y cynnydd yn y rhwymedigaethau o ganlyniad i ddiwygio neu gwtogi ar gynllun, y mae ei effaith yn berthnasol i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd blaenorol – wedi'u debydu i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a hynny'n rhan o'r Costau Heb eu Dosbarthu
- Llog ar rhwymedigaeth y buddion diffiniedig, h.y. costau llog ar gyfer yr Awdurdod – y newid yn ystod y cyfnod o ran rhwymedigaeth y buddion diffiniedig sy'n codi o ganlyniad i dreigl amser, ac y codir tâl amdano yn y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr – caiff hwn ei gyfrifo trwy gymhwysu'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir i fesur ymrwymiad y buddion diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod at rhwymedigaeth y buddion diffiniedig net ar ddechrau'r cyfnod – gan roi ystyriaeth i unrhyw newidiadau yn rhwymedigaeth y buddion diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i dalu cyfraniadau a buddion
- Ailfesuriadau, yn cynnwys:
 - Enillion a cholledion actiwaraidd – newidiadau yn rhwymedigaethau net y pensiynau sy'n codi oherwydd nad yw'r digwyddiadau wedi cyd-fynd â'r tybiaethau a wnaed yn ystod y gwerthusiad actiwaraidd diwethaf, neu oherwydd bod yr actiwariaid wedi diweddarau eu tybiaethau – y codir tâl amdanynt ar y Cronfeydd Pensiwn Wrth Gefn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall
- Cyfraniadau a dalwyd i'r Gronfa – arian parod a dalwyd ar ffurf cyfraniadau cyflogeion i'r gronfa bensiwn wrth setlo rhwymedigaethau; na roddir cyfrif amdanynt ar ffurf treuliau

O ran buddion ymddeoliad, mae darpariaeth statudol yn ei gwneud yn ofynnol i dâl gael ei godi ar Falans y Gronfa Gyffredinol, sef y swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu yn uniongyrchol i'r pensiynwr yn y flwyddyn, ac nid y swm a gyfrifir yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, golyga hyn fod yna drosglwyddiadau i'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn, ac allan ohoni, sy'n dileu'r debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddion ymddeoliad, ac yn eu disodli â debydau ar gyfer yr arian parod a dalwyd i'r gronfa bensiwn ac i'r pensiynwyr, ynghyd ag unrhyw symiau tebyg sy'n daladwy ond sydd heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn. Felly, mae'r balans negatif sy'n codi ar y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn yn mesur yr effaith fuddiol ar y Gronfa Gyffredinol o ran y gofyniad i roi cyfrif am y buddion ymddeoliad ar sail llifoedd arian yn hytrach nag wrth i'r cyflogeion ennill y buddion.

Buddion yn ôl Disgresiwn

Mae gan yr Awdurdod hefyd bwerau cyfyngedig i ddyfarnu buddion ymddeoliad yn ôl disgresiwn yn achos ymddeoliadau cynnar. Bydd unrhyw rhwymedigaethau yr amcangyfrifir y byddant yn codi o ganlyniad i ddyfarniad i unrhyw aelod o'r staff, yn cronni yn y flwyddyn y gwneir y penderfyniad, a gwneir cyfrif amdanynt gan ddefnyddio'r un polisiâu ag sy'n berthnasol i Gynlluniau Pensiwn y Llywodraeth Leol a'r Diffoddwyr Tân.

1.7 DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd yw'r digwyddiadau hynny, yn rhai ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad y rhoddir awdurdod i'r datganiadau ariannol gael eu cyhoeddi. Gellir nodi dau fath o ddigwyddiad:

- y rheiny sy'n darparu tystiolaeth o amodau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – addasir y Datganiad o Gyfrifon i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath
- y rheiny sy'n amlygu amodau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – nid addasir y Datganiad o Gyfrifon i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond lle byddai categori o ddigwyddiadau yn cael effaith sylweddol, datgelir yn y nodiadau natur y digwyddiadau, ynghyd â'u heffaith ariannol amcangyfrifedig.

Nid adlewyrchir yn y Datganiad o Gyfrifon ddigwyddiadau sy'n digwydd ar ôl y dyddiad y rhoddir awdurdod i'r datganiadau ariannol gael eu cyhoeddi.

1.8 OFFERYNNAU ARIANNOL

Rhwymedigaethau Ariannol

Cydnabyddir rhwymedigaethau ariannol ar y Fantolen pan ddaw'r Awdurdod yn barti i ddarpariaethau contractiol offeryn ariannol, a chânt eu mesur ar werth teg i gychwyn, a'u cario ar eu cost amorteiddiedig. Mae costau blynyddol a godir ar y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer llog sy'n daladwy, yn seiliedig ar swm y rhwymedigaeth sy'n cael ei gario, wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn. Y gyfradd llog effeithiol yw'r gyfradd sy'n disgowntio, yn union, daliadau arian parod amcangyfrifedig yn y dyfodol dros oes yr offeryn, a hynny i'r swm a gafodd ei gydnabod yn wreiddiol.

Yn achos y benthyciadau sydd gan yr Awdurdod, golyga hyn mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prif swm ad-daladwy sy'n disgwyl sylw (plws llog cronedig); a'r llog y codir tâl amdano yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy ar gyfer y flwyddyn, yn ôl cytundeb y benthyciad.

Asedau Ariannol

Dosberthir asedau ariannol yn ddau fath:

- benthyciadau a symiau derbyniadwy – asedau ac iddynt daliadau sefydlog neu bendant ond nad ydynt wedi'u datgan mewn marchnad weithredol
- asedau sydd ar gael i'w gwerthu – asedau ac iddynt bris a ddyfynnir ar y farchnad a/neu nad oes iddynt daliadau sefydlog neu bendant

Benthyciadau a Symiau Derbyniadwy

Cydnabyddir benthyciadau a symiau derbyniadwy ar y Fantolen pan ddaw'r Awdurdod yn barti i ddarpariaethau contractiol offeryn ariannol, a chânt eu mesur ar werth teg i gychwyn. Yn dilyn hyn, cânt eu mesur ar eu gwerth amorteiddiedig. Mae credydau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad o

Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer llog sy'n dderbyniadwy, yn seiliedig ar swm ar ased sy'n cael ei gario, wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn. Yn achos y benthyciad y mae'r Awdurdod wedi'i wneud, golyga hyn mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prif swm derbyniadwy sy'n disgwyl sylw (plws llog cronedig); a'r llog y codir tâl amdano yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n dderbyniadwy ar gyfer y flwyddyn yn ôl cytundeb y benthyciad.

Caiff unrhyw enillion neu golledion sy'n codi o ganlyniad i ddatgydnabod ased eu credydu neu eu debydu i linell yr Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Asedau Sydd ar Gael i'w Gwerthu

Nid yw'r Awdurdod yn dal unrhyw asedau sydd ar gael i'w gwerthu.

Y gyfradd llog effeithiol yw'r gyfradd sy'n disgowntio, yn union, arian parod amcangyfrifedig yn y dyfodol.

1.9 TROSI ARIAN TRAMOR

Cynhelir y mwyafrif o drafodiadau yr Awdurdod mewn sterling. Pan fydd yr Awdurdod wedi ymrwymo i drafodiad sy'n ymwneud ag arian tramor, caiff y trafodiad ei drosi i sterling ar y gyfradd gyfnewid a oedd yn berthnasol ar y dyddiad y cynhaliwyd y trafodiad.

1.10 GRANTIAU A CHYFRANIADAU'R LLYWODRAETH

Pa un a chânt eu talu trwy gyfrif, trwy randaliadau neu ar ffurf ôl-ddyledion, cydnabyddir grantiau a chyfraniadau'r llywodraeth yn incwm ar y dyddiad y mae'r Awdurdod yn bodloni amodau'r hawl i gael y grant/cyfraniad, pan fydd yna sicrwydd rhesymol y bydd yr arian yn dod i law, a phan fydd y gwariant y rhoddir y grant ar ei gyfer naill ai wedi codi neu fod yna ddisgwyliad rhesymol y bydd yn codi. Yn y cyfrifon refeniw gwasanaeth, mae grantiau refeniw yn cyfateb i'r gwariant ar wasanaethau sy'n berthnasol iddynt. Mae grantiau i dalu am wariant cyffredinol yn cael eu credydu i droed y cyfrif incwm a gwariant ar ôl Gwariant Gweithredol Net.

1.11 ASED AU ANGHYFFYRDDADWY

Caiff gwariant ar asedau anariannol nad oes iddynt sylwedd ffisegol, ond sy'n cael eu rheoli gan yr Awdurdod o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol (e.e. trwyddedau meddalwedd), ei gyfalafu pan ddisgwyllir y bydd potensial am wasanaeth neu fuddion economaidd yn y dyfodol yn llifo o'r ased anghyffyrddadwy i'r Awdurdod.

Caiff asedau anghyffyrddadwy a gynhyrchir yn fewnol eu cyfalafu pan fodlonir y meini prawf cydnabod. Mae'r meini prawf fel a ganlyn: mae'n rhaid gallu gwahanu'r ased oddi wrth yr endid, rhaid i'r endid reoli'r ased, rhaid cael budd economaidd o'r ased yn y dyfodol, rhaid iddi fod yn debygol y bydd buddion yn llifo i'r endid, a rhaid iddi fod yn bosibl mesur cost yr ased mewn modd dibynadwy. Bydd yr ased anghyffyrddadwy yn cael ei fesur ar gost i gychwyn, codir tâl ar gyfer pob ailbrisiad ar y gronfa ailbriso wrth gefn, ac nid oes i'r ased oes ddefnyddiol hiraf posibl.

1.12 RHESTRI EIDDO A CHONTRACTAU HIRDYMOR

Caiff rhestri eiddo eu cynnwys yn y Fantolen ar yr isaf o'r gost a'r gwerth dichonadwy net. Defnyddir y dull 'Cyntaf i Mewn, Cyntaf Allan' i ddyrannu cost y rhestri eiddo.

Gwneir cyfrif am gontractau hirdymor ar sail codi tâl ar y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau am werth y gwaith a'r gwasanaethau a geir o dan y contract yn ystod y flwyddyn ariannol.

1.13 LESOEDD

Lesoedd cyllid

Pan fo holl risgiau a buddion perchenogaeth ased ar brydles yn gyfrifoldeb, i raddau helaeth, i'r Awdurdod, cofnodir yr ased fel Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar, a chofnodir rhwymedigaeth gyfatebol. Y gwerth a gydnabyddir ar gyfer y rhain yw'r isaf o werth teg yr ased neu werth presennol lleiafswm taliadau'r les, wedi'i ddisgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd llog sydd ymhlyg yn y les. Y gyfradd llog ymhlyg yw'r gyfradd sy'n cynhyrchu cyfradd llog gyfnodol gyson ar y rhwymedigaeth sy'n disgwyl sylw. Cydnabyddir yr ased a'r rhwymedigaeth ar gychwyn y les, a chânt eu datgydnabod pan fydd y les yn cael ei chyflawni neu ei chanslo, neu pan fydd yn dod i ben. Rhennir y rhent blynyddol rhwng ad-dalu'r rhwymedigaeth a chost gyllido. Cyfrifir y gost gyllido flynyddol trwy gymhwyso'r gyfradd llog ymhlyg i'r rhwymedigaeth sy'n disgwyl sylw, a chodir tâl amdano ar y Costau Cyllido yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Lesoedd Gweithredu

Pan fo asedau ar gael i'w defnyddio o dan drefniadau lesioedd gweithredol, codir tâl am y rhent sy'n daladwy ar y cyfrif gwasanaethau priodol, a hynny ar sail llinell syth, ni waeth beth yw'r trefniadau talu. Gan nad yw'r Awdurdod yn berchen ar yr asedau hyn, nid ydynt yn ymddangos yn y Fantolen. Yn yr un modd, ni chaiff y rhwymedigaeth i dalu costau rhentu yn y dyfodol ei chynnwys chwaith, ond atodir nodyn ar wahân i'r Fantolen.

1.14 GORBENION A GWASANAETHAU CYMORTH

Codir tâl am orbenion a gwasanaethu cymorth ar y rheiny sy'n elwa ar y cyflenwad neu'r gwasanaeth, yn unol ag egwyddorion prisio cod ymarfer CIPFA, sef *Cod Ymarfer ar gyfer Adrodd ar Wasanaethau 2015-16* (SeRCOP). Defnyddir egwyddor costio amsugol llwyr – rhennir cost lawn y gorbenion a'r gwasanaethau cymorth rhwng y defnyddwyr, yn gymesur â'r buddion a geir, ac eithrio'r canlynol:

- Craidd Corfforaethol a Democrataidd – costau sy'n ymwneud â statws yr Awdurdod fel sefydliad amlswyddogaethol, democrataidd.
- Costau Heb eu Dosbarthu – cost buddion dewisol a ddyrennir i gyflogeion sydd yn ymddeol yn gynnar, ynghyd â cholledion oherwydd diffygiant y codir tâl amdanynt ar yr Asedau a Ddelir i'w Gwerthu.

Diffinnir y ddau gategori costau hyn yn SeRCOP, a gwneir cyfrif amdanynt o dan benawdau ar wahân yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a hynny yn rhan o Gost Gwasanaethau.

1.15 EIDDO, PEIRIANNAU A CHYFARPAR

Cydnabyddiaeth

Caiff Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar eu cyfalafu o dan yr amodau canlynol:

- mae'r eitem cael ei dal i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau neu at ddibenion gweinyddol;
- mae'n debygol y bydd buddion economaidd yn llifo i'r Awdurdod yn y dyfodol, neu y bydd gwasanaethau posibl yn cael eu darparu i'r Awdurdod;
- disgwylir iddi gael ei defnyddio am fwy nag un flwyddyn ariannol;
- gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy;
- mae cost yr ased unigol yn £5,000, o leiaf;
- mae'r eitemau yn ffurfio grŵp o asedau sydd, gyda'i gilydd, â chost o £5,000, o leiaf, lle mae'r asedau yn annibynnol ar ei gilydd yn weithredol, cawsant eu prynu fwy neu lai ar yr un dyddiad, disgwylir iddynt gael eu gwaredu fwy neu lai ar yr un dyddiad, ac fe'u rheolir gan un rheolwr; ac
- mae'r eitemau yn ffurfio rhan o'r costau cyfarparu a gosod cychwynnol ar gyfer adeilad newydd neu waith adnewyddu ar orsaf neu swyddfeydd, ni waeth beth yw eu costau unigol neu ar y cyd. Pan fo ased mawr, er enghraifft adeilad, yn cynnwys nifer o gydrannau sydd ag oesau asedau gwahanol iawn, e.e. peiriannau a chyfarpar, yna caiff y cydrannau hyn eu trin fel asedau ar wahân, a'u dibrisio dros eu hoesau economaidd defnyddiol eu hunain.

Oes Economaidd Ddefnyddiol Asedau

Bydd yr asedau hyn yn cael eu dal gan y Gwasanaeth dros eu hoesau economaidd defnyddiol am y cyfnodau canlynol:

Adeiladau	10-80 blynedd
Seilwaith	5-40 blynedd
Cerbydau, Peiriannau a Chyfarpar	3-15 mlynedd
Asedau anghyfyrdadwy	3-15 mlynedd

Mesuriad

Prisiad

Caiff pob ased eiddo, peiriant a chyfarpar ei fesur ar y gost gychwynnol, sy'n cynrychioli'r gost sydd i'w phriodoli'n uniongyrchol i'r broses o brynu neu adeiladu'r ased a sicrhau ei fod yn y lleoliad a'r cyflwr angenrheidiol ar gyfer gweithredu yn y modd a fwriedir gan y rheolwyr.

Caiff pob ased wedyn ei fesur ar werth teg.

Caiff asedau tir ac eiddo eu prisio bob pum mlynedd. Cynhelir yr ailbrisiadau pum mlynedd, ynghyd ag unrhyw ailbrisiadau interim, gan brisiwr proffesiynol

cymwysedig, yn unol â Chanllawiau Arfarnu a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS). Caiff eiddo a nodir yn eiddo gweithredol ei brisio naill ai ar y Gost Adnewyddu Ddibrisiedig (DRC) neu ar Werth y Defnydd Presennol (EUV), yn dibynnu p'un a oes i'r ased natur arbenigol ai peidio. Cynhelir yr adolygiadau gan ddefnyddio'r wybodaeth fwyaf priodol sydd ar gael ar ddyddiad yr adolygiad. Cynhaliwyd ailbrisiad ar 1 Ebrill 2015.

Caiff asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu eu prisio ar gost yr anfoneb/y gost hanesyddol. Yn dilyn hyn, cânt eu hailbrisio pan fyddant yn bodloni'r amodau o fod ar gael i'w defnyddio.

Gwariant dilynol

Pan fydd gwariant dilynol yn gwella ased y tu hwnt i'w fanyleb wreiddiol, ychwanegir y gost y gellir ei phriodoli'n uniongyrchol at werth cario'r ased. Pan fydd gwariant dilynol yn golygu adfer yr ased i'r fanyleb a dybir gan ei oes ddefnyddiol economaidd, yna codir tâl am y gwariant ar y costau gweithredu.

Dibrisiant

Mae eitemau o ran eiddo, peiriannau a chyfarpar yn dibrisio dros weddill eu hoesau economaidd defnyddiol, a hynny mewn modd sy'n gyson â defnyddio buddion economaidd neu fuddion darparu gwasanaethau.

Ystyrir bod i dir rhydd-ddaliadol oes annherfynol, ac ni chaiff ei ddibrisio.

Mae oes economaidd ddefnyddiol asedau a chyfarpar y fflyd yn amrywio, ond yn disgyn o fewn amrediad o 3-15 mlynedd, y seilier y tâl dibrisiant blynyddol arno. Caiff pob achos o ddibrisiant ei gyfrifo ar sail "llinell syth".

Bydd eiddo, peiriannau a chyfarpar a ailddosbarthir yn rhai 'a Ddelir i'w Gwerthu' yn peidio â dibrisio ar ôl cael eu hailddosbarthu. Ni chaiff asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu eu dibrisio hyd nes bo'r ased yn barod i gael ei ddefnyddio.

Cyfrifyddu Cydrannau

Mae cydran o eiddo, peiriannau a chyfarpar yn eitem ac iddi gost sy'n arwyddocaol mewn perthynas â chyfanswm cost yr ased. Dylai cydrannau gael eu dibrisio yn unigol dros eu hoes ddefnyddiol.

Ailbrisio a Diffygiant

Mae cynnydd yng ngwerthoedd asedau sy'n deillio o ailbrisiadau yn cael ei gydnabod yn y gronfa ailbrisio wrth gefn, ac eithrio lle maent yn gwrthdroi diffygiant a gydnabuwyd yn flaenorol mewn costau gweithredu, ac i'r graddau y maent yn gwneud hynny; mewn achos o'r fath fe'i cydnabyddir yn yr incwm gweithredu.

Codir tâl am leihad yng ngwerthoedd asedau a diffygiant asedau ar y gronfa ailbrisio wrth gefn, a hynny i'r graddau y mae balans ar gael ar gyfer yr ased dan sylw, ac, wedi hynny, codir tâl amdanynt ar y costau gweithredu.

Adroddir am enillion a cholledion a gydnabyddir yn y gronfa ailbrizio wrth gefn yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, a hynny ar ffurf eitem o 'incwm cynhwysfawr arall'.

Gwaredu Asedau Anghyfredol

Mae derbyniadau o ganlyniad i waredu asedau anghyfredol, sy'n werth mwy na £10 mil, yn creu incwm a elwir yn Dderbyniadau Cyfalaf. Delir y rhain mewn cronfeydd wrth gefn ac yng Nghyfrif Addasu'r Cyfalaf tra bo'r broses o'u defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf newydd neu i glirio dyled benthyciad yn yr arfaeth. Caiff derbyniadau o £10 mil neu lai, o ganlyniad i waredu asedau anghyfredol, eu trin fel incwm refeniw.

1.16 DARPARIAETHAU, RHWYMEDIGAETHAU DIGWYDDIADOL AC ASEDAU DIGWYDDIADOOL

Darpariaethau

Gwneir darpariaethau yn sgil digwyddiad sy'n rhoi ymrwymiad gyfreithiol neu adeiladol ar yr Awdurdod, a honno, yn ôl pob tebyg, yn gofyn am setliad trwy drosglwyddo buddion economaidd neu botensial wasanaethau, a lle gellir rhoi amcangyfrif dibynadwy o swm yr ymrwymiad.

Codir tâl am ddarpariaethau ar y llinell gwasanaethau briodol yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a hynny ar ffurf traul yn y flwyddyn y daw'r Awdurdod yn ymwybodol o'r ymrwymiad, a chânt eu mesur ar yr amcangyfrif gorau, ar ddyddiad y Fantolen, o'r gwariant gofynnol i setlo'r ymrwymiad, gan ystyried risgiau ac ansicrwyddau perthnasol.

Pan wneir y taliadau yn y pen draw, codir tâl amdanynt ar y ddarpariaeth sy'n cael ei chario yn y Fantolen. Adolygir setliadau amcangyfrifedig ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol; lle y daw'n llai na thebygol y bydd trosglwyddo buddion economaidd 'nawr yn ofynnol (neu lle caiff setliad is na'r disgwyl ei wneud), caiff y ddarpariaeth ei gwrthdroi a'i chredydu yn ôl i'r gwasanaeth perthnasol.

Lle disgwylir y bydd rhan o'r taliad sy'n ofynnol i setlo darpariaeth, neu'r taliad cyfan, yn cael ei adfer oddi wrth barti arall (e.e. trwy gais yswiriant), cydnabyddir bod hyn yn incwm ar gyfer y gwasanaeth perthnasol dim ond os ydyw fwy neu lai yn sicr y bydd ad-daliad yn cael ei wneud os bydd yr Awdurdod yn setlo'r ymrwymiad.

Rhwymedigaethau Digwyddiadol

Mae rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn codi yn sgil digwyddiad sy'n rhoi ymrwymiad posibl ar yr Awdurdod, y bydd ei bodolaeth yn cael ei chadarnhau yn unig yn sgil digwyddiadau ansicr yn y dyfodol, neu beidio, nad ydynt o fewn rheolaeth lwyr yr Awdurdod. Mae rhwymedigaethau digwyddiadol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall, ond nid yw'n debygol y bydd all-lif o adnoddau yn ofynnol, neu ni all swm yr ymrwymiad gael ei fesur yn ddibynadwy.

Ni chydabyddir rhwymedigaethau digwyddiadol yn y Fantolen, ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon.

Asedau Digwyddiadol

Mae ased digwyddiadol yn codi yn sgil digwyddiad sy'n rhoi ased posibl i'r Awdurdod, y bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau yn unig yn sgil digwyddiadau ansicr yn y dyfodol, neu beidio, nad ydynt o fewn rheolaeth lwyr yr Awdurdod.

Ni chydabyddir asedau digwyddiadol yn y Fantolen, ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon pan fo'n debygol y bydd yna fewnlif o fuddion economaidd neu botensial o wasanaethau.

1.17 CRONFEYDD WRTH GEFN

Mae'r Awdurdod yn cynnal cronfeydd wrth gefn er mwyn bodloni gwariant yn y dyfodol. Datgelir y rhain yn y Fantolen, ac esbonnir eu diben yn y nodiadau i'r Fantolen.

Cedwir cronfeydd wrth gefn penodol er mwyn rheoli'r broses gyfrifyddu ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol, ymddeoliad a buddion cyflogeion, ac nid ydynt yn cynrychioli adnoddau y gall yr Awdurdod eu defnyddio.

1.18 TRETH AR WERTH (TAW)

Caiff y TAW sy'n daladwy ei chynnwys fel traul dim ond i'r graddau nad yw'n adferadwy gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Caiff y TAW sy'n dderbyniadwy ei heithrio o'r incwm.

2. ADDASIADAU'R FLWYDDYN FLAENOROL

Wrth adolygu'r broses o ailbriso asedau anghyfredol ar 1 Ebrill 2015, nodwyd bod yna gyfeiliornadau yn yr ailbrisiadau blaenorol:

Prisiadau

Nodwyd bod prisiadau 2011-12, a ddefnyddiai dull y gost adnewyddu ddibrisiedig (DRC), yn cynnwys ffigur ar gyfer cost y cyfalaf. Er 2010-11, dylai'r dull 'Adeiladu Gwib' fod wedi cael ei ddefnyddio wrth ddefnyddio DCR; mae'r dull hwn yn tybio taliad unigol ar gyfer adeiladu, felly ni ddylai prisiadau gynnwys cost y cyfalaf. O ganlyniad i hyn, cafodd y gwerth gros ar bapur ar 31 Mawrth 2015 ei chwyddo, ac ni chafodd cost y cyfalaf ei chynnwys yn ailbrisiad 2015-16.

At hynny, cafodd yr asedau yr adroddwyd amdanynt yn y gofrestr asedau a chyfrifon y flwyddyn flaenorol eu chwyddo o ganlyniad i gynnwys asedau dyblyg yn y gofrestr asedau. Gwnaed nifer o addasiadau i'r cyfrifon o ganlyniad uniongyrchol i hyn.

Disgrifiadau o adeiladau

Arweiniodd y disgrifiadau gwahanol o adeiladau a ddefnyddiwyd yn y prisiadau at beidio â chyfateb prisiadau ar i lawr yn gywir i'r balansau a ddelid yn y Gronfa Ailbriso Wrth Gefn. Arweiniodd hyn at gostau anghywir i'r Gronfa Ailbriso Wrth Gefn ac i Gyfrif Addasu'r Cyfalaf. Ar un safle, a oedd yn cynnwys nifer o adeiladau, daethpwyd o hyd i ddyblygiadau o ran gwerthoedd ar gyfer y safle.

Ased ar brydles

Nodwyd nad oedd cyfrif cywir wedi cael ei wneud am ased ar brydles, gan fod cyfran yr ased a oedd ar les wedi cael ei chynnwys yng ngofrestr asedau'r Awdurdod. O ganlyniad i hyn, cafodd y gwerth gros ar bapur ar 31 Mawrth 2015 ei chwyddo.

Gwnaed nifer o addasiadau eraill i'r wybodaeth gymaradwy er mwyn cywiro cyfeiliornadau yn natganiadau ariannol 2014-15.

Dangosir isod yr addasiadau a wnaed i'r Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen a'r Datganiad Llif Arian ar gyfer 2014-15.

Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn	2014-15 Wedi'i gyhoeddi			Symudiad			2014-15 Wedi'i ailddatgan		
	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defn'wy £000	Cronfeydd Wrth Gefn Annefn'wy £000	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod £000	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defn'wy £000	Cronfeydd Wrth Gefn Annefn'wy £000	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod £000	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defn'wy £000	Cronfeydd Wrth Gefn Annefn'wy £000	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod £000
Balans ar 31 Mawrth 2014	-7,865	352,473	344,608	249	8,765	9,014	-7,616	361,238	353,622
Symudiadau: (Gwarged)/Diffyg ar Ddarparu									
Gwasanaethau Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall	16,658	0	16,658	464	0	464	17,122	0	17,122
	0	30,309	30,309	0	-36	-36	0	30,273	30,273
Cyfanswm yr Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	16,658	30,309	46,967	464	-36	428	17,122	30,273	47,395
Addasiadau i'r gwaith cyfrifysyddu ac ariannu	-17,961	17,961	0	-618	618	0	-18,579	18,579	0
(Cynnydd)/Lleihad net cyn trosglwyddo'r cronfeydd wrth gefn	-1,303	48,270	46,967	-154	582	428	-1,457	48,852	47,395
Trosglwyddiadau i'r/(o'r) Cronfeydd Wrth Gefn	0	0	0	0	0	0	0	0	0
(Cynnydd)/Lleihad yn 2014-15	-1,303	48,270	46,967	-154	582	428	-1,457	48,852	47,395
Balans ar 31 Mawrth 2015	-9,168	400,743	391,575	95	9,347	9,442	-9,073	410,090	401,017

Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	2014-15 Wedi'i gyhoeddi Gwariant Net £000	Symudiad Gwariant Net £000	2014-15 Wedi'i ailddatgan Gwariant Net £000
Costau'r Gwasanaethau	40,830	563	41,393
Gwariant Gweithredu Arall	139	(99)	40
Incwm o Fuddsoddi ac Ariannu	18,606	0	18,606
Trethiant ac incwm grant amhenodol	(42,917)	0	(42,917)
(Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	16,658	464	17,122
<i>Eitemau na chawsant eu hailddosbarthu i'r (Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau</i>			
Ailfesur rhwymedigaeth y pensiwn	30,168	0	30,168
Ailbrisió a Diffygiant asedau anghyfredol	141	(36)	105
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	30,309	(36)	30,273
Cyfanswm yr Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	46,967	428	47,395

Mantolen	Symudiad 2013-14			Symudiad 2014-15		
	31 Mawrth 2014 Wedi'i gyhoeddi £000	31 Mawrth 2014 Wedi'i aii-ddatgan £000	31 Mawrth 2014 Wedi'i aii-ddatgan £000	31 Mawrth 2015 Wedi'i gyhoeddi £000	31 Mawrth 2015 Wedi'i aii-ddatgan £000	31 Mawrth 2015 Wedi'i aii-ddatgan £000
Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar	75,090	-9,083	66,007	74,129	-9,572	64,557
Asedau sy'n Cael eu Hadeiladu	0	0	0	0	130	130
Asedau Anghyffyrddadwy	166	0	166	193	0	193
Dyledwyr Hirdymor	105	0	105	148	0	148
Asedau Hirdymor	75,361	-9,083	66,278	74,470	-9,442	65,028
Asedau a Ddelir i'w Gwerthu	356	69	425	0	0	0
Rhestri eiddo	399	0	399	400	0	400
Dyledwyr Byrdymor	7,164	0	7,164	12,525	0	12,525
Arian Parod a'r hyn sy'n Cyfateb i Arian Parod	1,928	0	1,928	1,826	0	1,826
Asedau Cyfredol	9,847	69	9,916	14,751	0	14,751
Benthyca Byrdymor	-314	0	-314	-308	0	-308
Credydwyr Byrdymor	-5,225	0	-5,225	-6,383	0	-6,383
Rhwymedigaethau Byrdymor Eraill	-923	0	-923	-872	0	-872
Rhwymedigaethau Cyfredol	-6,462	0	-6,462	-7,563	0	-7,563
Benthyciadau Hirdymor	-12,026	0	-12,026	-15,246	0	-15,246
Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill	-4,989	0	-4,989	-5,430	0	-5,430
Rhwymedigaethau sy'n berthnasol i gynlluniau pensiwn buddion diffiniedig	-406,339	0	-406,339	-452,557	0	-452,557
Rhwymedigaethau Hirdymor	-423,354	0	-423,354	-473,233	0	-473,233
Rhwymedigaethau Net	-344,608	-9,014	-353,622	-391,575	-9,442	-401,017
Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy	-7,865	249	-7,616	-9,168	95	-9,073
Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy	352,473	8,765	361,238	400,743	9,347	410,090
Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn	344,608	9,014	353,622	391,575	9,442	401,017

Datganiad Llif Arian	2014-15 Wedi'i gyhoeddi £000	Symudiad £000	2014-15 Wedi'i ailddatgan £000
(Gwarged) neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau	16,658	464	17,122
Addasiadau i'r gwarged neu'r diffyg net ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer symudiadau anariannol (nodyn 21)	(45,559)	(29,521)	(16,038)
Addasiadau ar gyfer eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y gwarged neu'r diffyg net ar ddarparu gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi neu ariannu	30,309	(30,349)	(40)
Llif arian net o Weithgareddau Gweithredol	1,408	(364)	1,044
Gweithgareddau Buddsoddi (nodyn 22)	2,298	364	2,662
Gweithgareddau Ariannu (nodyn 23)	(3,604)	0	(3,604)
(Cynnydd) neu ostyngiad net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	102	0	102
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod adrodd	1,928	0	1,928
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd (nodyn 17)	1,826	0	1,826

3. SAFONAU CYFRIFYDDU A GYHOEDDWDYD OND NAS MABWYSIADWYD HYD YMA

Cyhoeddwyd y Safonau Cyfrifyddu Canlynol gan y Corff Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) ond ni chawsant eu mabwysiadu hyd yma. Bydd y Safonau hyn yn dod i rym ar gyfer Datganiadau 2016-17, ond ni ddisgwylir i'r effaith fod yn hanfodol bwysig.

IAS 19 Buddion Cyflogeion – Mae'r safon hon wedi cael ei haddasu i ddatgelu cyfraniadau cyflogeion yn fwy clir.

Gwelliannau Blynyddol i'r IFRS – Ymhlith y materion y mae:

IFRS 3: Cyfuniadau busnes;

IFRS 8: Cysoni asedau yr adroddir arnynt yn gylchrannol â'r rheiny yr adroddir arnynt ar gyfer yr endid;

IFRS 13: Mesur symiau derbyniadwy a thladwy byrdymor yn ôl gwerth teg;

IAS 16: Trin dibrisiant cronodig wrth ailbrisiu asedau cyffyrddadwy anghyfredol;

IAS 24: Egluro y dylai endidau rheoli gael eu cynnwys mewn datgeliadau partïon perthynol;

IAS 38: Trin dibrisiant cronodig wrth ailbrisiu asedau anghyffyrddadwy;

IFRS 5: Canllawiau ar gyfer dosbarthu asedau anghyfredol;

IFRS 7: Cynnwys contractau'r gwasanaeth wrth adrodd am offerynnau ariannol; ac

IAS 19: Egluro'r defnydd o gyfraddau disgowntio rhanbarthol gwahanol yn y gronfa bensiwn.

IFRS 11 Trefniadau ar y Cyd – Diwygio'r gwaith o gyfrifyddu ar gyfer prynu buddiannau mewn gweithrediadau ar y cyd.

IAS 16 Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar ac IAS 38 Asedau Anghyffyrddadwy – Egluro dulliau derbyniol o ddibrisio ac amorteiddio.

IAS 1 Cyflwyno Datganiadau Ariannol – Menter ddatgelu o'r enw "Adrodd y Stori" i egluro'r stori y tu ôl i'r cyfrifon yn fwy clir.

4. DYFARNIADAU BEIRNIADOL O RAN CYMHWYSO POLISIÂU CYFRIFYDDU

Wrth gymhwyso'r polisiâu cyfrifyddu a nodir yn Nodyn 1, bu'n rhaid i'r Awdurdod wneud dyfarniadau penodol am drafodiadau cymhleth neu'r rheiny a oedd yn cynnwys ansicrwydd ynghylch digwyddiadau yn y dyfodol. Mae'r dyfarniadau beirniadol yn y datganiad o gyfrifon fel a ganlyn:

- Mae yna gryn ansicrwydd ynghylch lefel y cyllid yn y dyfodol ar gyfer llywodraeth leol. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi pennu nad yw'r ansicrwydd hwn yn ddigon eto i awgrymu bod asedau'r Awdurdod, o bosibl, yn ddiffygiol o ganlyniad i'r angen i leihau lefelau'r gwasanaethau a ddarperir.

5. TYBIAETHAU A WNAED YNGHYLCH Y DYFODOL A PHRIF FFYNONELLAU ERAILL O ANSICRWYDD O RAN AMCANGYFRIFON

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cynnwys ffigurau amcangyfrifedig sy'n seiliedig ar dybiaethau a wnaed gan yr Awdurdod ynghylch y dyfodol, neu sydd, fel arall, yn ansicr. Gwneir amcangyfrifon trwy ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu balansau yn gwbl sicr, gallai'r gwir ganlyniadau fod yn sylweddol wahanol i'r tybiaethau a'r amcangyfrifon.

Mae'r eitemau ym Mantolen yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2016, y mae iddynt risg sylweddol o gael eu haddasu'n sylweddol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod, fel a ganlyn:

Eitem	Ansicrwyddau	Yr Effaith os bydd y Gwir Ganlyniadau yn Wahanol i'r Tybiaethau
Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar	Caiff asedau eu dibrisio dros oesau defnyddiol sy'n ddibynol ar dybiaethau ynghylch lefel yr atgyweiriadau a'r gwaith cynnal a chadw a fydd yn codi mewn perthynas ag asedau unigol. Mae'r hinsawdd economaidd sydd ohoni yn golygu nad oes sicrwydd y bydd yr Awdurdod yn gallu cynnal ei wariant cyfredol ar atgyweiriadau a gwaith chynnal a chadw, gan fwrw amheuaeth ar yr oesau defnyddiol a bennir ar gyfer yr asedau.	Os bydd oes ddefnyddio ased yn lleihau, bydd dibrisiant yn cynyddu a bydd swm cario yr asedau yn disgyn. Amcangyfrifir y byddai cost dibrisiant blynyddol ar gyfer adeiladau yn cynyddu £80 mil bob blwyddyn y byddai'n rhaid gostwng oesau defnyddiol.
Rhwymedigaethau Pensiynau	Mae amcangyfrif o'r rhwymedigaeth net ar gyfer talu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n gysylltiedig â'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, newidiadau o ran oedran ymddeol, cyfraddau marwolaethau, ac, ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, y tâl disgwylidig ar asedau'r gronfa bensiwn. Cyflogir Actiwariaid Ymgynghorol i roi cyngor arbenigol i'r Awdurdod am y tybiaethau i'w rhoi ar waith.	Gellir mesur effeithiau newidiadau i dybiaethau unigol ar rwymedigaeth y pensiwn net. Er enghraifft, byddai cynnydd o 0.5% yn nhybiaeth y gyfradd ddisgowntio yn arwain at ostyngiad o £43.29 miliwn yn rhwymedigaeth y pensiwn net. Fodd bynnag, mae'r tybiaethau yn rhyngweithio mewn ffyrdd cymhleth. Yn ystod 2015-16, dywedodd actiwariaid yr Awdurdod fod rhwymedigaeth y pensiwn net wedi gostwng £13.02 miliwn yn dilyn cywiro amcangyfrifon o ganlyniad i brofiad, ac wedi gostwng £58.33 miliwn o ganlyniad i ddiweddarau'r tybiaethau.

6. DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Cymeradwywyd y Datganiad o Gyfrifon i'w gyhoeddi gan y Trysorydd ar 6 Mehefin 2018. Nid adlewyrchir digwyddiadau a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad hwn yn y datganiadau ariannol na'r nodiadau. Lle roedd digwyddiadau a ddigwyddodd cyn y dyddiad hwn yn darparu gwybodaeth am y sefyllfa ar 31 Mawrth 2016, mae'r ffigurau yn y datganiadau ariannol a'r nodiadau wedi cael eu haddasu ym mhob ffordd berthnasol i adlewyrchu effaith yr wybodaeth hon.

7. ADDASIADAU RHWNG Y SAIL GYFRIFYDDU A'R SAIL GYLLIDO O DAN REOLIADAU

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan yr Awdurdod yn y flwyddyn, yn unol ag arferion cyfrifyddu cywir i'r adnoddau a nodir gan ddarpariaeth statudol yn rhai sydd ar gael i'r Awdurdod i dalu gwariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol. Mae'r canlynol yn amlinellu disgrifiad o'r cronfeydd wrth gefn y gwneir yr addasiadau yn eu herbyn.

Balans y Gronfa Gyffredinol

Y Gronfa Gyffredinol yw'r gronfa statudol y mae'n ofynnol i holl dderbyniadau unrhyw Awdurdod gael eu talu iddi, ac allan o ba un y caiff holl rwymedigaethau yr Awdurdod eu bodloni, ac eithrio i'r graddau y gallai rheolau statudol yn darparu'n wahanol. Gall y rheolau hefyd nodi'r flwyddyn ariannol pan ddylai rhwymedigaethau a thaliadau effeithio ar Falans y Gronfa Gyffredinol, ac ni fydd hyn o reidrydd yn unol ag arferion cyfrifyddu cywir. Felly, mae Balans y Gronfa Gyffredinol yn crynhoi'r adnoddau y mae'r Awdurdod wedi ei rymuso'n statudol i'w gwario ar ei wasanaethau neu ar fuddsoddiad cyfalaf (neu ar y diffyg yn yr adnoddau y mae'n ofynnol i'r Awdurdod eu hadfer) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Cronfa Wrth Gefn y Derbyniadau Cyfalaf

Mae Cronfa Wrth Gefn y Derbyniadau Cyfalaf yn dal yr enillion o waredu tir neu asedau, sydd wedi'u hatal trwy statud rhag cael eu defnyddio heblaw am i ariannu gwariant cyfalaf newydd, neu i gael eu gosod o'r neilltu i ariannu gwariant cyfalaf hanesyddol. Mae balans y gronfa wrth gefn yn dangos yr adnoddau sydd eto i gael eu defnyddio i'r dibenion hyn ar ddiwedd y flwyddyn.

Grantiau Cyfalaf nas Defnyddiwyd

Mae Cronfa Wrth Gefn y Grantiau Cyfalaf nas Defnyddiwyd yn dal y grantiau a'r cyfraniadau a gafwyd ar gyfer prosiectau cyfalaf y mae'r Awdurdod wedi bodloni'r amodau a fyddai, fel arall, yn ei gwneud yn ofynnol i'r arian gael ei ad-dalu, ond nad ydynt eto wedi cael eu defnyddio i dalu am y gwariant. Cyfyngir ar y balans gan delerau'r grant o ran y gwariant cyfalaf y gellir ei ddefnyddio yn ei erbyn a/neu y flwyddyn y gall hyn ddigwydd.

Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail gyllido o dan reoliadau

2014-15 Wedi'i ailddatgan				2015-16		
Balans y Gronfa Gyffredinol a Chronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi £000	Cronfa Wrth Gefn y Derbyniadau Cyfalaf £000	Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn Annefnoddiadwy £000		Balans y Gronfa Gyffredinol a Chronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi £000	Cronfa Wrth Gefn y Derbyniadau Cyfalaf £000	Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn Annefnoddiadwy £000
			Addasiadau i'r Adnoddau Refeniw			
			Symiau sydd wedi'u cynnwys yng Nghyfanswm yr Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, ac y mae'n ofynnol o dan y rheoliadau eu heithrio, er mwyn canfod y sefyllfa ariannol:			
(3,422)	0	3,422	Costau dibrisiant	(3,407)	0	3,407
(792)	0	792	Diffygiant asedau anghyfredol	(21)	0	21
0	0	0	Colledion ac Enillion Ailbriso	(1,243)	0	1,243
(21)	0	21	Amorteiddio asedau anghyfyrdadwy	(21)	0	21
(40)	(531)	571	Gwaredu asedau anghyfredol	(12)	(11)	23
0	0	0	Defnyddio grantiau cyfalaf a chyfraniadau	160	0	(160)
0	0	0	Defnyddio derbyniadau cyfalaf	0	590	(590)
(3)	0	3	Amrywiol	(3)	0	3
			Symiau sydd wedi'u heithrio yng Nghyfanswm yr Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, ac y mae'n ofynnol o dan y rheoliadau eu cynnwys, er mwyn canfod y sefyllfa ariannol:			
2,284	0	(2,284)	Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf	2,097	0	(2,097)
(1,994)	(531)	2,525		(2,450)	579	1,871
			Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Gronfa Bensiwn:			
(31,132)	0	31,132	Gwrthdroi eitemau sy'n berthnasol i fuddion ymddeol	(27,238)	0	27,238
15,082	0	(15,082)	Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr, a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn	15,090	0	(15,090)
(16,050)	0	16,050		(12,148)	0	12,148
			Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Absenoldebau Cronnus:			
(4)	0	4	Buddion Cyflogeion – Croniad Gwyliau	(69)	0	69
(18,048)	(531)	18,579	CYFANSWM YR ADDASIADAU:	(14,667)	579	14,088

8. TROSLWYDDIADAU I'R CRONFEYDD WERTH GEFN DEFNYDDIADWY AC ODDI YNO

Mae'r nodyn hwn yn amlinellu'r symiau a neilltuwyd o'r Gronfa Gyffredinol mewn cronfeydd wrth gefn cyfalaf a chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, er mwyn sicrhau cyllid ar gyfer cynlluniau gwariant yn y dyfodol, ynghyd â'r symiau a bostiwyd yn ôl o'r cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi i dalu gwariant y Gronfa Gyffredinol yn 2015-16.

Wedi'i ailddatgan Balans ar 1 Ebrill 2014 £000	Trosglwyddiadau allan 2014-15 £000	Trosglwyddiadau i mewn 2014-15 £000	Wedi'i ailddatgan Balans ar 31 Mawrth 2015 £000		Trosglwyddiadau Allan 2015-16 £000	Trosglwyddiadau i mewn 2015-16 £000	Balans ar 31 Mawrth 2016 £000
(260)	260	(335)	(335)	Adnewyddu Cerbydau, Peiriannau a Chyfarpar	55	(72)	(352)
(1,103)	0	(502)	(1,605)	Cronfa Buddsoddi i Gynilo	357	0	(1,248)
(41)	1	(1)	(41)	Prosiectau Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd	0	(1)	(42)
(1,371)	557	(336)	(1,150)	Cronfa Wrth Gefn Rheoli Risgiau	336	(36)	(850)
(50)	0	(153)	(203)	Prosiectau Ymgynghori a Newid Prosesau	0	0	(203)
(110)	0	(20)	(130)	Hyfforddiant Gweithredol	0	0	(130)
(1,021)	383	(360)	(998)	Diweddarau a Datblygu Meddalwedd a Chyfathrebu	272	(938)	(1,664)
(1,426)	253	(500)	(1,673)	Rheoli Newid – Cyflogeion a Phensiynau	412	(700)	(1,961)
(828)	1	(17)	(844)	Rheoli Newid – Adeiladau ac Addasiadau	425	(81)	(500)
(302)	48	(69)	(323)	Cronfa Wrth Gefn Prif Ddigwyddiadau/Diogelu'r Gyllideb	0	(77)	(400)
(56)	0	(136)	(192)	Codi Arian ac Incwm Amrywiol wedi'i Glustnodi	11	(407)	(588)
(1,000)	865	(865)	(1,000)	Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Cydraddoli Ardollau	170	0	(830)
(7,568)	2,368	(3,294)	(8,494)	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi	2,038	(2,312)	(8,768)
(48)	0	(531)	(579)	Cronfa Wrth Gefn y Derbyniadau Cyfalaf	590	(11)	0
(7,616)	2,368	(3,825)	(9,073)	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy	2,628	(2,323)	(8,768)

9. GWARIANT GWEITHREDU ARALL

2014-15 Wedi'i ailddatgan £000		2015-16 £000
40	(Elw)/Colled ar werthu asedau anghyfredol	12
0	Diffyg ar ailbriso asedau anghyfredol	0
40		12

10. INCWM A GWARIANT CYLLIDO A BUDDSODDI

2014-15 £000		2015-16 £000
288	Llog a dalwyd ar Lesoedd Cyllid	297
496	Llog a dalwyd ar Fenthyciadau	653
17,827	Cost Llog Net Pensiynau	14,878
(5)	Llog a gafwyd o fuddsoddiadau	(27)
18,606		15,801

11. TRETHIANT AC INCWM A GWARIANT GRANT AMHENODOL

2014-15 £000		2015-16 £000
0	Cyfraniadau a Rhoddion Cyfalaf a ddaeth i law	(160)
(42,917)	Ardollau gan Awdurdodau Cyfansoddol	(43,769)
(42,917)		(43,929)

12. EIDDO, PEIRIANNAU A CHYFARPAR

Symudiadau ar falansau

<u>Asedau Anghyfredol 2015-16</u>	Tir ac Adeiladau	Seilwaith	Cerbydau a Chyfarpar	Offer Diogelu Personol CYFANSWM	Asedau sy'n Cael eu Hadeiladu
	£000	£000	£000	£000	£000
<u>Gwerth Gros ar Bapur</u>					
Ar 1 Ebrill 2015	60,294	317	29,033	89,644	130
Ychwanegiadau	486	0	1,971	2,457	992
Cynnydd/(Gostyngiad) o ganlyniad i Ailbrisió	(10,002)	0	0	(10,002)	0
Diffygiant	(21)	0	0	(21)	0
Datgydnabod – gwaredu	0	0	(3,212)	(3,212)	0
Ar 31 Mawrth 2016	50,757	317	27,792	78,866	1,122
<u>Dibrisiant Cronedig</u>					
Ar 1 Ebrill 2015	(4,272)	(76)	(20,739)	(25,087)	0
Dibrisiant ar gyfer y flwyddyn	(1,167)	(8)	(2,232)	(3,407)	0
Dilead o ran dibrisiant mewn perthynas ag Ailbrisiad	4,270	0	0	4,270	0
Dilead o ran dibrisiant mewn perthynas â Gwaredu	0	0	3,189	3,189	0
Ar 31 Mawrth 2016	(1,169)	(84)	(19,782)	(21,035)	0
<u>Gwerthoedd Net ar Bapur</u>					
Ar 1 Ebrill 2015 wedi'i ailddatgan	56,022	241	8,294	64,557	130
Ar 31 Mawrth 2016	49,588	233	8,010	57,831	1,122

<u>Asedau Anghyfredol 2014-15 wedi'u hailddatgan</u>	Tir ac Adeiladau	Seilwaith	Cerbydau a Chyfarpar	Offer Diogelu Personol CYFANSWM	Asedau sy'n Cael eu Hadeiladu	Asedau a Ddelir i'w Gwerthu
	£000	£000	£000	£000	£000	£000
<u>Gwerth Gros ar Bapur</u>						
Ar 1 Ebrill 2014	60,618	317	27,583	88,518	0	425
Ychwanegiadau	832	0	2,183	3,015	130	0
Diffygiant	(358)	0	0	(358)	0	0
Diffygiant – gwariant nad yw'n ychwanegu gwerth	(73)	0	0	(73)	0	0
	(579)	0	0	(579)	0	0
Datgydnabod – dymchwel						
Datgydnabod – gwaredu	(146)	0	(733)	(879)	0	(425)
Ar 31 Mawrth 2015	60,294	317	29,033	89,644	130	0
<u>Dibrisiant Cronedig</u>						
Ar 1 Ebrill 2014	(3,240)	(68)	(19,203)	(22,511)	0	0
Dibrisiant ar gyfer y flwyddyn	(1,145)	(8)	(2,269)	(3,422)	0	0
Dilead o ran dibrisiant mewn perthynas â Diffygiant	64	0	0	64	0	0
Dilead o ran dibrisiant mewn perthynas â Dymchwel	49	0	0	49	0	0
Dilead o ran dibrisiant mewn perthynas â Gwaredu	0	0	733	733	0	0
Ar 31 Mawrth 2015	(4,272)	(76)	(20,739)	(25,087)	0	0
<u>Gwerthoedd Net ar Bapur</u>						
Ar 1 Ebrill 2014	57,378	249	8,380	66,007	0	425
Ar 31 Mawrth 2015	56,022	241	8,294	64,557	130	0

Mae gwaredu Tir ac Adeiladau yn ymwneud â gwerthu adeilad yn Llandrindod, ac mae'r Ased a Ddelir i'w Werthu yn ymwneud ag adeilad yn Nhreforys.

Dibrisiant

Defnyddiwyd yr oesau a'r cyfraddau dibrisiant defnyddiol canlynol wrth gyfrifo dibrisiant:

- Tir ac Adeiladau – 10-80 mlynedd
- Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn a Chyfarpar – 3-15 mlynedd
- Seilwaith – 5-40 blynedd
- Asedau anghyfyrdadwy – 3-15 mlynedd

Rhwymedigaethau Cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2016, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i nifer o gontractau ar gyfer adeiladu neu wella Eiddo yn 2016-17 a blynyddoedd i ddod, a gyllidebwyd i gostio £745 mil. Roedd ymrwymadau tebyg ar 31 Mawrth 2015 yn £1,795 mil. Y prif ymrwymadau yw:

- Gorsaf Dân Aberystwyth – £745 mil

Ailbriso

Mae'r Awdurdod yn ailbriso ei Dir ac Adeiladau o leiaf unwaith bob pum mlynedd, a chynhaliwyd y prisiad diwethaf ar 1 Ebrill 2015.

Cynhaliwyd yr ailbrisiad gan aelod o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, a gyflogwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Cynhaliwyd yr ailbrisiad yn unol â'r methodolegau a'r seiliau ar gyfer amcangyfrif a nodir yn safonau proffesiynol Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig.

Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar Anweithredol (Asedau Dros Ben)

Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw asedau dros ben.

Diffygiant ac Asedau sy'n Cael eu Hadeilau

Yn ystod 2014-15, dymchwelwyd Gorsaf Dân Aberystwyth, a chychwynwyd ar y gwaith o godi Gorsaf Dân Newydd ar yr un safle. Codwyd tâl am ddiffygiant ar y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr er mwyn lleihau gwerth cario'r ased i brisiad y tir. Cadwyd gwerth y tir yn y cofnod Tir ac Adeiladau o dan Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar.

Cofnodir y gwaith o adeiladu'r orsaf dân newydd fel Ased sy'n Cael ei Adeiladu.

13. ASEDAU ANGHYFFYRDDADWY

Mae'r Awdurdod yn gwneud cyfrif am ei feddalwedd fel asedau anghyffyrddadwy, i'r graddau nad yw'r feddalwedd yn rhan annatod o system TG penodol, ac y gwneir cyfrif amdani yn rhan o'r eitem galedwedd yn Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar. Mae'r ased anghyffyrddadwy yn cynnwys trwyddedau a brynwyd, ynghyd â chostau gosod ac ymgynghori y cyflenwyr.

Pennir oes ddefnyddiol gyfyngedig ar gyfer pob meddalwedd, a hynny'n seiliedig ar asesiadau o'r cyfnod y disgwylir i'r feddalwedd fod o ddefnydd i'r Awdurdod. Pennir oes ddefnyddiol o 10 mlynedd ar gyfer y prif gyfresi meddalwedd a ddefnyddir gan yr Awdurdod.

Caiff swm cario asedau anghyffyrddadwy ei amorteiddio ar sail llinell syth. Caiff yr amorteiddiad o £21 mil ei amsugno fel gorbenion ar draws holl benawdau'r gwasanaeth yng Nghost Gwasanaethau. Y swm i'w phriodoli ar gyfer pob un o benawdau'r gwasanaeth yw:

- Gweithgareddau Diffodd Tanau ac Achub – £18.5 mil
- Diogelwch Cymunedol – £1.5 mil
- Cynllunio Brys y Gwasanaeth Tân – £0.5m mil
- Craidd democrataidd a chorfforaethol – £0.5 mil

Mae'r symudiad ar falans yr asedau anghyffyrddadwy yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

2014-15 £000	Trwyddedau Meddalwedd a Brynwyd	2015-16 £000
	Gwerth Gros ar Bapur	
222	Balans agoriadol ar 1 Ebrill	270
48	Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn	34
270	Balans terfynol ar 31 Mawrth	304
	Amorteiddiad Cronedig	
(56)	Ar 1 Ebrill	(77)
(21)	Amorteiddio yn ystod y flwyddyn	(21)
(77)	Balans terfynol ar 31 Mawrth	(98)
	Gwerth Net ar Bapur	
166	Balans agoriadol ar 1 Ebrill	193
193	Balans terfynol ar 31 Mawrth	206

14. OFFERYNNAU ARIANNOL

Caiff y categorïau canlynol o offerynnau ariannol eu cario yn y Fantolen:

	Hirdymor		Cyfredol	
	31 Mawrth 2015 Wedi'i ailddatgan £000	31 Mawrth 2016 £000	31 Mawrth 2015 Wedi'i ailddatgan £000	31 Mawrth 2016 £000
Cyfanswm y buddsoddiadau	0	0	0	0
Cyfanswm y dyledwyr	148	298	12,525	7,469
Benthyciadau:				
Rhwymedigaethau ariannol (prif swm)	(15,246)	(16,770)	(280)	(4,280)
Llog Cronedig	0	0	(28)	(69)
Cyfanswm benthyciadau	(15,246)	(16,770)	(308)	(4,349)
Rhwymedigaethau lesioedd cyllid	(5,430)	(5,787)	(872)	(998)
Credydwyr:				
Rhwymedigaethau ariannol wedi'u cario ar swm y contract	0	0	(6,383)	(5,078)

Enillion a Cholledion offerynnau ariannol

	2014-15		2015-16	
	Rhwym'aethau ariannol wedi'u mesur ar gost amorteiddiedig	Asedau Ariannol – Benthyciadau a symiau derbyniadwy	Rhwym'aethau ariannol wedi'u mesur ar gost amorteiddiedig	Asedau Ariannol – Benthyciadau a symiau derbyniadwy
	£000	£000	£000	£000
Cost y llog	784	0	950	0
Cyfanswm y traul yn y Gwarged neu'r Diffyg o Ddarparu Gwasanaethau	784	0	950	0
Incwm llog	0	(5)	0	(27)
Cyfanswm yr incwm yn y Gwarged neu'r Diffyg o Ddarparu Gwasanaethau	0	(5)	0	(27)
Cynnydd/(colled) net ar gyfer y flwyddyn	784	(5)	950	(27)

Gwerth Teg yr Asedau a'r Rhwymedigaethau

Caiff rhwymedigaethau ariannol ac asedau ariannol a gynrychiolir gan fenthyciadau a symiau derbyniadwy eu cario ar y Fantolen ar gost amorteiddiedig (mewn asedau/rhwymedigaethau hirdymor gyda llog cronedig mewn asedau/rhwymedigaethau cyfredol). Gellir asesu'r gwerth teg trwy gyfrifo gwerth presennol y llifoedd arian parod sy'n digwydd dros weddill oes yr offerynnau, gan ddefnyddio'r tybiaethau canlynol:

- Ar gyfer benthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) a benthyciadau eraill sy'n daladwy, defnyddiwyd benthyciadau gan y PWLB er mwyn darparu'r gwerth teg o dan weithdrefnau adfer dyledion y PWLB;
- Ni chydabyddir unrhyw ad-daliad cynnar na diffygiant;
- Pan fo offeryn yn aeddfedu ymhen llai na 12 mis, neu pan fo'n swm sy'n dderbyniadwy trwy fasnach neu fel arall, ystyrir mai'r gwerth teg yw'r swm cario neu'r swm y codir tâl amdano;
- Ystyrir mai gwerth teg swm sy'n dderbyniadwy trwy fasnach neu fel arall yw'r swm sydd ar yr anfoneb neu y codir tâl amdano.

Mae'r gwerthoedd teg a gyfrifwyd fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2015		31 Mawrth 2016	
£000	Swm cario	Gwerth teg	Swm cario	Gwerth teg
Dyled i'r PWLB	15,526	19,748	20,746	25,371
Dyled nad yw i'r PWLB	0	0	304	amh.
Cyfanswm y ddyled	15,526	19,748	21,050	25,371

Mae'r gwerth teg yn fwy na'r swm cario oherwydd codir premiwm ad-daliad cynnar os ad-delir y ddyled i'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus yn gynnar; mae'r gwerth teg yn ystyried y premiwm ar gyfer ad-daliad cynnar. Mae benthyciadau ar lefel 2 yn yr Hierarchaeth Gwerth Teg, hynny yw, cânt eu prasio ar brisiau sy'n weladwy, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

15. RHESTRI EIDDO

	Cyffredinol, Cyfarpar Diogelu Personol, a Gwisgoedd		Darnau ar gyfer Cynnal a Chadw cerbydau		Petrol a Diesel		Arall		Cyfanswm	
	2014-15 £000	2015-16 £000	2014-15 £000	2015-16 £000	2014-15 £000	2015-16 £000	2014-15 £000	2015-16 £000	2014-15 £000	2015-16 £000
Wedi'i ailddatgan 2014-15										
Balans sy'n disgwyl sylw ar ddechrau'r flwyddyn	341	343	4	4	33	28	21	25	399	400
Pryniadau	305	472	0	0	180	47	15	4	500	523
Wedi'i gydnabod yn draul yn ystod y flwyddyn	(281)	(364)	0	0	(185)	(45)	(7)	(20)	(473)	(429)
Trosglwyddo Stoc rhwng storfeydd	4	0	0	0	0	0	(4)	0	0	0
Addasu'r Stoc	(26)	26	0	0	0	0	0	0	(26)	26
Balans sy'n disgwyl sylw ar ddiwedd y flwyddyn	343	477	4	4	28	30	25	9	400	520

16. DYLEDWYR

Wedi'i ailddatgan Ar 31 Mawrth 2015 £000	Dyledwyr Byrdymor	Ar 31 Mawrth 2016 £000
8,885	Cyrff y Llywodraeth Ganolog	6,928
424	Awdurdodau Lleol Eraill	174
108	Cyrff y GIG	21
2,904	Endidau ac Unigolion Eraill	105
214	Taliadau Ymlaen Llaw	36
(10)	Darpariaeth ar gyfer drwgddyledion	(88)
12,525	Cyfanswm	7,176

Ar 31 Mawrth 2015 £000	Dyledwyr Hirdymor	Ar 31 Mawrth 2016 £000
98	Awdurdodau Lleol Eraill	98
50	Endidau ac Unigolion Eraill	200
148	Cyfanswm	298

17. ARIAN PAROD A'R HYN SY'N CYFATEB I ARIAN PAROD

Mae balans yr arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys yr elfennau canlynol:

Ar 31 Mawrth 2015 £000		Ar 31 Mawrth 2016 £000
3	Arian parod a ddelir gan yr Awdurdod	2
1,823	Cyfrif Cyfredol a Chyfrif Cadw y Banc	10,340
1,826	Cyfanswm	10,342

18. CREDYDWYR

Wedi'i ailddatgan Ar 31 Mawrth 2015 £000		Ar 31 Mawrth 2016 £000
(779)	Cyrff y Llywodraeth Ganolog	(1,399)
(258)	Awdurdodau Lleol Eraill	(750)
(4,818)	Endidau ac Unigolion Eraill	(2,636)
(528)	Derbyniadau Ymlaen Llaw	0
(6,383)	Cyfanswm	(4,785)

19. CRONFEYDD WRTH GEFN DEFNYDDIADWY

Derbyniadau Cyfalaf

Derbyniadau cyfalaf yw'r rhain sydd ar gael i gyllido gwariant cyfalaf; ar 31 Mawrth 2016, roedd yr holl dderbyniadau cyfalaf wedi cael eu rhoi ar waith.

Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi

Mae'r Awdurdod yn dal y cronfeydd wrth gefn canlynol sydd wedi'u clustnodi, sef cyfanswm o £8.768 miliwn (gweler nodyn 8 ar gyfer symudiadau):

- Cronfa wrth gefn ar gyfer Cerbydau, Peiriannau a Chyfarpar, a sefydlwyd o ganlyniad i adolygiad o'r Gwasanaeth er mwyn cynorthwyo i foderneiddio'r fflyd, gan anelu at gynyddu effeithlonrwydd a lleihau costau refeniw yn y dyfodol.
- Cronfa Buddsoddi i Gynilo a sefydlwyd i ddarparu cronfa o gyllid y gall adrannau fenthyca ohoni er mwyn rhoi cychwyn i gynllun buddsoddi i gynilo. Rhaid i adrannau ad-dalu'r symiau a fenthycwyd o gynilon yn y dyfodol, er mwyn cynnal y gronfa o gyllid sydd ar gael.
- Cronfa wrth gefn ar gyfer Prosiectau Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd. Mae'r Awdurdod wedi ymrwmo i sefydlu cysyniadau cynaliadwyedd yn y modd y mae'r Gwasanaeth yn datblygu. Bwriad y gronfa fechan hon yw helpu i wella cynaliadwyedd ledled y Gwasanaeth.
- Mae'r Gronfa Rheoli Risgiau yn darparu cronfa o gyllid i fodloni newidiadau posibl yn y ffordd yr yswirir yn erbyn risgiau, ac i gyllido prosiectau a fydd yn lleihau costau yswirio'r Gwasanaeth.
- Mae'r gronfa ar gyfer Prosiectau Ymgynghori a Newid Prosesau ar gael i alluogi'r Gwasanaeth i gael cyngor gan Ymgynghorwyr ar reoliadau ac amodau economaidd cynyddol gymhleth, yn enwedig mewn perthynas â chaffael, trethi, a rheoli'r trysorlys.
- Cronfa wrth gefn ar gyfer Hyfforddiant Gweithredol, a sefydlwyd i roi sicrwydd bod yna gyllid digonol i sicrhau bod y Diffoddwyr Tân gweithredol yn cael eu hyfforddi i'r safonau uchaf.
- Cronfa wrth gefn ar gyfer Moderneiddio a Datblygu Meddalwedd a Chyfathrebu, a sefydlwyd wedi i Adolygiad llawn o'r Gwasanaeth nodi y gellid gwella effeithlonrwydd trwy ddatblygu a moderneiddio peth o feddalwedd y Gwasanaeth, yn enwedig ar gyfer cyfathrebu mewnol, rheoli asedau a chymorth canolog. Bydd y gronfa hon yn cael ei defnyddio hefyd i ddatblygu system gyfathrebu symudol newydd. Mae'r gronfa wrth gefn hon wedi cael ei chyfuno â'r gronfa wrth gefn Airwave. Prosiect cyfathrebu yw Airwave, a ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru. Rhyddheir cyllid y Llywodraeth ar gyfradd flynyddol gyson, pan fo elfennau'r costau a ariennir yn amrywio. Defnyddir y gronfa wrth gefn i leihau effaith y costau amrywiadwy.
- Sefydlwyd y ddwy gronfa wrth gefn ar gyfer Rheoli Newid, un ar gyfer cyflogaion a phensiynau, a'r llall ar gyfer adeiladau ac addasiadau, a hynny er mwyn helpu i ariannu addasiadau i adeiladau i ddiwallu anghenion cyfredol a bodloni newidiadau i reoliadau cyflogaeth, yn enwedig mewn perthynas â gweithwyr rhan-amser a chyflogau cyfartal.
- Mae'r gronfa wrth gefn ar gyfer Digwyddiadau Mawr yn gronfa o gyllid i helpu i dalu'r costau o ddelio ag unrhyw ddigwyddiadau mawr, lle na ellir delio â'r costau trwy'r gyllideb Diffodd Tanau a Gweithrediadau Achub arferol.
- Mae'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Incwm Amrywiol wedi'i Glustnodi yn dal gwargedion a gynhyrchir gan wahanol gynlluniau, er enghraifft y Cynllun Aberthu Cyflog i Lesio Car a digwyddiadau codi arian a/neu roddion i ddibenion penodol, e.e. arian a roddwyd yn lleol i gefnogi'r cynlluniau Cyd-ymatebydd. Delir y balansau yn benodol ar gyfer gwariant yn y dyfodol ar y cynlluniau hynny.

- Gellir defnyddio'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Cydraddoli Ardollau i leihau'r newidiadau yn yr ardollau a godir bob blwyddyn ar bob un o'r Awdurdodau Unedol cyfansoddol.

20. CRONFEYDD WRTH GEFN ANNEFYDDIADWY

Wedi'i ailddatgan 31 Mawrth 2014 £000	Wedi'i ailddatgan 31 Mawrth 2015 £000		31 Mawrth 2016 £000
(21,497)	(20,960)	Y Gronfa Ailbrisió Wrth Gefn	(16,078)
(24,179)	(22,086)	Cyfrif Addasu'r Cyfalaf	(20,608)
406,339	452,557	Cronfa Bensiwn Wrth Gefn	391,976
575	579	Cyfrif Absenoldebau a Gronnwyd	648
361,238	410,090	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Annefyddiadwy	355,938

Y Gronfa Ailbrisió Wrth Gefn

Mae'r Gronfa Ailbrisió Wrth Gefn yn cynnwys yr enillion a wneir gan yr Awdurdod o ganlyniad i gynydd yng ngwerth ei Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar. Bydd y balans yn gostwng pan fydd asedau sydd ag enillion cronedig:

- yn cael eu hailbrisió ar i lawr neu yn lleihau o ran gwerth, a'r enillion yn cael eu colli
- yn cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, a'r enillion yn cael eu treulio trwy ddibrisiant, neu
- yn cael eu gwaredu, a'r enillion yn cael eu gwireddu.

Nid yw'r Gronfa Wrth Gefn yn cynnwys dim ond yr enillion o ganlyniad i ailbrisió sydd wedi cronni er 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad y crëwyd y Gronfa Wrth Gefn. Caiff enillion cronedig a gododd cyn y dyddiad hwnnw eu cyfuno yn y balans ar Gyfrif Addasu'r Cyfalaf.

Wedi'i ailddatgan 2014/15 £000		2015-16 £000
(21,497)	Balans ar 1 Ebrill	(20,960)
0	Ailbrisió ar i fyny ar gyfer asedau	(4,751)
105	Ni chodir tâl am ailbrisió ar i lawr ar gyfer asedau na cholledion oherwydd diffygiant ar y Gwaged na'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	9,240
105	Ni chaiff gwaged na diffyg sy'n codi trwy ailbrisió asedau anghyfredol eu postio i'r Gwaged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	4,489
416	Y gwahaniaeth rhwng dibrisiant gwerth teg a dibrisiant cost hanesyddol	393
16	Enillion cronedig ar asedau a werthwyd neu a waredwyd	0

432	Y swm a ddilëir i Gyfrif Addasu'r Cyfalaf	393
(20,960)	Balans ar 31 Mawrth	(16,078)

Cyfrif Addasu'r Cyfalaf

Mae Cyfrif Addasu'r Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau o ran amseriad sy'n codi o ganlyniad i drefniadau cyfrifyddu gwahanol ar gyfer defnyddio asedau anghyfredol, ac ar gyfer cyllido'r gwaith o gaffael neu adeiladu'r asedau hynny, neu ychwanegu atynt, o dan ddarpariaethau statudol. Caiff y Cyfrif ei ddebydu o'r gost caffael neu adeiladu gan y codir tâl am ddibrisiant, colledion oherwydd diffygiant ac amorteiddiadau ar y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gyda phostiadau adfer o'r Gronfa Ailbriso Wrth Gefn er mwyn trosi ffigurau gwerth teg yn sail costau hanesyddol). Caiff y cyfrif ei gredydu â'r symiau a neilltuwyd gan yr Awdurdod i fod yn gyllid ar gyfer y costau caffael ac adeiladu a chostau dilynol.

Mae'r Cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronedig ar Eiddo Buddsoddi ac enillion, a gydnabyddir ar asedau rhoddedig sydd eto i'w defnyddio gan yr Awdurdod.

Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys enillion ailbriso a gronwyd ar Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar cyn 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad y crëwyd y Gronfa Ailbriso Wrth Gefn i ddal enillion o'r fath.

Wedi'i ailddatgan 2014-15 £000	Cyfrif Addasu'r Cyfalaf	2015-16 £000
(24,179)	Balans ar 1 Ebrill	(22,086)
	<i>Gwrthdroi eitemau sy'n berthnasol i wariant cyfalaf a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:</i>	
4,214	Taliadau ar gyfer dibrisiant, a diffygiant ar asedau anghyfredol	3,428
0	Colledion ailbriso ar Eiddo, Peiriannau ac Offer	1,243
21	Amorteiddio asedau anghyfyrdadwy	21
571	Symiau'r asedau anghyfredol a ddilëir wrth waredu neu werthu yn rhan o'r enillion/colledion o'u gwaredu i'r Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	23
3	Amrywiol	3
4,809		4,718
(432)	Symiau a addaswyd ac a ysgrifennwyd allan o'r Gronfa Ailbriso Wrth Gefn	(393)
4,377	Swm net a ddilëir o ran cost asedau anghyfredol a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	4,325
	<i>Cyllid cyfalaf a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn:</i>	
0	Y defnydd o Gronfa Wrth Gefn y Derbyniadau Cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf newydd	(590)

0	Grantiau a chyfraniadau cyfalaf a gredydwyd i'r Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ac a ddefnyddiwyd i gyllido cyfalaf	(160)
(2,284)	Darpariaeth statudol i ariannu'r broses o ad-dalu benthyciadau	(2,097)
(2,284)		(2,847)
(22,086)	Balans ar 31 Mawrth	(20,608)

Cronfa Bensiwn Wrth Gefn

Mae'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn yn amsugno'r gwahaniaethau o ran amseriad sy'n codi o ganlyniad i drefniadau cyfrifyddu gwahanol ar gyfer buddion ôl-gyflogaeth ac ar gyfer cyllido buddion yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Awdurdod yn gwneud cyfrif am fuddion ôl-gyflogaeth yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, gan fod y buddion yn cael eu hennill trwy i'r cyflogeion gronni blynyddoedd o wasanaeth, gan ddiweddarau'r rhwymedigaethau a gydnabyddir sy'n adlewyrchu chwyddiant, tybiaethau sy'n newid, ac enillion ar fuddsoddiadau ar unrhyw adnoddau a neilltuwyd i dalu'r costau. Fodd bynnag, mae'r trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw fuddion a enillir gael eu hariannu, gan fod yr Awdurdod yn cyfrannu i'r cronfeydd pensiwn ar ran y cyflogeion neu, yn y pen draw, yn talu pensiynau y mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Felly, mae balans y ddyled ar y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn yn dangos diffyg yn y buddion a enillwyd gan gyn-gyflogeion a chyflogeion presennol a'r adnoddau a neilltuwyd gan yr Awdurdod i'w talu. Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau y bydd cyllid wedi cael ei neilltuo pan ddaw'n amser talu'r buddion.

2014-15		2015-16
£000		£000
406,339	Balans ar 1 Ebrill	452,557
30,168	Ailfesur rhwymedigaeth/(ased) y buddion diffiniedig net	(72,789)
31,132	Gwrthdroi eitemau sy'n berthnasol i fuddion pensiwn a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r gwarged neu'r diffyg ar ddarparu gwasanaethau yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	27,238
0	Trosglwyddiadau i Gronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân	60
(15,082)	Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn	(15,090)
452,557	Balans ar 31 Mawrth	391,976

Cyfrif Absenoldebau a Gronnwyd

Mae Cyfrif yr Absenoldebau a Gronnwyd yn amsugno'r gwahaniaethau a fyddai, fel arall, yn codi ar Falans y Gronfa Gyffredinol o ganlyniad i gronni ar gyfer absenoldebau digolledol a enillwyd ond nas cymerwyd yn y flwyddyn, e.e. yr hawl i wyliau blynyddol wedi'i gario ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar falans y Gronfa Gyffredinol gael ei gwrthbwysu gan drosglwyddiadau i'r Cyfrif ac allan ohono.

2014-15 £000		2015-16 £000
575	Balans ar 1 Ebrill	579
(575)	Setlo neu ganslo cronïad a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol	(579)
579	Y symiau a gronnwyd ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol	648
4	Y gwahaniaeth rhwng y gydnabyddiaeth ariannol i swyddogion, y codir tâl amdani ar y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail cronïadau, a'r gydnabyddiaeth y codir tâl amdani yn y flwyddyn, yn unol â gofynion statudol	69
579	Balans ar 31 Mawrth	648

21. DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU GWEITHREDU

Mae'r llifoedd arian ar gyfer gweithgareddau gweithredu yn cynnwys yr eitemau canlynol:

Wedi'i ailddatgan* 2014-15 £000		2015-16 £000
(5)	Llog a Gafwyd	(27)
497	Llog a Dalwyd – benthyciadau	612
288	Llog a Dalwyd – lesioedd cyllid	297

* Wedi'i addasu i beidio â chynnwys cronïadau

Mae'r gwarged neu'r diffyg ar ddarparu gwasanaethau wedi cael ei addasu ar gyfer y symudiadau anariannol canlynol:

Wedi'i ailddatgan 2014-15 £000		2015-16 £000
(3,422)	Dibrisiant	(3,407)
(792)	Diffygiant	(21)
0	Colledion/Enillion Ailbrisio	(1,243)
(21)	Amorteiddiad	(21)
(1,158)	Cynnydd/(gostyngiad) o ran credydwyr	1,598
5,404	Cynnydd/(gostyngiad) o ran dyledwyr	(5,199)
1	Cynnydd/(gostyngiad) o ran rhestri eiddo	120
(16,050)	Symudiad yn y rhwymedigaeth pensiynau	(12,148)
0	Eitemau eraill y codir tâl amdanynt ar y Gwarged neu'r Diffyg Net ar ddarparu gwasanaethau	(41)
(16,038)	Addasiadau i'r gwarged neu'r diffyg net ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer symudiadau anariannol	(20,362)

Mae'r gwarged neu'r diffyg net ar ddarparu gwasanaethau wedi cael ei addasu ar gyfer yr eitemau canlynol, sy'n weithgareddau buddsoddi a chyllido:

Wedi'i ailddatgan 2014-15 £000		2015-16 £000
(40)	Enillion/Colledion wrth werthu Offer Diogelu Personol	(12)
(40)	Addasiadau ar gyfer eitemau a gynhwysir yn y gwarged neu'r diffyg net ar ddarparu gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi neu ariannu	(12)

22. DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI

Wedi'i ailddatgan 2014-15 £000		2015-16 £000
3,193	Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anghyfyrrdadwy	3,483

(531)	Enillion o ganlyniad i werthu eiddo, peiriannau a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anghyffyrddadwy	(11)
2,662	Llif arian net o weithgareddau buddsoddi	3,472

23. DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU ARIANNU

2014-15 £000		2015-16 £000
(3,500)	Derbyniadau arian parod o ganlyniad i fenthyciadau byrdymor a hirdymor	(5,804)
(1,379)	Derbyniadau eraill o weithgareddau ariannu	(1,427)
989	Taliadau arian parod ar gyfer lleihau'r rhwymedigaethau sy'n disgwyl sylw mewn perthynas â lesioedd cyllid	944
286	Ad-dalu benthyciadau byrdymor a hirdymor	280
(3,604)	Llif arian net o weithgareddau ariannu	(6,007)

24. SYMIAU A GOFNODWYD AR GYFER PENDERFYNIADAU YNGHYLCH DYRANNU ADNODDAU

Y dadansoddiad o incwm a gwariant yn ôl gwasanaeth ar wyneb y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r hyn a nodir gan y *Cod Ymarfer ar gyfer Adrodd ar Wasanaethau*. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Tân yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyrannu adnoddau ar sail adroddiadau cyllideb. Paratoir yr adroddiadau hyn ar sail wahanol i'r polisïau cyfrifyddu a ddefnyddir yn y datganiadau ariannol. Yn benodol:

- ni chodir tâl mewn perthynas â gwariant cyfalaf, ond codir tâl ar y gwasanaethau am ddibrisiant, ailbrisiad a cholledion oherwydd diffygiant sy'n fwy na'r balans ar y Gronfa Ailbrisiad Wrth Gefn, ynghyd ag amorteiddiadau, a hynny yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- mae cost buddion ymddeol yn seiliedig ar lifoedd arian (taliadau cyfraniadau pensiwn y cyflogwr) yn hytrach na chost gwasanaeth cyfredol buddion a gronwyd yn ystod y flwyddyn.
- mae adroddiadau cyllideb yr Awdurdod Tân yn seiliedig ar ddadansoddiad goddrychol o'r gwariant a'r incwm, e.e. costau Cyflogeion, Adeiladau, Cludiant, ac ati, yn hytrach nag ar y sail wrthrychol yr adroddir arni yn y cyfrifon, e.e. Diogelwch Cymunedol, Gweithrediadau Diffodd Tân ac Achub, Cynllunio Brys y Gwasanaeth Tân.
- yn 2014-15, yr adroddiad cyllideb a ddefnyddiwyd oedd yr adroddiad cyllideb olaf i gael ei lunio cyn gwneud yr addasiadau cyfrifyddu terfynol a chyflawni'r trafodiadau dyrannu grantiau terfynol, ar ddiwedd y flwyddyn. Y ffigurau diwygiedig ar gyfer 2014-15 a'r ffigurau ar gyfer 2015-16 yw'r ffigurau terfynol ar ôl yr addasiadau cyfrifyddu ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn yr adroddiadau cyllid ar gyfer y flwyddyn fel a ganlyn:

2014-15	GWARIANT REFENIW NET	2015-16
Wedi'i ailddatgan £000		£000
	Gweithredol	
19,111	Cyflogeion – Llawn-amser	19,029
6,448	Cyflogeion – Wrth gefn	6,475
437	Cyflogeion – Costau eraill	824
1,733	Adeiladau	1,898
1,827	Cludiant	2,445
647	Yswiriant	647
4,529	Cyflenwadau a Gwasanaethau	5,871
34,732	Costau Gweithredol Gros	37,189
(2,889)	Cyfraniad i'r costau gweithredol	(250)
(449)	Incwm arall	(1,166)
	Llog a Gafwyd	(27)
	Grantiau	(2,668)
(3,338)	Incwm	(4,111)
31,394	Costau Gweithredol Net	33,078
1,397	Yr Ystafell Reoli	1,421
4,513	Gweinyddu a Gwasanaethau Technegol	4,657
249	Rheoli â llaw	253
44	Aelodau	61
155	Cymorth Canolog	159
107	Pensiwn	819
6,465	Cyfanswm y Costau Anweithredol	7,370
4,132	Ariannu Cyfalaf a lesio	3,047
41,991	Cyfanswm Gwariant yr Awdurdod	43,495
(42,917)	Ardollau	(43,769)
926	I'r/O'r Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi	274
(41,991)	Cyfanswm y Cyllid	(43,495)

CYSONIAD RHWNG YR ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB A'R DATGANIAD O INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Wedi'i ailddatgan 2014-15 £000	CYSONIAD	2015-16 £000
41,991 (42,917)	Cyfanswm y Gwariant ar Fonitro'r Gyllideb Llai: Cyfraniadau gan yr Etholaeth	43,495 (43,769)
(926)	Wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(274)
	Eitemau nas cynhwysir yn yr adroddiad Monitro Cyllideb	
3,422	Dibrisiant	3,407
792	Diffygiant	21
0	Colledion/Enillion Ailbrisio	1,243
21	Amorteiddio Asedau Anghyffyrddadwy	21
40	Enillion wrth waredu asedau	12
4	Addasiadau i absenoldebau a gronwyd	69
0	Grantiau Cyfalaf	(160)
3	Eitemau eraill	2
4,282		4,615
	Eitemau nas cynhwysir yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	
(2,284)	Darpariaeth Isafswm Refeniw	(2,097)
16,050	Trosglwyddiad i'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn	12,149
13,766		10,052
17,122	Diffyg ar gostau Darparu Gwasanaethau	14,393

25. LWFANSAU'R AELODAU

Yn ystod y flwyddyn gyntaf, cytunodd yr Awdurdod Tân i dalu'r cyfraddau blynyddol canlynol i'r Aelodau etholedig:

2014-15 £		2015-16 £
10,400	Cadeirydd	10,400
Dim	Is-gadeirydd	Dim
1,700	Aelod	1,700

Talodd yr Awdurdod y symiau canlynol i'n Haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn:

2014-15 £		2015-16 £
43,299	Cyfanswm Cyflogau'r Aelodau	61,540
16,550	Cyfanswm Treuliau'r Aelodau	12,559

26. CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I'R SWYDDOGION

Mae'r gydnabyddiaeth ariannol a dalwyd i uwch-gyflogeion yr Awdurdod fel a ganlyn:

	Nodyn	Blwyddyn	Cyflog	Cyflog ar Sail Perfformiad	Treuliau	Budd mewn Nwyddau (lesio car)	lawndal am golli Swydd	Pensiwn	Cyfanswm, yn cynnwys Pensiwn
Teitl		Blwyddyn	£	£	£	£	£	£	£
Prif Swyddog Tân 1	-	2014-15	13,103	0	0	1,713	0	2,772	17,588
		2015-16	0	0	0	0	0	0	0
Prif Swyddog Tân 2	-	2014-15	118,814	0	102	795	0	25,096	144,807
		2015-16	144,229	3,953	108	1,319	0	37,786	187,395
Dirprwy Brif Swyddog Tân 1	3	2014-15	95,695	0	0	15,654	0	20,172	131,521
		2015-16	4,376	0	0	0	0	1,116	5,492
Dirprwy Brif Swyddog Tân 2	4	2014-15	0	0	0	0	0	0	0
		2015-16	106,837	0	0	2,034	0	27,197	136,068
Prif Swyddog Tân Dros Dro 1	1,2	2014-15	49,356	0	854	6,179	0	7,872	64,261
		2015-16	11,345	2,747	408	827	0	2,218	17,545
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol 1	-	2014-15	12,962	3,009	100	87	0	3,402	19,560
		2015-16	0	0	0	0	0	0	0
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol 2	-	2014-15	98,613	6,048	0	2,105	0	22,079	128,845
		2015-16	0	0	0	0	0	0	0
Prif Swyddog Cynorthwyol 3 (Y Cyfarwyddwr Adnoddau)	1,5	2014-15	43,499	2,624	783	5,447	0	7,321	59,674
		2015-16	85,504	0	715	10,973	0	13,717	110,909
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol 4	-	2014-15	86,027	0	0	288	0	18,077	104,392
		2015-16	106,686	2,630	252	6,675	0	27,821	144,064
Prif Swyddog Cynorthwyol 5	1,6	2014-15	46,445	0	573	3,211	0	7,406	57,635
		2015-16	13,930	1,421	213	596	0	2,435	18,595
Clerc yr Awdurdod	-	2014-15	19,781	0	580	0	0	3,115	23,476
		2015-16	19,817	0	683	0	0	3,171	23,671

Nodiadau:

1. Yn wahanol i'r Uwch-swyddogion eraill, mae'n ofynnol i Brif Swyddog Cynorthwyol 3 (Y Cyfarwyddwr Adnoddau), Prif Swyddog Cynorthwyol 5 a Dirprwy Brif Swyddog Dros Dro 1 brynu tanwydd i'r car o ran y milltiroedd a deithir ar gyfer y busnes, ac yna hawlio treuliau. At hynny, cyfrifir treth ar fuddion mewn nwyddau ar sail wahanol i'r hyn a gyfrifir ar gyfer Uwch-swyddogion eraill. Mae hyn yn arwain at ffigur llawer uwch ar gyfer treuliau a buddion mewn nwyddau.
2. Gadawodd y Dirprwy Brif Swyddog Dros Dro ei swydd ar 30 Ebrill 2015, ar gyflog blynyddol o £101,398.
3. Gadawodd Dirprwy Brif Swyddog Tân Dros Dro 1 ei swydd ar 3 Ebrill 2015, ar gyflog blynyddol o £116,549.
4. Dechreuodd Dirprwy Brif Swyddog Tân Dros Dro 2 yn ei swydd ar 1 Mai 2015, ar gyflog blynyddol o £116,549.
5. Ailddechreuodd Prif Swyddog Cynorthwyol 3 (Y Cyfarwyddwr Adnoddau) yn ei swydd ar 1 Mai 2015, ar gyflog blynyddol o £93,277.
6. Gadawodd Prif Swyddog Cynorthwyol 5 ei swydd ar 17 Mai 2015, ar gyflog blynyddol o £93,277.

Talwyd y symiau canlynol i gyflogeion eraill yr Awdurdod a oedd yn cael cydnabyddiaeth ariannol o dros £60,000 ar gyfer y flwyddyn (heb gynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr):

Ystod	Nifer 2014-15	Nifer 2015-16
£60,000 i £64,999	5	2
£65,000 i £69,999	2	3
£70,000 i £74,999	3	0
£75,000 i £79,999	0	2
£80,000 i £84,999	1	0
£85,000 i £89,999	0	0

Yn 2015-16, cymhareb y cyflog uchaf a delir i'r cyflog canolrifol sy'n cyfateb i amser llawn, sef £29,345, yw 4.91:1. (Yn 2014-15, canolrif y cyflog sy'n cyfateb i amser llawn oedd £29,054, a'r gymhareb oedd 4.54:1).

Cytunwyd ar un pecyn ymadael yn 2015-16 (dim un yn 2014-15). Roedd y pecyn yn ymadawiad cytunedig sy'n disgyn i'r band costau £20,001 i £40,000.

27. COSTAU'R ARCHWILIAD ALLANOL

Mae'r Awdurdod wedi mynd i'r costau canlynol mewn perthynas ag archwilio'r Datganiad o Gyfrifon, arolygiadau statudol, a gwasanaethau eraill nad ydynt yn ymwneud â'r archwiliad, ac a ddarparwyd gan archwilwyr allanol yr Awdurdod. Mae'r ffioedd ar gyfer gwasanaethau eraill yn berthnasol i adolygiad o Ddiogelwch Gwybodaeth.

2014-15 £000		2015-16 £000
50	Amcangyfrif o'r ffioedd sy'n daladwy i Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â gwasanaethau archwilio allanol a ddarparwyd gan yr archwilydd penodedig ar gyfer y flwyddyn	50
24	Ffioedd sy'n daladwy mewn perthynas â gwasanaethau eraill a ddarparwyd gan yr archwilydd penodedig	0

28. INCWM GRANT

Roedd yr Awdurdod wedi credydu'r grantiau, y cyfraniadau a'r rhoddion canlynol i'r Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn 2015-16:

2014-15 £000		2015-16 £000
	Refeniw	
931	Lleihau Risgiau Cymunedol	1,169
804	Ariannu New Dimensions ac USAR	784
60	Cyfarpar Achub o Ddŵr	0
592	Fire Link	592
146	JIGSO	35
0	Y Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys	58
41	Arall *	30
2,574		2,668
	Cyfalaf	
0	Arall *	160
0		160

* Grantiau (cyllid allanol) eraill sy'n cynnwys cyllid ar gyfer prosiectau bach, anailadroddus.

Mae'r holl grantiau, cyfraniadau a rhoddion a ddaeth i law wedi'u cydnabod yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gan fod unrhyw amodau cysylltiedig wedi'u bodloni. Mae ffigur y grant yn cynnwys grantiau a ddaeth i law ar ran Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Caiff y grantiau hyn eu cofnodi yn daliadau o'u trosglwyddo i Wasanaethau eraill. Roedd Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi gweithredu fel banciwr ar gyfer y tri Gwasanaeth o dan y trefniant hwn.

29. PARTIÖN CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu trafodiadau perthnasol i bartion cysylltiedig – cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli'r Awdurdod neu ddylanwadu arno, neu i gael eu rheoli neu eu dylanwadu gan yr Awdurdod. Mae datgelu'r trafodiadau hyn yn galluogi'r darllenwyr i asesu i ba raddau y cyfyngwyd ar yr Awdurdod, o bosibl, o ran ei allu i fargeinio'n rhydd â'r Partion Cysylltiedig.

Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn dylanwadu'n sylweddol ar weithrediadau cyffredinol yr Awdurdod – mae'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol y mae'r Awdurdod yn gweithredu ynddo, ac yn darparu cyllid ar ffurf grantiau. Amlinellir y grantiau a gafwyd gan adrannau o'r Llywodraeth yn nodyn 28.

Aelodau

Mae gan Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub reolaeth uniongyrchol ar bolisiau ariannol a gweithredol yr Awdurdod. Dangosir cyfanswm y lwfansau a dalwyd i'r Aelodau yn 2015-16 yn nodyn 25.

Swyddogion

Ni fu i'r un Swyddog ddatgan buddiant ariannol yn unol ag adran 117 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Cyrff Cyhoeddus Eraill

Mae'r Awdurdod yn cael y rhan fwyaf o'i gyllid refeniw trwy godi ardoll, yn seiliedig ar y boblogaeth, ar y chwe Chyngor Sir Unedol yn ei ardal. Mae manylion y symiau a ddaeth i law trwy ardollau i'w gweld ar dudalen 6.

Yr Awdurdod yw'r Awdurdod Gweinyddu ar gyfer Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân. Mae manylion Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân i'w gweld yn nodyn 34, ac mae cyfrifon Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân i'w gweld ar dudalennau 91 i 93.

Endidau y mae'r Awdurdod yn Dylanwadu Arnynt

Cwmni Buddiannau Cymunedol cyfyngedig trwy Warrant yw Rescue 365, a sefydlwyd i ddarparu gwasanaethau atal, diogelu ac ymateb ar gyfer y gymuned yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. Bydd y gwargedion a gynhyrchir trwy weithgareddau'r cwmni yn cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau atal, diogelu ac ymateb ar gyfer ein cymunedau. Nod y gwasanaethau atal, diogelu ac ymateb hyn yw ategu at y gwasanaethau atal, diogelu ac ymateb statudol ac anstatudol a ddarperir gan Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae gan gyfarwyddwyr y Cwmni y gallu i ddefnyddio rhai o'r gwargedion, neu'r cyfan, i hyrwyddo amcanion a diben cymunedol Rescue 365. Gan fod y diben cymunedol yn cyd-fynd â diben yr Awdurdod, gall y cyfarwyddwyr drosglwyddo rhai o'r gwargedion, neu'r cyfan, i'r Awdurdod.

Byddai penderfyniad ynghylch sut i ddefnyddio'r gwargedion yn fater i fwrdd Rescue 365, a byddai angen iddo weithredu er budd pennaf Rescue 365, gyda'r bwriad o hyrwyddo ei ddiben cymunedol. Roedd bwrdd Rescue 365 yn cynnwys:

- Cynghorydd ac Aelod o'r Awdurdod;
- Prif Swyddog Tân yr Awdurdod;
- Prif Swyddog Tân Cynorthwyol yr Awdurdod; a
- Rheolwr Ardal yr Awdurdod,

ac mae pob un ohonynt yn debygol o ystyried cynnig grantiau o'r fel ffordd effeithiol o hyrwyddo diben cymunedol Rescue 365; y bwriad o'r dechrau cyntaf oedd y byddai'r gwargedion yn cael eu defnyddio i gefnogi'r gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod. At ei gilydd, mae'r Awdurdod wedi rhoi benthyciad gwerth £260 mil i Rescue 365, ac roedd £200 mil o hwnnw yn disgwyl sylw ar ddiwedd y flwyddyn. At hynny, aeth yr Awdurdod ati i secondio staff ac i rentu adeiladau i Rescue 365, gan godi tâl am hynny, ac roedd y balans dyledus ar ddiwedd y flwyddyn yn £58.5 mil, yn cynnwys TAW.

30. **GWARIANT CYFALAF AC ARIANNU CYFALAF**

Mae cyfanswm y gwariant cyfalaf yr aed iddo yn y flwyddyn i'w weld yn y tabl isod (gan gynnwys gwerth yr asedau a brynwyd dan lesuedd cyllid), ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. Lle bo'r gwariant cyfalaf i gael ei ariannu mewn blynyddoedd i ddod trwy godi tâl ar refeniw wrth i'r asedau gael eu defnyddio gan yr Awdurdod, mae'r gwariant yn arwain at gynnydd yng Ngofyniad y Cyllid Cyfalaf (CFR), sef mesur o'r gwariant cyfalaf yr aed iddo yn hanesyddol gan yr Awdurdod ond sydd eto i gael ei ariannu. Dadansoddir yr CFR yn ail ran y nodyn hwn.

Wedi'i ailddatgan 2014-15 £000	Gofyniad y Cyllid Cyfalaf	2015-16 £000
20,922	Gofyniad Agoriadol y Cyllid Cyfalaf	21,831
	<i>Buddsoddiad Cyfalaf</i>	
3,145	Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar	3,449
48	Asedau Anghyfyrrddadwy	34
	<i>Ffynonellau cyllid</i>	
0	Derbyniadau Cyfalaf	(590)
0	Grantiau'r Llywodraeth a chyfraniadau eraill	(160)
(2,284)	Y brif gronfa benthyciadau/MRP	(2,097)
21,831	Gofyniad Cau y Cyllid Cyfalaf	22,467
	Esboniad o'r symudiadau yn y flwyddyn	
909	Cynnydd yn yr angen sylfaenol i fenthyca neu lesio	636

31. LESOEDD

Yr Awdurdod fel Lesddeiliad

Lesoedd Cyllid

Mae'r Awdurdod wedi caffael nifer o gerbydau gweithredol o dan lesoedd cyllid.

Caiff yr asedau a gafwyd o dan y lesoedd hyn eu cario ar ffurf Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar yn y Fantolen, a hynny ar y symiau net canlynol:

Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar	31 Mawrth 2015	31 Mawrth 2016
	£000	£000
Tir ac Adeiladau Eraill	0	0
Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn a Chyfarpar	5,630	6,156
	5,630	6,156

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i dalu'r isafswm o dan y lesoedd hyn, sy'n cynnwys setlo'r rhwymedigaeth hirdymor ar gyfer y llog yn y cerbydau a brynwyd gan yr Awdurdod, a'r costau cyllid a fydd yn daladwy gan yr Awdurdod mewn blynyddoedd i ddod tra bo'r rhwymedigaeth yn dal i ddisgwyl sylw. Mae isafswm taliadau'r lesoedd yn cynnwys y symiau canlynol:

Rhwymedigaethau'r lesoedd cyllid (gwerth presennol net isafswm taliadau'r lesoedd):	31 Mawrth 2015	31 Mawrth 2016
	£000	£000
- Cyfredol	872	998
- Anghyfredol	5,430	5,787
Costau cyllid a fydd yn daladwy mewn blynyddoedd i ddod	1,144	1,220
Isafswm taliadau'r lesoedd	7,446	8,005

Bydd isafswm taliadau'r lesoedd yn daladwy dros y cyfnodau canlynol:

	Isafswm Taliadau'r Lesoedd		Rhwymedigaethau'r Lesoedd Cyllid	
	31 Mawrth 2015	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2015	31 Mawrth 2016
	£000	£000	£000	£000
Ymhen blwyddyn, fan bellaf	1,115	1,241	872	998
Yn hwyrach na blwyddyn, ac nid yn hwyrach na phum mlynedd	3,595	3,474	3,017	2,868

Yn hwyrach na phum mlynedd	2,736	3,290	2,413	2,919
	7,446	8,005	6,302	6,785

Lesoedd Gweithredu

Mae'r Awdurdod wedi caffael nifer o gerbydau ysgafn trwy ymrwymo i lesoedd gweithredu, sydd ag oesau nodweddiadol o bump i saith mlynedd.

Mae isafswm taliadau'r lesoedd sy'n daladwy o dan lesoedd na ellir eu canslo mewn blynyddoedd i ddod fel a ganlyn:

Lesoedd Gweithredu	Ar 31 Mawrth 2015 £000	Ar 31 Mawrth 2016 £000
Lesoedd gweithredu sy'n dirwyn i ben:		
Ymhen blwyddyn, fan bellaf	18	29
Yn hwyrach na blwyddyn, ac nid yn hwyrach na phum mlynedd	2,123	2,257
Yn hwyrach na phum mlynedd	193	0
Cyfanswm	2,334	2,286

32. COLLEDION OHERWYDD DIFFYGIANT

Yn 2014-15, dymchwelwyd Gorsaf Dân Aberystwyth, a chychwynwyd ar y gwaith o godi Gorsaf Dân Newydd ar yr un safle. Codwyd tâl am ddiffygiant ar y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr er mwyn lleihau gwerth cario'r ased i brisiad y tir. Cadwyd gwerth y tir yn y cofnod Tir ac Adeiladau o dan Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar.

Yn 2015-16, nid oedd unrhyw leihad yn y gwerth.

33. BUDDION TERFYNU

Terfynodd yr Awdurdod contract un cyflogai yn 2015-16 trwy ymddeoliad gwirfoddol, gan fynd i rwymedigaeth o £38 mil.

34. CYNLLUNIAU PENSIWN Â BUDDION WEDI'U DIFFINIO

Cyfranogiad mewn Cynlluniau Pensiwn

Yn rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei Swyddogion, mae'r Awdurdod yn cyfrannu at gost buddion ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion hyn, mewn gwirionedd, yn daladwy tan i'r cyflogai ymddeol, mae gan yr Awdurdod ymrwymiad i wneud y taliadau (ar gyfer y buddion hynny), ac i'w datgelu ar yr adeg y mae'r cyflogeion yn ennill yr hyn y bydd ganddynt hawl iddo yn y dyfodol.

Mae'r Awdurdod yn cymryd rhan mewn dau gynllun ôl-gyflogaeth:

- Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (FPS) – mae hwn yn gynllun â buddion wedi'u diffinio nas ariennir, sy'n golygu na ddelir unrhyw fuddsoddiadau i ariannu'r rhwymedigaethau. Delir y cyfraniadau a wneir gan y cyflogwr a'r cyflogeion, ar gyfradd a osodir gan Lywodraeth Cymru, mewn cyfrif cronfa pensiwn; codir tâl am y buddion a delir ar y cyfrif, ac mae unrhyw falans ar y cyfrif yn dod o Lywodraeth Cymru, neu yn daladwy iddi (gweler tudalen 91).
- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) – mae'r Awdurdod yn cyfranogi o Gronfa Pensiwn Dyfed, a weinyddir gan Gyngor Sir Caerfyrddin – mae hwn yn gynllun â buddion wedi'u diffinio a ariennir, sy'n golygu bod yr Awdurdod a'r cyflogeion yn talu cyfraniadau i gronfa, a'r rheiny wedi'u cyfrifo ar lefel y bwriedir iddi gydbwysu rhwymedigaethau'r pensiwn ag asedau buddsoddi.

Prif risgiau'r cynlluniau hyn i'r Awdurdod yw'r tybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynlluniau, newidiadau strwythurol i'r cynllun (h.y. tynnu arian o'r cynllun ar raddfa fawr), newidiadau o ran chwyddiant, arenillion bondiau, a pherfformiad y buddsoddiadau ecwiti a ddelir gan yr LGPS. Caiff y rhain eu lliniaru i ryw raddau gan y gofyniad statudol i godi tâl ar y Gronfa Gyffredinol am y symiau sy'n ofynnol trwy statud, fel y disgrifir yn y nodyn i'r polisiau cyfrifyddu.

Trafodiadau sy'n Gysylltiedig â Buddion Ôl-gyflogaeth

Rydym yn cydnabod cost buddion ymddeoliad yng ngost y gwasanaethau yr adroddir amdanynt, pan fyddant yn cael eu hennill gan y cyflogeion, yn hytrach na phan gaiff y buddion eu talu yn y pen draw ar ffurf pensiynau. Fodd bynnag, mae'r tâl y mae'n ofynnol i ni ei godi ar ein Hawdurdodau Cyfansoddol yn seiliedig ar yr arian parod sy'n daladwy yn y flwyddyn, felly caiff cost wirioneddol y buddion ôl-gyflogaeth/ymddeoliad ei thynnu'n ôl allan o'r Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Gwnaed y trafodiadau canlynol yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn:

2014-15		Trafodiadau yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Gronfa Gyffredinol	2015-16	
Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân	Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân	Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
£000	£000		£000	£000
11,780	974	<i>Costau gwasanaethau, yn cynnwys:</i>	11,150	1,182
20	172	- Cost y Gwasanaethau Cyfredol	0	0
0	27	- Cost Gwasanaethau yn y Gorffennol	0	28
0	332	- Treuliau gweinyddo	0	0
		- (enillion)/colledion trwy setliadau		
		<i>Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi</i>		
17,630	197	Traul llog net	14,550	328
29,430	1,702	<i>Cyfanswm y Buddion Ôl-gyflogaeth y codir tâl amdanynt ar y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau</i>	25,700	1,538
		<i>Buddion Ôl-gyflogaeth eraill y codir tâl amdanynt ar y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</i>		
		<i>Ailfesur rhwymedigaeth y buddion diffiniedig net, yn cynnwys:</i>		
0	(1,421)	- Adenillion ar asedau cynllunio	0	1,497
(39,540)	0	- Enillion neu golledion actiwaraidd oherwydd newidiadau demograffig	(5,990)	0
64,880	7,884	- Enillion neu golledion actiwaraidd oherwydd newidiadau i dybiaethau ariannol	(36,860)	(2,936)
(19,100)	0	- Enillion neu golledion profiad	(13,020)	0
19,100	0	- Tybiaethau setliad cadwedig	(15,480)	0
54,770	8,165	Cyfanswm y Buddion Ôl-gyflogaeth y codir tâl amdanynt ar y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(45,650)	99
(29,430)	(1,702)	Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn Gwrthdroi'r taliadau net y codir tâl amdanynt ar y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau ar gyfer buddion ôl-gyflogaeth yn unol â'r Cod	(25,700)	(1,538)
	912	Y Gwir Swm y codwyd Tâl amdano yn erbyn Balans y Gronfa Gyffredinol ar gyfer pensiynau yn y flwyddyn Cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r cynllun		930
14,170		Buddion ymddeoliad sy'n daladwy i bensiynwyr	14,160	

Yn dilyn penderfyniad yr Ombwdsmon Pensiynau yn achos Milne v GAD, gwnaed cyfandaliadau a thaliadau llog ychwanegol yn 2015-16. Canfuwyd bod bai ar GAD am beidio ag adolygu a chynnal y ffactorau cyfnewid yn ystod y cyfnod 1999 a 2006. Gorchmynnodd yr Ombwdsmon i daliad cael ei wneud i'r unigolion yr oedd y cyfeiliornad wedi effeithio arnynt, i adlewyrchu'r cyfandaliad cyfnewid a ailgyfrifwyd, gan gynnwys llog ar yr ôl-daliad. Talwyd £1.590 miliwn i'r pensiynwyr yr effeithiwyd arnynt, a bu i Drysorlys Ei

Mawrhydi setlo'r rhwymedigaeth dreth a oedd yn daladwy ar y taliadau o £1.061 miliwn. Nid yw'r ffigurau hyn wedi'u cynnwys yn y tabl uchod. Cafodd y taliadau eu gwneud trwy Gronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân, a chafodd y costau ychwanegol eu had-dalu gan Lywodraeth Cymru trwy'r grant atodol.

Asedau a Rhwymedigaethau Pensiynau a Gydabyddir yn y Fantolen

Mae'r swm a gynhwysir yn y Fantolen, ac sy'n codi o ymrwymiad yr Awdurdod mewn perthynas â'i gynllun o ran buddion wedi'u diffinio, fel a ganlyn:

2014-15 £000 Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân	2014-15 £000 Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		2015-16 £000 Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân	2015-16 £000 Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
(442,301) 0	(45,827) 35,571	Gwerth presennol ymrwymiad y buddion wedi'u diffinio Gwerth teg yr asedau cynllunio	(382,550) 0	(45,064) 35,638
(442,301)	(10,256)	Y rhwymedigaeth net sy'n deillio o ymrwymiad y buddion wedi'u diffinio	(382,550)	(9,426)

Cysoni'r Symudiadau yng Ngwerth Teg Asedau'r Cynllun

2014-15 £000	Asedau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	2015-16 £000
30,766	Gwerth teg agoriadol yr asedau	35,571
1,421	Incwm llog	1,216
3,176	Cynnydd/(colled) o ganlyniad i ailfesur	(1,497)
(27)	Treuliau gweinyddol	(28)
912	Cyfraniadau gan y cyflogwr	930
358	Cyfraniadau gan y cyflogeion i'r cynllun	370
(1,035)	Buddion a dalwyd	(924)
35,571	Gwerth teg cau asedau'r cynllun	35,638

Cysoni Gwerth Presennol Rhwymedigaethau'r Cynllun (Ymrwymiad y Buddion wedi'u Diffinio)

2014-15 £000 Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân	2014-15 £000 Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	Rhwymedigaethau	2015-16 £000 Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân	2015-16 £000 Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
(401,581)	(35,524)	Balans agoriadol ar 1 Ebrill	(442,301)	(45,827)
(11,780)	(974)	Cost y Gwasanaethau Cyfredol	(11,150)	(1,183)
(120)	0	Trosglwyddiadau i mewn	(60)	0
(17,630)	(1,618)	Cost llog	(14,550)	(1,544)
0	(358)	Cyfraniadau gan aelodau'r cynllun	0	(370)
		<i>Ailfesur (enillion)/colledion</i>		
39,540	(7,884)	Enillion/colledion actiwaraidd sy'n codi o'r newidiadau i dybiaethau demograffig	5,990	2,936
(64,880)	0	Enillion/colledion actiwaraidd sy'n codi o'r newidiadau i dybiaethau ariannol	36,860	0
0	0	Arall	28,501	0
14,170	1,035	Buddion a dalwyd	14,160	924
(20)	(172)	Cost Gwasanaethau yn y Gorffennol	0	0
0	(332)	Colledion/(enillion) ar gwtogiad	0	0
0	0	Rhwymedigaethau a ddaeth i ben trwy setliadau	0	0
(442,301)	(45,827)	Balans wrth gau ar 31 Mawrth	(382,550)	(45,064)

Roedd asedau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cynnwys:

2014-15 £000	Gwerth Teg Asedau'r LGPS	Wedi'i ddyfynnu (Do/Naddo)	2015-16 £000
	Ecwitiau		
8,391	Y Deyrnas Unedig – wedi'i ddyfynnu	Do	8,498
7,043	Cronfeydd cyfunol tramor	Naddo	7,388
178	Yr Unol Daleithiau	Do	3,774
4,080	Canada	Do	135
1,241	Japan	Do	1,418
1,064	Y Môr Tawel	Naddo	998
2,305	Marchnadoedd datblygol	Naddo	2,416
24,302	<i>Is-gyfanswm ecwiti</i>		24,627
	Bondiau		
3,774	Mynegai Llywodraeth y Deyrnas Unedig	Do	3,403
3,575	Y Deyrnas Unedig, Corfforaethol	Naddo	3,489
7,349	<i>Is-gyfanswm bondiau</i>		6,892
	Eiddo		
0	Y Deyrnas Unedig	Naddo	0
0	Tramor – wedi'i ddyfynnu	Do	0
0	Tramor	Naddo	0
3,656	Cronfeydd Eiddo	Naddo	3,970
3,656	<i>Is-gyfanswm – eiddo</i>		3,970
	Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod		
18	Offeryn arian parod	Do	0
139	Cyfrifon arian parod	Do	71
107	Asedau cyfredol net	Naddo	78
264	<i>Is-gyfanswm Arian Parod</i>		149
35,571	Cyfanswm yr Asedau		35,638

Y sail ar gyfer amcangyfrif Asedau a Rhwymedigaethau

Aseswyd y rhwymedigaethau ar sail actiwaraid, gan ddefnyddio'r dull credydu uned ragamcanol, sef amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy yn y blynyddoedd i ddod, yn ddibynnol ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaethau, lefelau cyflogau, ac ati.

Mae Cynllun y Diffoddwyr Tân wedi cael ei brisio gan Adran Actiwari'r Llywodraeth, ac mae rhwymedigaethau Cronfa Bensiwn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi cael eu priso gan Mercers, sy'n gwmni o actiwariaid annibynnol. Mae'r amcangyfrifon ar gyfer Cynllun Pensiwn Dyfed (y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol) yn seiliedig ar y prisiad llawn diweddaraf o'r cynllun ar 31 Mawrth 2013.

Roedd y tybiaethau perthnasol a ddefnyddiwyd gan yr actiwariaid fel a ganlyn:

	Cynllun y Diffoddwyr Tân		Cronfa'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	
	2014-15	2015-16	2014-15	2015-16
Tybiaethau o ran marwolaethau:				
Hirhoedledd yn 65 oed ar gyfer pensiynwyr cyfredol (mewn blynyddoedd):				
a. Dynion	22.5	22.3	23.3	23.4
b. Menywod	22.5	22.3	25.5	25.9
Hirhoedledd yn 65 oed ar gyfer pensiynwyr yn y dyfodol (mewn blynyddoedd):				
c. Dynion	24.8	24.6	25.5	25.7
d. Menywod	24.8	24.6	28.1	28.2
Cyfradd chwyddiant – CPI	2.2%	2.2%	2.1%	2.0%
Cyfradd y cynnydd mewn Cyflogau	4.2%	4.2%	3.6%	3.5%
Cyfradd y cynnydd mewn Pensiynau	2.2%	2.2%	2.1%	2.0%
Cyfradd ar gyfer y Cynllun disgowntio Rhwymedigaethau	3.3%	3.5%	3.4%	3.6%

Hyd cyfartalog pwysol amcangyfrifedig ymrwymiad y buddion wedi'u diffinio yw 19 mlynedd ar gyfer Cynllun y Diffoddwyr Tân, a 21 mlynedd ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Mae'r amcangyfrif o ymrwymiad y buddion wedi'u diffinio yn sensitif i'r tybiaethau actiwaraid a nodir yn y tabl uchod. Mae'r dadansoddiadau o'r sensitifrwydd, a welir isod, wedi'u pennu yn seiliedig ar fod newidiadau rhesymol bosibl yn digwydd i'r tybiaethau ar ddiwedd y cyfnod adrodd, ac yn tybio, yn achos pob newid, fod y dybiaeth a ddadansoddiwyd yn newid tra bo'r holl dybiaethau eraill yn parhau'n ddigyfnwyd. Er enghraifft, mae'r tybiaethau o ran hirhoedledd yn tybio bod disgwyliad oes yn codi neu'n disgyn ar gyfer dynion a menywod. Yn ymarferol, mae hyn yn annhebygol o ddigwydd, a bydd newidiadau o ran rhai tybiaethau, o bosibl, yn rhyng-gysylltiedig. Mae'r amcangyfrifon yn y dadansoddiad o sensitifrwydd wedi dilyn y polisiau cyfrifyddu ar gyfer y cynllun, h.y. ar sail actiwaraid, gan ddefnyddio'r dull credydu uned ragamcanol. Nid oedd y dulliau na'r mathau o dybiaethau a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad o sensitifrwydd isod wedi newid o gymharu â'r rheiny a ddefnyddiwyd yn y cyfnod blaenorol.

Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân – Dadansoddiad o Sensitifrwydd ar 31 Mawrth 2016						
Ymrwymiad y Buddion wedi'u Diffinio	Fel yr Adroddir	Cyfradd Ddisgowntio ar y Rhwym'au	Cynnydd mewn Cyflogau	Disgwyliad Oes	Cynnydd mewn Pensiynau	Ymdeol yn Gynt na'r Disgwyl
		Gostyngiad o 0.5%	Cynnydd o 0.5%	Cynnydd blwyddyn	Cynnydd o 0.5%	Un Flwyddyn
	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Cynllun 1992	(343,590)	(377,590)	(345,590)	(352,590)	(371,590)	(343,590)
Dyfarndaliadau ar gyfer Anafiadau	(10,330)	(10,330)	(10,330)	(10,330)	(10,330)	(10,330)
Cynllun 2007	(24,660)	(28,660)	(25,560)	(25,160)	(27,160)	(24,960)
Cynllun 2015	(3,970)	(4,770)	(4,270)	(4,070)	(4,370)	(4,070)
Cyfanswm	(382,550)	(421,350)	(385,750)	(392,150)	(413,450)	(382,950)

Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – Dadansoddiad o Sensitifrwydd ar 31 Mawrth 2016					
	Fel yr Adroddir	Cyfradd Ddisgowntio	Chwyddiant	Twf Cyflogau	Disgwyliad Oes
		Cynnydd o 0.1%	Cynnydd o 0.1%	Cynnydd o 0.1%	Cynnydd blwyddyn
	£000	£000	£000	£000	£000
Rhwymedigaethau	(45,064)	(44,126)	(46,022)	(45,366)	(45,903)
Asedau	35,638	35,638	35,638	35,638	35,638
(Diffyg)/Gwarged	(9,426)	(8,488)	(10,384)	(9,728)	(10,265)
Cost Rhagamcanol y Gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf	1,231	1,192	1,271	1,231	1,258
Cost Rhagamcanol y Llog Net ar gyfer y flwyddyn nesaf	323	297	358	334	354

Yr Effaith ar Lifoedd Arian yr Awdurdod

Amcanion y cynlluniau yw sicrhau bod cyfraniadau'r cyflogwr yn parhau ar gyfradd sydd mor gyson â phosibl.

Yn achos y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cytuno ar strategaeth ag actiwari'r cynllun i gyflawni lefel ariannu o 100% yn ystod y 17 mlynedd nesaf. Caiff y lefelau ariannu eu monitro'n flynyddol. Cynhelir y prisiad tair blynedd nesaf ar 31 Mawrth 2016.

Mae'r ddau gynllun wedi ystyried y newidiadau cenedlaethol i'r cynllun o dan Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. O dan y Ddeddf hon, caiff cynlluniau eu trosglwyddo o gynlluniau sy'n seiliedig ar gyflog terfynol i gynlluniau sy'n seiliedig ar enillion gyrfa cyfartalog wedi'u hailbriso. Daeth y newid i rym ar 1 Ebrill 2015 ar gyfer Cynllun y Diffoddwyr Tân, ac ar 1 Ebrill 2014 ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Roedd yr Awdurdod yn rhagweld y byddai'n talu cyfraniadau disgwylidig o £3.67 miliwn i'r cynllun yn 2016-17. Hyd cyfartalog pwysol ymrwymiad y buddion wedi'u diffinio yw 20 mlynedd yn 2015-16 (20 mlynedd yn 2014-15).

35. NATUR A GRADDAU'R RISGIAU SY'N DEILLIO O'R OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae gweithgareddau'r Awdurdod yn golygu ei fod yn agored i nifer o risgiau ariannol:

- Risgiau credyd – y posibilrwydd y gallai partïon eraill fethu talu symiau sy'n ddyledus i'r Awdurdod.
- Risgiau hylifedd – y posibilrwydd na fydd gan yr Awdurdod gyllid i fodloni ei ymrwymadau i wneud taliadau.
- Risgiau o ran y farchnad – y posibilrwydd o golled ariannol i'r Awdurdod o ganlyniad i newidiadau o ran mesurau tebyg i'r gyfradd llog a symudiadau yn y farchnad stoc.

Mae rhaglen rheoli risgiau gyffredinol yr Awdurdod yn canolbwyntio ar natur anrhagweladwy'r marchnadoedd ariannol, ac yn ceisio lleihau'r effeithiau andwyol posibl ar yr adnoddau sydd ar gael i ariannu'r gwasanaethau. Cynhelir gweithgareddau rheoli risgiau ariannol yn unol â pholisïau a gymeradwywyd gan yr Awdurdod yn Strategaeth Rheoli Flynyddol y Trysorlys. Mae'r Awdurdod yn darparu egwyddorion ysgrifenedig ar gyfer rheoli risgiau cyffredinol, yn ogystal â chanllawiau ysgrifenedig sy'n ymwneud â meysydd penodol, er enghraifft risgiau o ran cyfraddau llog, credyd a buddsoddi arian dros ben.

Risgiau Credyd

Mae risgiau credyd yn deillio o adneuo gyda banciau a sefydliadau ariannol; mae gwerth cynnig credyd i gwsmeriaid yr Awdurdod yn isel, ac nid ystyrir hyn yn risg.

Sicrheir bod y risg mor fach â phosibl trwy'r strategaeth Buddsoddi Blynyddol, sy'n ei gwneud yn ofynnol na chaiff arian ei adneuo gyda sefydliadau ariannol oni bai eu bod yn bodloni meini prawf credyd penodol.

Y strategaeth bresennol yw buddsoddi'n fewnol, cyn belled ag y bo modd, gan felly leihau'r angen i fenthyca, a lleihau gwarged yr arian parod sydd ar gael i'w fuddsoddi, yn ogystal â'r cyfnodau y mae'r gwargedion hynny ar gael. At hynny, mae contract bancio yr Awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol i fuddsoddiadau gael eu gwneud trwy fancwyr yr Awdurdod. Gyda'r cyfraddau llog ar lefelau mor isel, mae hyn wedi arwain at ddal gwargedion mewn cyfrifon cadw llog uchel.

Mae'r Awdurdod yn fwyaf agored i risgiau credyd mewn perthynas â'i fuddsoddiadau gyda'i fanc. Mae profiad diweddar wedi dangos mai yn anaml y mae endidau o'r fath yn methu bodloni eu hymrwymadau. Mae risg o fethu adfer yr arian yn gysylltiedig â holl adneuo yn yr Awdurdod, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth ar 31 Mawrth 2016 fod hyn yn debygol o grisialu.

Risgiau Hylifedd

Mae'r Awdurdod yn monitro balans ei arian parod er mwyn sicrhau bod arian parod ar gael yn ôl yr angen. Os bydd symudiadau annisgwyl yn digwydd, bydd yr Awdurdod yn gallu cyrchu benthyciadau yn rhwydd gan Swyddfa Rheoli Dyled y Deyrnas Unedig. Nid oes yna risg sylweddol na fydd yn gallu sicrhau cyllid i fodloni ei ymrwymadau o dan offerynnau ariannol. Yn lle hynny, y risg yw y bydd yr Awdurdod yn rhwym i atgyflenwi cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg pan fydd y cyfraddau llog yn anffafriol. Y strategaeth yw sicrhau bod benthyciadau yn aeddfedu o fewn y terfynau cymeradwy a ddangosir yn y tabl isod, a hynny trwy gyfuniad o gynllunio'n ofalus ar gyfer y benthyciadau newydd a godir, a gwneud ad-daliadau cynnar (lle y bo'n ddarbodus gwneud hynny). Mae dadansoddiad o aeddfedrwydd y rhwymedigaethau ariannol fel a ganlyn:

	Terfynau isaf a gymeradwywyd	Terfynau uchaf a gymeradwywyd	Gwirioneddol 31 Mawrth 2015 £000	31 Mawrth 2015	Gwirioneddol 31 Mawrth 2016 £000	31 Mawrth 2016
Llai na blwyddyn	0%	20%	280	2%	4,280	20%
Rhwng 1 a 2 flynedd	0%	20%	280	2%	280	1%
Rhwng 2 a 5 mlynedd	0%	50%	1,769	11%	2,020	10%
Rhwng 5 a 10 mlynedd	0%	75%	3,232	21%	3,005	14%
Mwy na 10 mlynedd	25%	90%	9,965	64%	11,465	55%
Cyfanswm			15,526	100%	21,050	100%

Yn ystod 2015-16 codwyd nifer o fenthyciadau byrdymor, sef cyfanswm o £4,000 mil, er mwyn rheoli pwysau o ran llif arian parod. Gellir ad-dalu'r benthyciadau byrdymor hyn trwy ddefnyddio grant a gafwyd gan Lywodraeth Cymru i dalu'r costau hyn. Os eithrir y £4 miliwn, bydd y tabl fel a ganlyn:

	Terfynau isaf a gymeradwywyd	Terfynau uchaf a gymeradwywyd	Gwirioneddol 31 Mawrth 2015 £000	31 Mawrth 2015	Gwirioneddol 31 Mawrth 2016 £000	31 Mawrth 2016
Llai na blwyddyn	0%	20%	280	2%	280	2%
Rhwng 1 a 2 flynedd	0%	20%	280	2%	280	2%
Rhwng 2 a 5 mlynedd	0%	50%	1,769	11%	2,020	12%
Rhwng 5 a 10 mlynedd	0%	75%	3,232	21%	3,005	17%
Mwy na 10 mlynedd	25%	90%	9,965	64%	11,465	67%
Cyfanswm			15,526	100%	17,050	100%

Risgiau o ran y Farchnad

Risgiau o ran y Gyfradd Llog

Mae'r Awdurdod yn agored i risgiau yn nhermau'r modd y mae'n dod i gysylltiad â symudiadau yn y gyfradd llog ar ei fenthyciadau a'i fuddsoddiadau. Mae symudiadau yn y gyfradd llog yn cael effaith gymhleth ar yr Awdurdod. Er enghraifft, byddai cynnydd yn y cyfraddau llog yn cael yr effeithiau canlynol:

- Benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg rhwymedigaethau'r benthyciadau yn disgyn
- Benthyciadau ar gyfraddau amrywiadwy – bydd cost y llog y codir tâl amdano ar y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn codi

- Benthyciadau ar gyfraddau amrywiadwy – bydd incwm y llog a gredydir i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn codi
- Benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg yr asedau yn disgyn.

O ganlyniad i weithgareddau benthycyca'r Awdurdod a lefelau ei wargedion arian parod, ynghyd â'r cyfnod cyfyngedig o ran dal y gwargedion, mae cyfleoedd i fenthycyca a buddsoddi yn gyfyngedig. Ar y cyfan, gwneir benthyciadau ar gyfraddau llog sefydlog, a buddsoddiadau ar gyfraddau llog amrywiadwy.

Ni chaff benthyciadau eu cario ar werth teg, felly ni fyddai enillion neu golledion dibwys ar fenthyciadau ar gyfradd sefydlog yn effeithio ar y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau nac ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall. Fodd bynnag, bydd newidiadau i'r llog sy'n dderbyniadwy ar fuddsoddiadau ar gyfradd amrywiadwy yn cael eu postio i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau ac yn effeithio ar Falans y Gronfa Gyffredinol.

Risgiau o ran Prisiau

Nid yw'r Awdurdod yn buddsoddi mewn cyfranddaliadau ecwiti, ac nid yw'n agored i risgiau o ran prisiau.

Risgiau o ran y Gyfnewidfa Dramor

Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw asedau ariannol a ddelir ar ffurf arian cyfred tramor, ac felly nid yw'n agored i golledion sy'n deillio o symudiadau yn y cyfraddau cyfnewid.

36. RHWYMEDIGAETH DDIGWYDDIADOL

Ar gyfer 2017, aeth CThEM ati i ddiwygio ei ganllawiau ar gyfer Treuliau a Buddion. Ysgogodd y diwygiad hwn GTACGC i adolygu ei Weithdrefn Teithio a Chynhaliaeth ei hun. Yn ystod yr adolygiad, darganfuwyd nad oedd yr Awdurdod yn cydymffurfio â chanllawiau CThEM. Gan fod yna bosibilrwydd o effaith sylweddol ar y cyflogeion, aeth yr awdurdod ati i gyflogi ymgynghorwyr i adolygu a mireinio ei bolisi o ran Defnyddio Cerbydau, gwirio ei gyfrifiadau P11D hanesyddol i sicrhau eu bod wedi'u hadrodd yn gywir, cynghori ar sut i weithredu yn achos gordalu/tan-dalu treth/Cyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol Dosbarth 1A, a delio â CThEM hyd nes bo'r materion wedi'u datrys. Disgwylir y bydd angen gwneud taliad i CThEM, ond nid ydym wedi cytuno ar hyn. Mae'r Awdurdod yn amcangyfrif nad yw'r cyfanswm yn debygol o fod yn sylweddol.

CYFRIF CRONFA BENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN
AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2016

Wedi'i ailddatgan 2014-15 £000		2015-16 £000
	Cyfraniadau sy'n dderbyniadwy:	
	Cyflogwr:	
(3,150)	-Normal	(3,316)
(157)	-ymddeoliadau cynnar (salwch)	(481)
(2,376)	-aelodau	(2,452)
(5,683)		(6,249)
(123)	Trosglwyddiadau unigol i mewn o gynlluniau eraill	(63)
(5,806)		(6,312)
	Buddion sy'n Daladwy	
9,684	-pensiwn	10,196
3,194	-cyfnewidiadau a buddion cyfandaliadau ymddeoliad	2,694
0	-buddion ychwanegol o ganlyniad i GAD v Milne	1,590
0	-cyfandaliad - marwolaeth	5
12,878		14,485
	Taliadau i ymadawyr ac o ganlyniad iddynt:	
1,152	Trosglwyddiadau unigol allan i gynlluniau eraill	1,236
14,030		15,721
8,224	Y diffyg ar gyfer y flwyddyn cyn y grant ategol sy'n dderbyniadwy gan Lywodraeth Cymru	9,409
(8,224)	Grant ategol sy'n Dderbyniadwy gan Lywodraeth Cymru	(9,409)
0	Y swm net sy'n daladwy/dderbyniadwy ar gyfer y flwyddyn	0

DATGANIADAU O ASED AU NET AR 31 MAWRTH 2016

Wedi'i ailddatgan* 2014-15 £000		2015-16 £000
0	Asedau Cyfredol:	
4,725	Yn daladwy gan y Gronfa Gyffredinol	757
	Yn daladwy gan Lywodraeth Cymru	0
4,725	Cyfanswm yr Asedau Cyfredol	757
	Rhwymedigaethau Cyfredol:	
(4,725)	Y swm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyffredinol	0
0	Y swm sy'n daladwy i Lywodraeth Cymru	(757)
(4,725)	Cyfanswm y Rhwymedigaethau Cyfredol	(757)

*Wedi'i ailddatgan yn dilyn cysoni trafodiadau'r cyfriflyfr

NODIADAU I GYFRIF CRONFA BENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN

Sefydlwyd y Gronfa ar 1 Ebrill 2007, ac mae'n cynnwys cynlluniau pensiwn 1992, 2006 a 2015, ynghyd â Chynllun Pensiwn Diwygiedig y Diffoddwyr Tân, a chaiff ei gweinyddu gan yr Awdurdod. Telir cyfraniadau'r cyflogeion a'r cyflogwr i'r Gronfa, a gwneir taliadau ohoni i'r pensiywyr. Mae lefelau cyfraniadau'r cyflogeion a'r cyflogwr yn seiliedig ar ganrannau cyflog pensynadwy a osodir yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru, ac maent yn destun ailbrisiadau tair blynedd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD). Ni chaiff y cynllun ei ariannu, nid oes iddo unrhyw asedau buddsoddi, a thelir unrhyw wahaniaeth rhwng y buddion sy'n daladwy a'r cyfraniadau sy'n dderbyniadwy trwy Grantiau Ategol gan Lywodraeth Cymru.

Mae trosglwyddiadau i mewn i'r cynllun yn drosglwyddiadau o fuddion pensiwn o gynllun pensiwn arall ar gyfer cyflogeion newydd neu gyflogeion presennol, ac mae trosglwyddiadau allan yn drosglwyddiadau o fuddion ar gyfer cyflogeion sydd wedi gadael yr Awdurdod ac ymuno â chynllun pensiwn arall.

Yr Awdurdod sy'n gyfrifol am dalu cyfraniadau'r cyflogwr i mewn i'r gronfa, a'r costau hyn a nodir yn y cyfrifon ar gyfer yr Awdurdod.

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, gwneir asesiad o swm y Grant Ategol sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru, a thelir 80% o'r amcangyfrif ym mis Gorffennaf. Roedd yr amcangyfrif ar gyfer 2015-16 yn cynnwys asesiad o nifer y diffoddwyr tân a fyddai'n ymddeol yn ystod y flwyddyn, yn seiliedig ar oedran a nifer y blynyddoedd o wasanaeth; o hyn gellir amcangyfrif y taliadau cyfnewid a fyddai'n daladwy, ynghyd â'r taliadau pensiwn ychwanegol.

Mae'r polisiâu cyfrifyddu a fabwysiadwyd ar gyfer creu Cyfrif y Gronfa Bensiwn yn cyd-fynd â'r arfer a argymhellir, ac yn dilyn yr arferion hynny sy'n berthnasol i ddatganiadau sylfaenol yr Awdurdod.

Yn dilyn canlyniad llwyddiannus yr achos llys (GAD v Milne) mewn perthynas â'r cyfrifiad actiwaraid a ddefnyddir ar gyfer taliadau cyfnewid sy'n ddyledus i ddiffoddwyr tân sy'n ymddeol, a hwnnw'n dyddio'n ôl nifer o flynyddoedd, talwyd £1.590 miliwn i'r pensiywyr hynny yr effeithiwyd arnynt, ac aeth Trysorlys Ei Mawrhydi ati, ar ran y gronfa, i dalu'r rhwymedigaeth dreth (£1,061 mil) a oedd yn daladwy ar y taliadau.

Cyfraddau Cyfraniadau

O dan Reoliadau Pensiwn y Diffoddwyr Tân, roedd cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer cynllun 2015 yn 14.3% o'r cyflog pensiynadwy, ac roedd cyfraddau'r cyflogeion yn unol â bandiau'r cyflog pensiynadwy y manylir arnynt isod:

Band Cyflog Pensiynadwy	Cyfradd Cyfraniadau 2015-16 %
Hyd at ac yn cynnwys £27,000	10.0
Mwy na £27,000 a hyd at £50,000, yn gynwysedig	12.2
Mwy na £50,000 a hyd at £142,500, yn gynwysedig	13.5
Mwy na £142,500	14.5

Ar gyfer cynllun 2016, roedd cyfraniadau'r cyflogwr yn 16.8% o'r cyflog pensiynadwy, ac roedd cyfraddau'r cyflogeion yn unol â bandiau'r cyflog pensiynadwy y manylir arnynt isod:

Band Cyflog Pensiynadwy	Cyfradd Cyfraniadau 2015-16 %
Hyd at ac yn cynnwys £15,150	8.5
Mwy na £15,150 a hyd at £21,210, yn gynwysedig	9.4
Mwy na £21,210 a hyd at £30,300, yn gynwysedig	10.4
Mwy na £30,300 a hyd at £40,400, yn gynwysedig	10.9
Mwy na £40,400 a hyd at £50,500, yn gynwysedig	11.2
Mwy na £50,500 a hyd at £60,600, yn gynwysedig	11.3
Mwy na £60,600 a hyd at £101,000, yn gynwysedig	11.7
Mwy na £101,000 a hyd at £121,200, yn gynwysedig	12.1
Mwy na £121,200	12.5

Ar gyfer cynllun 1992 a'r cynlluniau Diwygiedig, roedd cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr yn 25.5% o'r cyflog pensiynadwy, ac roedd cyfraddau'r cyflogeion yn unol â bandiau'r cyflog pensiynadwy y manylir arnynt isod:

Band Cyflog Pensiynadwy	Cyfradd Cyfraniadau 2015-16 %
Hyd at ac yn cynnwys £15,150	11.0
Mwy na £15,150 a hyd at £21,210, yn gynwysedig	12.2
Mwy na £21,210 a hyd at £30,300, yn gynwysedig	14.2
Mwy na £30,300 a hyd at £40,400, yn gynwysedig	14.7
Mwy na £40,400 a hyd at £50,500, yn gynwysedig	15.2
Mwy na £50,500 a hyd at £60,600, yn gynwysedig	15.5
Mwy na £60,600 a hyd at £101,000, yn gynwysedig	16.0
Mwy na £101,000 a hyd at £121,200, yn gynwysedig	16.5
Mwy na £121,200	17.0

Nid yw Cyfrif Cronfa Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn gwneud cyfrif am rwymedigaethau ar gyfer pensiynau a buddion eraill ar ôl diwedd y cyfnod, gan mai cyfrifoldeb yr Awdurdod yw hyn. Mae manylion ymrwymadau hirdymor y pensiynau i'w gweld yn Nodyn 33 i'r datganiadau ariannol craidd (£382.550 miliwn ar 31 Mawrth 2016 a £442.301 miliwn ar 31 Mawrth 2015).

RHESTR O DERMAU A DDEFNYDDIR YN Y DATGANIAD O GYFRIFON

Mae'r rhestr hon o dermau wedi'i chynllunio i'ch cynorthwyo i ddeall Datganiad o Gyfrifon yr Awdurdod.

ADDASIADAU CYN Y CYFNOD

Yr addasiadau cyn y cyfnod yw'r addasiadau perthnasol hynny sy'n gysylltiedig â blynyddoedd blaenorol, ac sy'n deillio o newidiadau mewn polisiau cyfrifyddu neu o gywiro cyfeiliornadau sylfaenol. Mae cyfeiliornad sylfaenol yn gyfeiliornad sydd mor arwyddocaol fel ei fod yn dinistrio dilysrwydd y datganiadau ariannol. Nid yw hyn yn cynnwys cywiriadau cylchol arferol nac addasiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol.

ASEDAU ANGHYFREDOL

Asedau sy'n cynhyrchu buddion ar gyfer yr Awdurdod a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu, a hynny am gyfnod o fwy na blwyddyn. Ymhlith yr enghreifftiau y mae tir, adeiladau a cherbydau.

ASEDAU CYFREDOL

Asedau cyfredol yw'r asedau y mae yna ddisgwyl rhesymol iddynt gael eu defnyddio neu eu gwireddu o fewn y 12 mis nesaf, e.e. stociau, dyledwyr, arian parod.

ASEDAU HIRDY MOR

Mae asedau hirdymor yn asedau sy'n cynhyrchu buddion i'r Awdurdod a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu, a hynny am gyfnod o fwy na 12 mis.

ASEDAU SEFYDLOG ANGHYFFYRDDADWY

Mae'r rhain yn asedau sefydlog nad oes iddynt unrhyw sylwedd ffisegol ond y gellir eu nodi a'u rheoli gan yr Awdurdod. Enghreifftiau yw meddalwedd, trwyddedau a phatentau.

BUDDION YMDDEOL

Buddion ymddeol yw pob math o ystyriaeth a roddir gan yr Awdurdod yn gyfnewid am wasanaethau a ddarperir gan gyflogeion, ac sy'n daladwy ar ôl i'r gyflogaeth ddod i ben. Nid yw buddion ymddeol yn cynnwys buddion terfynu sy'n daladwy o ganlyniad i naill ai 1) penderfyniad yr Awdurdod i derfynu cyflogaeth cyflogai cyn y dyddiad ymddeol arferol neu 2) penderfyniad cyflogai i gollu gwaith yn wirfoddol yn gyfnewid am y buddion hynny, oherwydd ni roddir y rhain yn gyfnewid am wasanaethau a ddarperir gan gyflogeion.

CRAIDD CORFFORAETHOL DEMOCRATAIDD

Mae'r craidd corfforaethol a democrataidd yn cynnwys yr holl weithgareddau y mae'r Awdurdod yn cymryd rhan ynddynt, a hynny yn benodol oherwydd ei fod yn Awdurdod etholedig. Gan hynny, mae cost y gweithgareddau hyn yn fwy na'r hyn y byddai cyfres o gyrff annibynnol, enwebedig yn mynd iddynt wrth reoli'r un gwasanaethau. Felly, nid oes yna sail resymegol dros ddosrannu'r costau hyn i wasanaethau.

CREDYDWYR

Credydwyr yw'r endidau y mae ar yr Awdurdod symiau iddynt am waith a wnaed, neu am nwyddau neu wasanaethau a gafwyd, ond nad yw'r taliad ar eu cyfer wedi cael ei wneud erbyn dyddiad data'r fantolen.

CRONFEYDD WRTH GEFN

Cronfeydd wrth gefn yw'r symiau a osodir o'r neilltu i dalu am hapddigwyddiadau yn y dyfodol, ond nad yw'r defnydd ohonynt yn effeithio ar wariant net yr Awdurdod mewn

blwyddyn benodol. Ni ellir gwneud dyraniadau i mewn ac allan o gronfeydd wrth gefn yn uniongyrchol o'r cyfrif refeniw. Mae hwn yn wahaniaeth hollbwysig rhwng darpariaethau a chronfeydd wrth gefn.

CRONFEYDD WRTH GEFN WEDI'U CLUSTNODI

Mae'r Awdurdod yn dal nifer o gronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi i gael eu defnyddio i fodloni gwariant penodol, hysbys neu ragweladwy yn y dyfodol.

CRONIADAU

Croniadau yw'r symiau a gydnabyddir yn y cyfrifon wrth iddynt gael eu hennill neu wrth iddynt gael eu hysgwyddo, ac nid wrth i'r arian ddod i law neu gael ei dalu. Mae cyfrifyddu ar sail cronladau yn ei gwneud yn ofynnol i effeithiau anariannol trafodiadau gael eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu pan brofir yr effeithiau hynny, ac nid yn y cyfnod y bydd unrhyw arian yn dod i law neu'n cael ei dalu.

CYDNABYDDIAETH ARIANNOL

Cydnabyddiaeth ariannol yw'r holl symiau a dalwyd i gyflogai neu a gafodd y cyflogai hwnnw, y symiau sy'n ddyledus trwy lwfansau treuliau (cyhyd ag y gellir codi tâl am y symiau hynny ar dreth incwm y Deyrnas Unedig), a gwerth ariannol unrhyw fuddion a gafwyd nad oeddent ar ffurf arian parod. Mae cyfraniadau pensiwn sy'n daladwy gan y cyflogwr yn eithriedig.

CYLLIDEB

Datganiad o gynlluniau gwario'r Awdurdod ar gyfer y gwariant refeniw a chyfalaf dros gyfnod penodol.

CYNLLUN BUDDION WEDI'U DIFFINIO

Cynllun pensiwn neu gynllun buddion ymddeol arall, lle mae rheolau'r cynllun yn diffinio'r buddion yn annibynnol ar y cyfraniadau sy'n daladwy, a lle nad yw'r buddion yn uniongyrchol gysylltiedig â buddsoddiadau'r cynllun. Gall y cynllun fod wedi'i ariannu neu heb ei ariannu.

DARPARIAETH

Darpariaeth yw swm a osodir o'r neilltu i dalu rhwymedigaeth bosibl yn y dyfodol, ond mae'r union swm, ynghyd â'r dyddiad y bydd y rhwymedigaeth yn daladwy, yn ansicr.

DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW (MPR)

Y ddarpariaeth isafswm refeniw yw'r swm lleiaf y mae'n rhaid ei osod o'r neilltu o refeniw tuag at ad-dalu benthyciad neu ddyled.

DERBYNIADAU CYFALAF

Incwm a ddaw i law o ganlyniad i werthu tir neu asedau cyfalaf eraill, y gellir defnyddio cyfran ohono i gyllido gwariant cyfalaf newydd, yn ddibynnol ar y darpariaethau sy'n rhan o'r ddeddfwriaeth berthnasol.

DIBRISIAN

Mae dibrisiant yn fesur o draul, defnydd neu ostyngiad arall yn oes economaidd ddefnyddiol ased anghyfredol, pa un a yw'n deillio o ddefnydd, treigl amser neu ddarfodiad, a hynny trwy naill ai newidiadau ym maes technoleg neu yn y galw am y nwyddau a'r gwasanaethau a gynhrychir gan yr ased.

DIFFYGIANT

Diffygiant yw gostyngiad yng ngwerth ased anghyfredol, islaw ei swm cario ar y fantolen.

DIGWYDDIADAU ÔL-FANTOLEN

Y digwyddiadau ôl-fantolen yw'r digwyddiadau hynny sy'n digwydd rhwng dyddiad y fantolen a'r dyddiad y llofnodir y Datganiad o Gyfrifon gan y swyddog cyfrifol.

DYLEDWYR

Dyledwyr yw'r endidau y mae arnynt symiau i'r Awdurdod am waith a wnaed, neu am nwyddau neu wasanaethau a gyflawnwyd, ond nad yw'r incwm ar eu cyfer wedi dod i law erbyn dyddiad data'r fantolen.

GWARIANT CYFALAF

Gwariant cyfalaf yw'r gwariant ar gaffael, adeiladu neu wella asedau anghyfredol, er enghraifft tir, adeiladau, cerbydau a chyfarpar, neu wariant sy'n ychwanegu at werth yr ased sy'n bodoli, ac nid dim ond yn cynnal y gwerth hwnnw.

GWARIANT REFENIW

Gwariant refeniw yw'r arian sy'n cael ei wario ar y costau cynnal o ddydd i ddydd o ganlyniad i ddarparu gwasanaethau. Mae iddo natur gyloch fel arfer, ac nid yw'n creu unrhyw ased parhaol.

GWERTH DICHONADWY NET (NRV)

Y gwerth dichonadwy net yw gwerth yr ased ar y farchnad agored yn unol â'i ddefnydd presennol (neu'r gwerth ar y farchnad agored yn achos asedau anweithredol) llai'r treuliau yr eir iddynt wrth wireddu'r ased.

GWERTH NET AR BAPUR (NBV)

Y gwerth net ar bapur yw swm yr asedau anghyfredol fel y maent wedi'u cynnwys yn y Fantolen, h.y. eu cost hanesyddol neu eu gwerth cyfredol llai y symiau cronus sy'n darparu ar gyfer dibrisiant.

GWERTH TEG

Gwerth teg ased yw'r pris y gellid ei gyfnewid amdano mewn trafodiad hyd braich, llai unrhyw grantiau a geir tuag at brynu neu ddefnyddio'r ased, lle bo hynny'n berthnasol.

LLYWODRAETH CYMRU

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y polisi cenedlaethol ar lywodraeth leol a gwasanaethau tân ac achub.

MANTOLEN

Mae'r Fantolen yn sylfaenol i ddeall sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r Fantolen yn dangos, ar ddyddiad y Fantolen, gwerthoedd yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan yr Awdurdod. Mae asedau net yr Awdurdod (asedau llai rhwymedigaethau) yn cyfateb i'r cronfeydd wrth gefn a ddelir gan yr Awdurdod.

OFFERYNNAU ARIANNOL

Offeryn ariannol yw unrhyw gontract sy'n arwain at ased ariannol un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti endid arall. Mae'r term offeryn ariannol yn cwmpasu asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol, fel ei gilydd, ac mae'n cynnwys yr asedau a'r rhwymedigaethau ariannol symlaf, er enghraifft symiau masnach derbyniadwy a symiau masnach taladwy, yn ogystal â'r rhai mwyaf cymhleth, er enghraifft deilliannau a deilliannau wedi'u mewnbrannu.

POLISIŶAU CYFRIFYDDU

Mae'r rhain yn penodi polisiâu a gweithdrefnau a ddefnyddir gan yr Awdurdod i baratoi ei Ddatganiadau Ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys unrhyw ddulliau, systemau mesur a gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno datgeliadau.

RHESTRI EIDDO

Rhestri eiddo yw swm y nwyddau nas defnyddiwyd ac a ddelir yn y disgwyliad y cânt eu defnyddio yn y dyfodol. Pan na fydd yr eiddo'n cael ei ddefnyddio tan yn ddiweddarach, mae'n briodol cario'r swm ymlaen i gyd-fynd â'r defnydd pan fydd yn digwydd.

RHWYMEDIGAETHAU

Dyma'r symiau sy'n ddyledus i unigolion neu sefydliadau y bydd yn rhaid iddynt gael eu talu rhywbryd yn y dyfodol. Mae rhwymedigaethau cyfredol fel arfer yn daladwy o fewn blwyddyn i ddyddiad y Fantolen.

RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL

Rhwymedigaethau cyfredol yw'r symiau sy'n ddyledus gan yr Awdurdod, ac sy'n daladwy o fewn y 12 mis nesaf, e.e. benthyciad byrdymor, credydwyr byrdymor, ac arian parod a ordynnwyd.

RHWYMEDIGAETHAU HIRDY MOR

Mae rhwymedigaethau hirdymor yn symiau sy'n ddyledus gan yr Awdurdod, ac sy'n daladwy ymhen mwy na 12 mis.

SWM CARIO

Y gwerth a gofnodir ar y Fantolen ar gyfer naill ai ased neu rwymedigaeth.

Y GRONFA GYFFREDINOL

Dyma'r brif gronfa refeniw i'r Awdurdod, ac mae'n cynnwys cost net yr holl wasanaethau a ariennir gan drethdalwyr lleol a grantiau'r llywodraeth.